# Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru
# Seithfed Adroddiad Blynyddol
# 1 Ebrill 2025 –
# 31 Mawrth 2026

Awst 2026

Tribiwnlysoedd Cymru
Welsh Tribunals
Llywydd / President

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 1 | Cyflwyniad | 3 |
| 2 | Swydd Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru | 5 |
| 3 | Llwyth Gwaith | 6 |
| 4 | Trosolwg Ariannol | 7 |
| 5 | Deddf Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru (Aelodaeth) 2026 | 10 |
| 6 | Y Rhaglen Diwygio Tribiwnlysoedd | 11 |
| 7 | Hyfforddiant Barnwrol | 13 |
| 8 | Cynhwysiant ac Amrywiaeth | 14 |
| 9 | Yr Iaith Gymraeg | 15 |
| 10 | Hygyrchedd ac Ymgysylltu | 17 |
| 11 | Ymddeoliadau a Phenodiadau | 17 |
| 12 | Sylwadau Terfynol | 19 |

Atodiadau

Atodiad 1: Manylion Cyswllt Tribiwnlysoedd Cymru 20

Atodiad 2: Blaenoriaethau Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru 2025/26 21

Atodiad 3: Trosolwg o'r Data 22

Atodiad 4: Crynodeb o Ddata Cynhwysiant ac Amrywiaeth: Arolwg Hydref 2025 25

Anecsau: Adroddiadau Blynyddol Tribiwnlysoedd Cymru (gan gynnwys Ystadegau Achosion, Dangosyddion Perfformiad Allweddol a Blaenoriaethau ar gyfer 2026-27)

Anecs 1: Adroddiad Blynyddol Panel Dyfarnu Cymru 29

Anecs 2: Adroddiad Blynyddol Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru 37

Anecs 3: Adroddiad Blynyddol Tribiwnlys Addysg Cymru 43

Anecs 4: Adroddiad Blynyddol Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru 60

Anecs 5: Adroddiad Blynyddol Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru 72

Anecs 6: Adroddiad Blynyddol Tribiwnlys y Gymraeg 88


OGL © Hawlfraint y Goron 2026, Llywodraeth Cymru, WG55100 ISBN digidol 978-1-80853-323-5

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# 1 Cyflwyniad

1.1 Sefydlwyd swydd Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru o dan adran 60 o Ddeddf Cymru 2017, sy'n gosod rhwymedigaeth benodol ar ddeiliad y swydd i gyfleu barn aelodau Tribiwnlysoedd Cymru i Weinidogion Cymru ac i Senedd Cymru. Gwneir hyn yn rhannol drwy baratoi Adroddiad Blynyddol a gyflwynir i'r Prif Weinidog ac i Lywydd y Senedd. Dyma'r Adroddiad ar gyfer y flwyddyn ariannol o fis Ebrill 2025 i fis Mawrth 2026, a'r Seithfed Adroddiad Blynyddol a baratowyd gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru.

1.2 Mae Tribiwnlysoedd perthnasol Cymru yn gweithredu mewn meysydd datganoledig yng Nghymru ac maent wedi'u nodi yn adran 59 o Ddeddf 2017 fel y'i diwygiwyd. Dyma'r Tribiwnlysoedd hynny:

(a) Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru/the Agricultural Land Tribunal for Wales;

(b) Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru/the Mental Health Review Tribunal for Wales;

(c) Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru/the Residential Property Tribunal Wales (sy'n cynnwys tri thribiwnlys cyfansoddol: pwyllgorau asesu rhenti a gyfansoddwyd yn unol ag Atodlen 10 i Ddeddf Rhenti 1977, tribiwnlys prisio lesddaliadau a thribiwnlys eiddo preswyl);

(d) Tribiwnlys Addysg Cymru/the Education Tribunal for Wales (sydd hefyd yn rheoli awdurdodaethau tribiwnlysoedd yn ymwneud â chofrestru arolygwyr ysgolion ac arolygwyr addysg feithrin);

(e) Panel Dyfarnu Cymru/the Adjudication Panel for Wales; ac

(f) Tribiwnlys y Gymraeg/The Welsh Language Tribunal.

1.3 Fel arfer, mae gwrandawiadau tribiwnlys yn cael eu llywyddu gan banel o dri deiliad swydd farnwrol. Mae cyfansoddiad pob panel yn amrywio ychydig yn dibynnu ar y tribiwnlys, ond mae'r rolau ym mhob tribiwnlys yn debyg ar y cyfan, sef fel a ganlyn.

| | |
|---|---|
| Llywydd/ Arweinydd Barnwrol | Mae gan y Llywydd/Arweinydd Barnwrol gyfrifoldeb barnwrol dros y Tribiwnlys a'i aelodau. |
| Dirprwy Lywydd | Mae'r Dirprwy Lywydd yn cefnogi'r Llywydd ac yn cyflawni dyletswyddau'r Llywydd os nad yw'r unigolyn hwnnw'n gallu cyflawni ei ddyletswyddau, naill ai dros dro neu'n barhaol. |
| Barnwyr Tribiwnlys | Cyfreithwyr cymwysedig yw Barnwyr Tribiwnlys, sy'n gyfrifol am reoli'r gweithrediadau mewn gwrandawiadau, gan sicrhau eu bod yn cael eu cynnal yn deg ac yn unol â gofynion y cyfreithiau perthnasol, a rhoi cyngor ar unrhyw gwestiynau cyfreithiol a allai godi. Mae'r Barnwr Tribiwnlys hefyd yn gyfrifol am bennu cyfarwyddiadau lle bo angen ac, mewn ymgynghoriad ag aelodau eraill y Tribiwnlys, am ysgrifennu'r rhesymau dros y penderfyniad, ac am lofnodi'r cofnod o'r penderfyniad. |

| | |
|---|---|
| Aelodau Meddygol | Seiciatryddion ymgynghorol yw'r Aelodau Meddygol yn Nhribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru. Maent yn cynnal archwiliad o'r claf cyn y gwrandawiad, gan ffurfio barn am gyflwr meddyliol y claf. Yn y gwrandawiad, gallant gynghori aelodau eraill y Tribiwnlys ar unrhyw faterion meddygol, ac, ar y cyd â'r aelodau eraill, byddant yn penderfynu ar ganlyniad y gwrandawiad. |
| Aelodau Proffesiynol | Syrfëwyr a phriswyr yw'r Aelodau Proffesiynol yn Nhribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru. Gydag aelodau eraill y panel, byddant yn ymweld â'r safle cyn y gwrandawiad, sy'n cyfrannu at weithrediadau'r Tribiwnlys, ac maent yn dod ag ystod eang o wybodaeth a phrofiad perthnasol i benderfynu ar ganlyniad y gwrandawiad, ar y cyd â'r aelodau eraill. |
| Aelodau Arbenigol | Mae gan Aelodau Arbenigol Tribiwnlysoedd ystod eang o wybodaeth a phrofiad sy'n berthnasol i waith y Tribiwnlys, ac maent yn dod â hynny i bob gwrandawiad. Maent yn chwarae rhan lawn, gan gyfrannu gyda'u gwybodaeth a'u profiad o'r pwnc sy'n cael ei ystyried, ac mae ganddynt lais sy'n gyfartal â llais yr Aelodau eraill (gan gynnwys Barnwyr Tribiwnlys) wrth wneud penderfyniadau'r Tribiwnlys. |
| Ysgrifenyddiaeth | Mae'r Ysgrifenyddiaeth yn gweithredu fel pwynt cyswllt ar gyfer Barnwyr Tribiwnlys, Aelodau a Defnyddwyr y Tribiwnlys ac mae'n bosibl y byddant yn mynd i rai gwrandawiadau i helpu i'w cynnal yn effeithlon. Mae'r weinyddiaeth o ddydd i ddydd yn cael ei dirprwyo i raddau helaeth i'r Ysgrifenyddiaeth, sy'n ymdrin â'r holl waith papur rhagarweiniol a phrosesu ceisiadau i'r Tribiwnlys, ynghyd ag anfon y dyfarniadau a'r cyfarwyddiadau gan Farnwyr Tribiwnlys at Ddefnyddwyr y Tribiwnlys. Nid oes gan aelodau'r Ysgrifenyddiaeth gymwysterau cyfreithiol. |

1.4 Er mwyn gwneud yr wybodaeth yn fwy hygyrch, cyson a thryloyw, rwyf wedi penderfynu cyhoeddi Adroddiad Blynyddol cyfun eleni ac o hyn ymlaen. Mae'r fformat hwn yn cyfuno fy Adroddiad Blynyddol fel Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru ag adroddiadau unigol y chwe Thribiwnlys datganoledig, sydd i'w gweld fel Anecsau i'r Adroddiad hwn.

1.5 Fel yr esboniwyd yn fy Adroddiad Blynyddol diwethaf (y Chweched Adroddiad), mae'r tribiwnlysoedd canlynol yn gweithredu yng Nghymru ond nid ydynt wedi'u cynnwys yn adran 59, ac nid ydynt yn rhan o'm cylch gwaith.

(a) Tribiwnlysoedd heb eu datganoli sy'n rhan o'r system tribiwnlysoedd sy'n gweithredu ledled Cymru a Lloegr a ddiwygiwyd gan Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007, fel y rhai sy'n dyfarnu ar fudd-daliadau nawdd cymdeithasol a chynnal plant, mewnfudo a lloches, a chyflogaeth.

Gweinyddir y rhain gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi ("GLITEF"), ac Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd yw pennaeth eu barnwriaeth. Yn yr Adroddiad hwn, byddaf yn cyfeirio atynt fel "tribiwnlysoedd GLITEF".

(b) Tribiwnlysoedd sy'n gweithredu mewn meysydd datganoledig yng Nghymru, ond nid o dan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru. Er enghraifft, Tribiwnlys Prisio Cymru, sydd â'i strwythurau cyfreithiol, barnwrol a gweinyddol ei hun; a thribiwnlysoedd sy'n penderfynu ar apeliadau derbyniadau i ysgolion a gwaharddiadau o ysgolion, a weinyddir gan awdurdodau addysg lleol heb unrhyw strwythurau cyffredinol.

1.6 Mae Tribiwnlysoedd Cymru yn cael eu cefnogi gan Uned Tribiwnlysoedd Cymru, sy'n rhan o wasanaeth cyhoeddus Llywodraeth Cymru, ond mae'n gweithredu mor annibynnol ag sy'n bosibl yn ymarferol, a'r annibyniaeth honno'n cael ei hannog a'i chefnogi gan Lywodraeth Cymru. Mae Uned Tribiwnlysoedd Cymru yn cynnwys yr hyn sy'n cyfateb i 37 aelod o staff amser llawn sydd wedi'u lleoli ledled Cymru.

1.7 Mae manylion cyswllt pob un o Dribiwnlysoedd Cymru ar gael yn Atodiad 1.

# 2 Swydd Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru

2.1 Yn fy Adroddiad diwethaf, nodais natur a rôl Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, a byddai'n ddefnyddiol ailadrodd hynny yma.

2.2 Fel yr wyf wedi'i nodi, cafodd swydd Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru ei chreu gan Ddeddf Cymru 2017, sy'n un o statudau'r DU. Er bod y rôl wedi'i chyfyngu i dribiwnlysoedd datganoledig sy'n ymdrin â phwnc datganoledig, nid yw'r swydd yn awdurdod Cymreig datganoledig at ddibenion Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

2.3 Nid yw Deddf 2017 yn diffinio pwerau a dyletswyddau'r Llywydd yn gynhwysfawr, ond mae'n ymhlyg yn adran 60 mai'r Llywydd yw'r barnwr uchaf o fewn Tribiwnlysoedd Cymru ac, yn ogystal â'r dyletswyddau y cyfeirir atynt yn benodol yn y Ddeddf, mae'n arfer rôl oruchwyliol dros bob un o'r tribiwnlysoedd hynny. Yn ychwanegol at gyfarfodydd sy'n ymwneud â thribiwnlysoedd penodol, byddaf yn cwrdd ag Arweinwyr Barnwrol Tribiwnlysoedd Cymru ac uwch aelodau Uned Tribiwnlysoedd Cymru bob chwarter, fan lleiaf, i drafod materion sy'n croesi ffiniau tribiwnlysoedd.

2.4 Mae dyletswyddau penodol y Llywydd a ragnodir gan adran 60 wedi'u cyfyngu i gynrychioli safbwyntiau aelodau Tribiwnlysoedd Cymru i Weinidogion Cymru ac i aelodau eraill o'r Senedd fel y disgrifir uchod; ac i gynnal trefniadau priodol ar gyfer hyfforddiant, canllawiau a lles aelodau Tribiwnlysoedd Cymru o fewn yr adnoddau a ddarperir gan Weinidogion Cymru. Yn unol â'r pwerau hyn, gall y Llywydd (er enghraifft) ddyroddi Nodiadau Cyfarwyddyd i aelodau tribiwnlysoedd.

2.5 Wrth arfer y pwerau goruchwylio ehangach hyn, mae adran 60(4) hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Llywydd roi sylw i'r angen i achosion sydd gerbron Tribiwnlysoedd Cymru fod yn deg a chael eu trin yn gyflym ac yn effeithlon; i aelodau fod yn arbenigwyr priodol yn y pwnc neu'r gyfraith a ddefnyddir yn eu tribiwnlysoedd; ac i ddatblygu dulliau arloesol o ddatrys anghydfodau sydd o fath y gellir eu dwyn gerbron y tribiwnlysoedd hynny.

2.6 Rwyf hefyd yn ystyried bod rôl y Llywydd o ran dehongli, a thrwy hynny, ddatblygu'r gyfraith yn y meysydd datganoledig yn bwysig. Nid oes gan y Llywydd unrhyw bŵer statudol penodol i eistedd – a, hyd yma, nid yw wedi eistedd – mewn unrhyw Dribiwnlys yng Nghymru, sy'n sefyllfa sy'n debygol o newid yn rhan o unrhyw raglen i ddiwygio tribiwnlysoedd. Fodd bynnag, yn y cyfamser, rwyf wedi cael fy mhenodi'n Farnwr Siambr Apeliadau Gweinyddol yr Uwch Dribiwnlys (un o dribiwnlysoedd GLITEF) i wrando ar apeliadau o Dribiwnlysoedd Cymru. Fe ymdriniais â nifer o apeliadau yn ystod y 12 mis y mae'r Adroddiad hwn yn eu cwmpasu, yn enwedig apeliadau o Dribiwnlys Addysg Cymru mewn perthynas â'r gyfreitheg sy'n datblygu o ran darpariaeth mewn ymateb i Anghenion Dysgu Ychwanegol o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Os bydd apeliadau'n mynd ymhellach, ac os nad wyf wedi eistedd ar yr apêl gyntaf, gallaf hefyd eistedd yn y Llys Apêl (Adran Sifil).

2.7 Fel Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, rwyf yn eistedd ar nifer o gyrff sy'n ymwneud â'r system gyfiawnder ehangach yng Nghymru (fel Pwyllgor Cymreig Cyngor y Barnwyr dan gadeiryddiaeth yr Arglwyddes Brif Ustus, Bwrdd Gweithredol Cyngor y Gyfraith yng Nghymru, Pwyllgor Cynghori Cymru Comisiwn y Gyfraith, a Phwyllgor Sefydlog yr Arglwydd Ganghellor ar yr Iaith Gymraeg) a systemau'r tribiwnlysoedd ar draws y DU (fel Bwrdd Gweithredol Barnwriaeth y Tribiwnlysoedd, y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a'r Bwrdd Cyfiawnder Agored a Thryloywder). Mae'r cyrff hyn yn cwrdd yn rheolaidd, ac yn fy ngalluogi i, fel Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau yn y system gyfiawnder ehangach yng Nghymru a'r systemau tribiwnlysoedd yn y pedair awdurdodaeth gartref, ac i ddylanwadu ar y datblygiadau hynny.

2.8 Fel yn y flwyddyn flaenorol, nodais sawl maes yr ystyriais fod cyfiawnhad dros eu blaenoriaethu yn y flwyddyn 2025-26, sef diwygio tribiwnlysoedd, hyfforddiant barnwrol, a chynhwysiant ac amrywiaeth. Atodaf y ddogfen a gyhoeddais ar ddechrau'r flwyddyn lle nodais y blaenoriaethau hyn a'r camau roeddwn yn bwriadu eu cymryd i'w cyflawni (Atodiad 2). Rwyf yn adolygu'r meysydd blaenoriaeth hyn isod (adrannau 6-8).

# 3 Llwyth Gwaith

3.1 Mae nifer y ceisiadau a gafodd Tribiwnlysoedd Cymru ym mlwyddyn ariannol 2025-26 wedi'u nodi isod, ac mae'r ffigurau ar gyfer 2021-22, 2022-23, 2023-24 a 2024-25 wedi'u cynnwys er mwyn cymharu.

**Tabl 1: Nifer y ceisiadau fesul tribiwnlys**

| Tribiwnlys | Blwyddyn Ariannol 2021-22 | Blwyddyn Ariannol 2022-23 | Blwyddyn Ariannol 2023-24 | Blwyddyn Ariannol 2024-25 | Blwyddyn Ariannol 2025-26 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Panel Dyfarnu Cymru** | 10 | 3 | 6 | 6 | 1 |
| **Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru** | 20 | 28 | 17 | 13 | 14 |
| **Tribiwnlys Addysg Cymru** | 151 | 90 | 108 | 134 | 182 |

| Tribiwnlys | Blwyddyn Ariannol 2021-22 | Blwyddyn Ariannol 2022-23 | Blwyddyn Ariannol 2023-24 | Blwyddyn Ariannol 2024-25 | Blwyddyn Ariannol 2025-26 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru** | 1,840 | 1,747 | 1,798 | 1,825 | 1,869 |
| **Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru** | 113 | 182 | 184 | 118 | 198 |
| **Tribiwnlys y Gymraeg** | 3 | 1 | 2 | 3 | 2 |

3.2 Mae rhagor o wybodaeth am natur y gwaith a wnaed a'i nodweddion ar gael yn Atodiad 3 ac yn yr adroddiadau gan y tribiwnlysoedd penodol sydd wedi'u cynnwys fel anecsau i'r Adroddiad hwn.

# 4 Trosolwg Ariannol

### Dyraniadau Cyllideb a Gwariant Blwyddyn Ariannol 2025-26

4.1 Mae'r gyllideb sy'n cael ei dyrannu i Dribiwnlysoedd Cymru yn cwmpasu costau rhedeg barnwrol a gweinyddol. Dyrannwyd cyfanswm o £6,379,000 ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26. Fodd bynnag, roedd y gwir wariant yn fwy na'r dyraniadau hyn, gyda chyfanswm y gwariant yn £6,481,092, sef £102,092 yn fwy na'r gyllideb.

4.2 Roedd costau rhedeg a chostau hyfforddiant y Tribiwnlysoedd unigol fel a ganlyn:

| Tribiwnlys | Cyfanswm costau rhedeg y Tribiwnlys* | Y gyfran a briodolwyd i hyfforddiant* |
|---|---|---|
| **Panel Dyfarnu Cymru** | £75,500 | £4,800 |
| **Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru** | £37,300 | £4,000 |
| **Tribiwnlys Addysg Cymru** | £404,800 | £32,200 |
| **Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru** | £3,523,400 | £85,700 |
| **Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru** | £443,600 | £14,500 |
| **Tribiwnlys y Gymraeg** | £52,900 | £4,800 |
| **Cyfanswm** | **£4,537,500** | **£146,000** |

*Talgrynnwyd i'r £100 agosaf.

Gellir priodoli'r gwahaniaeth rhwng cyfanswm costau rhedeg y Tribiwnlysoedd yn nhabl 4.2 uchod a chyfanswm y gwariant a amlinellir ym mharagraff 4.1 i gost gweinyddu'r Tribiwnlysoedd a'r swyddogaethau cymorth canolog a ddarperir gan staff Uned Tribiwnlysoedd Cymru.

## Dyraniad Cyllideb 2026-27

4.3 Ym mlwyddyn ariannol 2025–26, cynyddwyd cyllideb Tribiwnlysoedd Cymru i gyd-fynd yn fwy cywir â'r gwir wariant. Mae addasu'r gyllideb, a gweithio'n agosach gyda gweinyddiaeth Llywodraeth Cymru ar faterion yn ymwneud â'r gyllideb, yn ddatblygiadau i'w croesawu. Maent yn galluogi rheolaeth ariannol fwy gwybodus – a gwell, o ganlyniad – ar ein swyddogaethau; a byddant o gymorth mawr o safbwynt y trawsnewid sy'n cael ei gynnig yn y Rhaglen Diwygio Tribiwnlysoedd (gweler isod).

4.4 Mae'r dyraniad cyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol 2026-27 wedi'i bennu ar £6.616m. Mae hyn yn cynnwys cyllideb sylfaenol o £6.176m, gyda £400,000 arall wedi'i ddyrannu ar gyfer gwaith sy'n ymwneud yn benodol â gweithredu'r Ddeddf Iechyd Meddwl a £40,000 i ariannu'r llwyth gwaith ychwanegol sy'n gysylltiedig â newidiadau deddfwriaethol ym maes Anghenion Dysgu Ychwanegol.

## Yr Angen am Fuddsoddiad TG

4.5 Soniais y llynedd am yr angen hollbwysig a brys i ddatblygu a gweithredu system TG fodern ar gyfer Tribiwnlysoedd Cymru. Mae'r seilwaith presennol yn mynd yn fwyfwy hen ffasiwn, ac nid oes ganddo'r nodweddion ymarferol sydd eu hangen i gefnogi'r gwaith o adrodd ar ddata, cynnal gwrandawiadau digidol a rheoli achosion yn effeithlon. Yn wir, mae ymhell iawn o fod yn ddigonol. Mae rhai tribiwnlysoedd yn parhau i weithredu heb system gyfrifiadurol effeithiol o gwbl, gan weithredu, yn hytrach, ar system taenlenni ar bapur ayb. Mae diffyg systemau rheoli achosion priodol yn golygu diffyg data rheoli sydd, yn ei dro, yn golygu bod rheolaeth (gan gynnwys rheolaeth ariannol) yn fwy anodd.

4.6 Mae buddsoddi mewn llwyfan TG addas i'r diben yn hanfodol i sicrhau bod ein tribiwnlysoedd yn gallu gweithredu'n effeithiol, yn ddiogel ac yn unol â'r safonau cyfoes o ran darparu cyfiawnder digidol.

4.7 Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn yr angen hwn ac wedi cymeradwyo ein cais am y gwariant cyfalaf angenrheidiol ar system rheoli achosion newydd ar gyfer ein holl dribiwnlysoedd. Dyrannwyd cyllid yn ystod 2025-26 i ddatblygu a gweithredu system rheoli achosion newydd ar gyfer tribiwnlysoedd. Yn anffodus, oherwydd (ymhlith pethau eraill) bod adnoddau dynol dan bwysau, cafodd gwasanaethau a systemau TG Uned Tribiwnlysoedd Cymru eu diweddaru yn arafach na'r disgwyl, gan olygu nad oedd yn bosibl gweithredu hyn yn ystod 2025-26.

4.8 Fodd bynnag, mae'r angen a'r uchelgais i ddiweddaru'r seilwaith TG yn parhau, ac mae'r cyllid ar gyfer system rheoli achosion i wasanaethu nid dim ond y Tribiwnlysoedd presennol ond unrhyw Dribiwnlysoedd fydd yn cael eu cynnwys yn y system ddiwygiedig arfaethedig (gweler isod) wedi cael ei drosglwyddo i flwyddyn ariannol 2026-27, a bydd timau barnwrol a gweinyddol Uned Tribiwnlysoedd Cymru yn gweithio gyda'i gilydd i fwrw ymlaen â'r nod o weithredu hyn yn y flwyddyn ariannol honno.

4.9 Yn y cyfamser, mae gwelliannau wedi cael eu gwneud i systemau drwy drosglwyddo data i system rheoli achosion wedi'i diweddaru ac ychwanegu mwy o nodweddion ymarferol ar gyfer Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru.

## Cyfraddau Tâl

4.10 Yn 2025/26, dyfarnodd Llywodraeth Cymru 4% o gynnydd mewn tâl i ddeiliaid swyddi barnwrol, a oedd yn unol â chyhoeddiad yr Arglwydd Ganghellor ar gyfer deiliaid swyddi barnwrol sy'n eistedd yn llysoedd a thribiwnlysoedd GLITEF, a daeth i rym ym mis Ebrill 2025.

4.11 Fel y nodais yn fy adroddiad diwethaf, mae Tribiwnlysoedd Cymru wedi'u cynnwys yn yr Adolygiad Mawr o'r Strwythur Cyflogau Barnwrol gan y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion, sydd bellach yn mynd rhagddo ers tro. Mae Tribiwnlysoedd Cymru a Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan yn y broses adolygu drwy gynrychiolaeth ar y Grŵp Cynghori a Thystiolaeth. Mae deiliaid swyddi barnwrol wedi cael cyfle i gwrdd â'r tîm adolygu a rhoi tystiolaeth lafar ac mae tystiolaeth ysgrifenedig hefyd wedi cael ei chyflwyno i'r adolygiad. Disgwylir i'r adolygiad gyhoeddi ei adroddiad yng ngwanwyn 2027.

## Gwahaniaethau Parhaus mewn Telerau ac Amodau

4.12 Er gwaethaf y cynnydd a wnaed o ran sicrhau cydraddoldeb mewn cyfraddau tâl, mae gwahaniaethau sylweddol o hyd yn y telerau ac amodau gwasanaeth ehangach, rhwng deiliaid swyddi barnwrol yn Nhribiwnlysoedd Cymru a'r rheini yn nhribiwnlysoedd GLITEF ac i raddau yn Nhribiwnlysoedd Cymru inter se, sy'n arwain at wahaniaethau mewn tâl ar gyfer amser paratoi ac ysgrifennu, er enghraifft.

4.13 Mae'r anghysondebau hyn yn parhau i achosi pryderon ynglŷn â chydraddoldeb a thegwch, ac maent yn debygol o gael effaith andwyol ar forâl a chynllunio'r gweithlu yn y tymor hir. Mae mynd i'r afael â'r gwahaniaethau hyn yn dal yn flaenoriaeth; ac mae'r gwaith o ganfod gwahaniaethau yn parhau, ynghyd â thrafodaethau ynghylch a ddylid mynd i'r afael â gwahaniaethau o'r fath a sut y dylid gwneud hynny. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wrthi'n cynnal ymarfer soffistigedig ar wahaniaethau o'r fath rhwng tribiwnlysoedd GLITEF – ymarfer sydd wedi bod ar waith ers tro – ac rydym yn parhau i edrych arno gyda diddordeb.

## Sylwadau Clo

4.14 Bydd cyflawni swyddogaethau Tribiwnlysoedd Cymru o fewn y cyfyngiadau ariannol bob amser yn heriol. Mae Tribiwnlysoedd Cymru yn parhau i arfer rheolaeth ariannol ddarbodus ac yn parhau i fod yn ymrwymedig i dryloywder ac atebolrwydd.

4.14 Mae addasu'r gyllideb wedi gwella ein gallu i reoli ein swyddogaethau ariannol, ond mae'r rheolaeth honno'n heriol iawn oherwydd diffyg system rheoli achosion ac, felly, data perthnasol. Y gobaith yw y bydd system o'r fath ar waith erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2026-27. Bydd hynny'n garreg sylfaen bwysig ar gyfer y Rhaglen Diwygio Tribiwnlysoedd arfaethedig, sy'n cynnig trosglwyddo mwy o gyfrifoldeb am swyddogaethau ariannol i farnwriaeth y tribiwnlysoedd.

# 5 Deddf Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru (Aelodaeth) 2026

5.1 Cyflwynwyd Deddf Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru (Aelodaeth) 2026 i'r Senedd o dan weithdrefnau brys ar 13 Ionawr 2026, a daeth i rym ar 22 Ionawr 2026, gan newid y rheolau ar gyfer aelodaeth feddygol o Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru. Roedd y statud hon nid yn unig yn hanfodol i sicrhau bod achosion i barhau i gadw ceiswyr agored i niwed yn dal i gael gwrandawiad amserol gerbron Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru, ond hefyd yn dangos gweithrediad tair cangen llywodraeth yng Nghymru ar ei orau.

5.2 Roedd y Ddeddf yn angenrheidiol oherwydd bod mater technegol wedi'i nodi toc cyn Nadolig 2025 mewn perthynas â'r diffiniad o ymarferydd meddygol cofrestredig yn Neddf Iechyd Meddwl 1983 a oedd yn golygu, yn groes i'r meini prawf cymhwyso a oedd wedi cael eu defnyddio gan yr awdurdodau penodi a'r sefyllfa yn Lloegr, ei bod yn ofynnol i aelodau meddygol y Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl fod â chofrestriad y Cyngor Meddygol Cyffredinol a thrwydded i ymarfer. Wedi i'r mater hwn gael ei nodi, gwnaeth Llywydd Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru (y Barnwr Jane McConnell) y penderfyniad anodd, ond anochel, na allai aelodau meddygol heb drwydded gyfredol i ymarfer barhau i eistedd ar achosion. O ganlyniad, peryglwyd gallu'r tribiwnlys i gwrdd â'i amserlenni statudol ar gyfer gwrandawiadau.

5.3 Fodd bynnag, llwyddwyd i osgoi'r canlyniadau difrifol iawn i ddefnyddwyr agored i niwed pe na byddai'r Tribiwnlys yn gallu cyflawni ei rwymedigaethau statudol.

5.4 Yn gyntaf, sicrhaodd yr aelodau meddygol hynny oedd â thrwydded i ymarfer eu bod ar gael ar gyfer gwrandawiadau ychwanegol. Rwy'n eu canmol nhw a staff rhestru Uned Tribiwnlysoedd Cymru, a sicrhaodd fod paneli'n cael eu cyfansoddi'n briodol ac yn amserol, am eu gwaith a'u hymroddiad yn ystod y cyfnod heriol hwn.

5.5 Yn ail, ar gais y Cwnsler Cyffredinol, Julie James AS, bu swyddogion a drafftwyr Llywodraeth Cymru yn gweithio dros wyliau'r Nadolig i gynhyrchu Bil drafft i ddatrys y mater – drwy gael gwared ar yr amod eistedd – fel y gellid cyflwyno'r Bil i'r Senedd ar y diwrnod cyntaf ar ôl toriad y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd. Pasiodd y Bil bob cyfnod o broses y Senedd, a chael Cydsyniad Brenhinol, o fewn wythnos. Deallaf mai dyma'r cyfnod byrraf erioed i'r Senedd ei dreulio yn ystyried a phasio Bil.

5.6 Roedd hon yn ymdrech gydweithredol eithriadol a oedd yn cynnwys Gweinidogion Cymru, y Senedd a barnwriaeth Tribiwnlysoedd Cymru (y Barnwr McConnell yn benodol). Diolch i bawb a fu'n rhan o hyn. Mae'n enghraifft wych o sut gall canghennau llywodraeth yng Nghymru weithio gyda'i gilydd.

# 6 Y Rhaglen Diwygio Tribiwnlysoedd

6.1 Mewn adroddiadau yn y gorffennol, rwyf wedi mynegi fy marn yn glir iawn am yr angen i ddiwygio tribiwnlysoedd yng Nghymru, a'r budd a'r manteision a ddaw yn sgil hynny. Er mwyn galluogi'r system gyfiawnder yng Nghymru i barhau i gyflawni ar ran pobl Cymru, mae'r diwygio'n hanfodol.

6.2 Mae Rhaglen Diwygio Tribiwnlysoedd wedi cael ei datblygu gan Weinidogion Cymru, gan gynnwys drwy Bapur Gwyn a gyhoeddwyd yn 2023. Roedd y cynigion a nodwyd yn y Papur Gwyn yn adeiladu ar sylfaen gadarn o waith cynharach, gan gynnwys argymhellion y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru ("Comisiwn Thomas") (2019) ac Adroddiad Tribiwnlysoedd Datganoledig yng Nghymru (2021) gan Gomisiwn y Gyfraith. Roeddent hefyd yn seiliedig ar brofiadau gweinyddiaethau eraill yn dilyn diwygiadau a wnaed i'r system tribiwnlysoedd a gedwir yn ôl yn sgil Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007 ac yn nhribiwnlysoedd datganoledig yr Alban drwy Ddeddf Tribiwnlysoedd (Yr Alban) 2014.

6.3 Dyma'r amcanion strategol:

(a) sefydlu system dribiwnlysoedd gliriach, symlach, mwy effeithiol a chydlynol sy'n canolbwyntio ar fynediad at gyfiawnder ac anghenion defnyddwyr tribiwnlysoedd;

(b) gosod sylfaen gadarn ar gyfer newidiadau i'r system gyfiawnder yng Nghymru yn y dyfodol; a

(c) gwarchod annibyniaeth farnwrol, gan gynnwys drwy roi mwy o annibyniaeth strwythurol i weinyddu cyfiawnder.

6.4 Yn unol â'r amcanion hyn, dyma brif elfennau'r diwygiadau sy'n cael eu hawgrymu.

(a) Creu system dribiwnlysoedd unedig ar gyfer tribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru, sy'n cynnwys tribiwnlys yr haen gyntaf (y byddai'r tribiwnlysoedd presennol yn siambrau penodol ohono) a Thribiwnlys Apêl Cymru a fyddai'n gwrando ar apeliadau o dribiwnlys yr haen gyntaf. Bwriedir dod â Thribiwnlys Prisio Cymru ac apeliadau derbyniadau i ysgolion a gwaharddiadau o ysgolion i mewn i'r system honno, er nad yn syth o reidrwydd. Yr her yw creu strwythur tribiwnlysoedd unedig, hyblyg a chadarn sy'n gallu amsugno awdurdodaethau'r tribiwnlysoedd datganoledig presennol yn ogystal â phrosesau barnwrol ac apelio eraill a fydd yn deillio o ddeddfwriaeth yn y dyfodol a/neu ddatganoli'r system gyfiawnder ymhellach.

(b) Dyletswydd statudol i gynnal annibyniaeth farnwrol sy'n berthnasol i'r rheini sy'n gyfrifol am weinyddu cyfiawnder fel sy'n berthnasol i'r system dribiwnlysoedd ddiwygiedig yng Nghymru, hynny yw, y Gweinidogion perthnasol ac, o bosibl, Aelodau'r Senedd hefyd.

(c) Gwella ac egluro swydd a rôl Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru drwy gyfeirio at bwerau a dyletswyddau statudol penodol fel llywyddu yng ngwrandawiadau Tribiwnlys Apêl Cymru, goruchwylio cwynion yn erbyn aelodau tribiwnlysoedd a phenderfynu ar gwynion yn erbyn uwch farnwriaeth y tribiwnlysoedd, a chadeirio Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd arfaethedig Cymru (a fyddai'n gyfrifol am reolau pob tribiwnlys yn y system ddiwygiedig arfaethedig).

(d) Bydd aelodau'n parhau i gael eu dewis drwy ymarferiad gan y Comisiwn Penodiadau Barnwrol; ond bydd ffurfioldeb penodiadau'n cael ei symleiddio. Ni fydd gan yr Arglwydd Ganghellor unrhyw rôl. Yn gyffredinol, bydd aelodau'n cael eu penodi'n ffurfiol gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru, er y bydd uwch farnwyr yn cael eu penodi gan Weinidogion Cymru. Bydd Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru yn dod yn benodiad datganoledig.

(e) Gwahanu swyddogaethau gweithredol a gweinyddol y system dribiwnlysoedd newydd yn strwythurol oddi wrth swyddogaethau gweithredol Llywodraeth Cymru, drwy greu Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru neu Adran Anweinidogol lle byddai swyddogaethau Uned Tribiwnlysoedd Cymru yn cael eu rhoi, gyda'r Cadeirydd naill ai'n cael ei benodi gan Lywodraeth Cymru neu gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru ex officio (yr ail opsiwn fyddai'r trefniant gorau yn fy marn i).

6.5 Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Ebrill 2025 a mis Mawrth 2026, ond rwy'n ysgrifennu'n ôl-weithredol ac yn dilyn etholiadau'r Senedd ar 7 Mai 2026. Er y byddai'r adroddiad fel arfer wedi'i gyfyngu i'r hyn a ddigwyddodd yn ystod y flwyddyn dan sylw, o ran y Rhaglen Diwygio Tribiwnlysoedd mae hwn yn brosiect parhaus ac mae'n rhaid cyfeirio at y newid llywodraeth ym mis Mai 2026 er mwyn rhoi'r cyd-destun cywir ar gyfer fy sylwadau ar y flwyddyn dan sylw.

6.6 Nododd Llywodraeth flaenorol Cymru ei hymrwymiad clir i'r Rhaglen Diwygio Tribiwnlysoedd, ac i'r Bil a fyddai'n deddfu ar gyfer hynny. Fodd bynnag, er mwyn cyflawni popeth a nodir ym Mhapur Gwyn 2023, bydd angen Bil swmpus a hynod gymhleth; ac, er bod y gwaith o ddrafftio'r Bil wedi symud ymlaen yn eithaf cyflym, yn anffodus, nid oedd digon o amser i gyflwyno'r Bil cyn i dymor y Senedd ddod i ben ar gyfer yr etholiad.

6.7 Er fy mod yn gwerthfawrogi heriau'r cyfyngiadau ar amser y Senedd, roeddwn yn siomedig nad oedd Llywodraeth flaenorol Cymru wedi gallu cyflwyno'r Bil i roi'r cynigion hyn ar waith. Fodd bynnag, lliniarwyd hynny i raddau drwy gyfrwng sicrwydd gan y Cwnsler Cyffredinol, Julie James AS, y byddai gwaith swyddogion cyhoeddus a drafftwyr ar y Bil yn parhau fel y byddai drafft datblygedig ar gael i'r llywodraeth newydd. Roedd y gwaith hwnnw'n cynnwys cyswllt helaeth â mi, a mewnbwn helaeth gennyf, ar ran yr Arweinwyr Barnwrol a deiliaid swyddi barnwrol eraill yng Nghymru. Unwaith eto, diolchaf i'r Cwnsler Cyffredinol ac i'w swyddogion am y cyfle hwnnw.

6.8 Hoffwn symud ymlaen â'r rhaglen hon gyda phositifrwydd a phwrpas. Yn dilyn etholiad mis Mai 2026, rwyf wedi cael cyfarfod cychwynnol gyda'r Cwnsler Cyffredinol newydd, Elfyn Llwyd, a gadarnhaodd ymrwymiad y llywodraeth newydd – a'i ymrwymiad personol ef – i'r Rhaglen Diwygio Tribiwnlysoedd a'r Bil i'w rhoi ar waith. Felly, rwy'n edrych ymlaen yn fawr at weithio gydag ef a'i swyddogion i gwblhau'r Bil i'w gyflwyno i'r Senedd cyn gynted ag y bo modd gwneud hynny'n ymarferol.

# 7 Hyfforddiant Barnwrol

7.1 Mae gennyf gyfrifoldeb statudol cyffredinol dros sicrhau hyfforddiant effeithiol i holl ddeiliaid swyddi barnwrol Tribiwnlysoedd Cymru ac mae pob Llywydd Tribiwnlys wedi derbyn cyfrifoldeb dirprwyedig dros drefnu hyfforddiant ar gyfer eu hawdurdodaethau eu hunain.

7.2 Rwy'n falch iawn bod y Barnwr Meleri Tudur, Llywydd Panel Dyfarnu Cymru, wedi cytuno i ymgymryd â rôl Arweinydd Hyfforddiant Tribiwnlysoedd Cymru, a hoffwn ddiolch iddi am ei gwaith ar ein rhaglen hyfforddi ers iddi ddechrau yn y rôl hon.

7.3 Mae Tribiwnlysoedd Cymru y tu allan i gwmpas y Coleg Barnwrol, sy'n golygu bod yn rhaid i ni ddarparu ein hyfforddiant ein hunain, hyd yn oed pan fo'r darpariaethau statudol sy'n berthnasol i'n tribiwnlysoedd ni a'r tribiwnlysoedd cyfatebol yn Lloegr yn debyg neu'r un fath ar hyn o bryd (sy'n berthnasol, er enghraifft, ym maes adolygu iechyd meddwl). Mae hynny'n cyflwyno heriau penodol.

7.4 Mae ein hawdurdodaethau datganoledig yn amrywio o ran maint, llwyth gwaith ac yn enwedig o ran cynnwys a chwmpas. Er mwyn mynd i'r afael â'r heriau hyfforddiant rydym yn eu hwynebu, rydym wedi edrych ar ffyrdd amrywiol a newydd y gallwn ddarparu hyfforddiant i ddeiliaid swyddi barnwrol. Cyflwynodd Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru a Thribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru eu hyfforddiant blynyddol eleni o bell ar lwyfan fideo, a hynny'n llwyddiannus. Nododd Tribiwnlys y Gymraeg a Phanel Dyfarnu Cymru anghenion hyfforddi oedd yn gorgyffwrdd, a hynny'n galluogi cynnal cynhadledd ar y cyd, gan roi hyfforddiant awdurdodaethol penodol a hyfforddiant cyffredinol ar draws y ddwy awdurdodaeth. Roedd darpariaethau statudol newydd ar gyfer Tribiwnlys Addysg Cymru yn golygu bod anghenion hyfforddi ei ddeiliaid swyddi barnwrol yn gofyn am gynnal cynhadledd ddeuddydd wyneb yn wyneb. Cynhaliodd Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru, sef y Tribiwnlys mwyaf, ei Gynhadledd Flynyddol yn yr hydref ac yna cynhaliodd Weithdai Gwanwyn ar gyfer ei aelodau.

7.5 Yn ogystal â'r hyfforddiant hwn ar gyfer tribiwnlysoedd cyfan, cafwyd llu o benodiadau newydd ar draws sawl awdurdodaeth, drwy'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol ac ymarferion mynegi diddordeb. Mae hyn wedi golygu paratoi a darparu hyfforddiant cynefino manwl i'r holl ymgeiswyr llwyddiannus.

7.6 Fel yr wyf wedi nodi, mae Tribiwnlysoedd Cymru y tu hwnt i gwmpas y Coleg Barnwrol. Fodd bynnag, mae trafodaethau gyda'r Coleg wedi archwilio'r posibilrwydd o gael mynediad i'w gyfleusterau, megis deunyddiau cwrs y Coleg a phresenoldeb mewn cynadleddau ar gyfer deiliaid swyddi barnwrol datganoledig fel arsylwyr lle bo hynny'n briodol. Mae'r trafodaethau wedi canolbwyntio ar y swm sylweddol o hyfforddiant y bydd ei angen ar gyfer Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru a Thribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru, o ystyried y ddeddfwriaeth newydd ar gyfer Cymru a Lloegr sy'n effeithio ar y naill a'r llall ohonynt. Byddai'r gallu i gydweithio â'r Coleg Barnwrol yn sicrhau ein bod yn osgoi dyblygu gwaith yn ddiangen, gan sicrhau darpariaeth o safon a mynediad rhwydd at hyfforddiant perthnasol ar gyfer yr awdurdodaethau datganoledig. Rwy'n ddiolchgar i'r Coleg Barnwrol am ei barodrwydd i ymwneud â'r fenter hon a chadw at y cyfyngiadau y mae'n gweithio oddi mewn iddynt ar yr un pryd.

7.7 Ceir adborth o'r holl hyfforddiant sy'n cael ei ddarparu, ac mae wedi bod yn gadarnhaol dros ben. Byddwn yn parhau i ddibynnu ar yr adborth hwnnw i helpu i nodi anghenion hyfforddi a'r dulliau darparu sy'n cael eu ffafrio ar gyfer yr awdurdodaethau yn y dyfodol.

7.8 Yn olaf, llongyfarchiadau i'r Barnwr McConnell ar ei phenodiad diweddar i Bwyllgor Hyfforddiant Rhyngwladol y Tribiwnlysoedd. Mae ei phenodiad yn arddangos yn glir ein hymrwymiad i hyfforddiant, a bydd yn codi ymwybyddiaeth o hyfforddiant rhyngwladol parhaus ac yn tynnu sylw deiliaid swyddi barnwrol at gyfleoedd hyfforddi priodol.

# 8 Cynhwysiant ac Amrywiaeth

8.1 Cynhaliwyd arolwg data amrywiaeth ymhlith ein deiliaid swyddi barnwrol yn ystod hydref 2025. Nod yr arolwg hwn oedd casglu data dienw am nodweddion perthnasol ar draws Tribiwnlysoedd Cymru. Mae'r wybodaeth hon yn cefnogi fy ymrwymiad parhaus i hyrwyddo amrywiaeth, cynhwysiant a thryloywder yn y farnwriaeth. Yn benodol, mae'n helpu i nodi meysydd lle gallai fod angen rhagor o gymorth neu gamau gweithredu.

8.2 Dosbarthwyd yr arolwg i 202 o ddeiliaid swyddi barnwrol a daeth 116 o ymatebion i law, sy'n gyfradd ymateb o 57.4%.

8.3 Mae crynodeb o'r data a gasglwyd wedi'i atodi i'r Adroddiad hwn (Atodiad 4).

8.4 Mae'r arolwg yn rhoi cipolwg clir a gwerthfawr ar gyfansoddiad presennol barnwriaeth Tribiwnlysoedd Cymru, gan dynnu sylw at gryfderau a meysydd i'w datblygu. Mae gan y rhan fwyaf o'r ymatebwyr dros 20 mlynedd o brofiad proffesiynol blaenorol, ac mae'r proffil oedran – sydd wedi'i ganoli yng nghanol y 60au – yn adlewyrchu'r dyfnder arbenigedd hwn. Er bod hyn yn gryfder amlwg, mae hefyd yn tynnu sylw at yr angen am gynllunio olyniaeth effeithiol i sicrhau parhad wrth i aelodau ymddeol.

8.5 Mae'r cefndiroedd proffesiynol yn amrywiol, a chyfreithwyr yw'r grŵp mwyaf, ochr yn ochr â bargyfreithwyr, academyddion, a daw'r mwyafrif o feysydd eraill fel gofal iechyd, gwaith cymdeithasol ac addysg. Mae'r amrywiaeth hon yn cefnogi'r broses o wneud penderfyniadau mewn ffordd gymesur. Mae'r data economaidd-gymdeithasol yn dangos darlun cymysg, gyda'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cael eu haddysgu yn ysgolion y wladwriaeth a chyfran sylweddol ohonynt yn dod o deuluoedd heb gefndiroedd addysg uwch, er bod lle o hyd i ehangu mynediad ymhellach.

8.6 Mae'r canfyddiadau hefyd yn tanlinellu pwysigrwydd iaith a hunaniaeth o fewn system y tribiwnlysoedd. Mae dros 28% o'r ymatebwyr yn siarad Cymraeg ac, o'r rheini, mae tri chwarter ohonynt yn teimlo'n hyderus yn cynnal gwrandawiadau yn Gymraeg, sy'n adlewyrchu capasiti dwyieithog ystyrlon yn y farnwriaeth. Mae'r canfyddiadau hyn yn cefnogi ymrwymiad y Tribiwnlysoedd i weithredu'n ddwyieithog ac yn adlewyrchu tirwedd ddiwylliannol ac ieithyddol Cymru.

8.7 O ran amrywiaeth, mae'r gynrychiolaeth rhywedd yn gytbwys, ac mae cyfran nodedig o'r ymatebwyr yn nodi anabledd neu gyflwr niwrowahanol, gan atgyfnerthu pwysigrwydd arferion cynhwysol a hygyrch. Er bod llai nag 1 o bob 5 yn cynrychioli

lleiafrif ethnig, mae'r gyfran yn uwch na'r ganran a gofnodir ym mhoblogaeth ehangach Cymru. Ar ben hynny, mae bron i chwarter yr ymatebwyr yn nodi cyfrifoldebau gofalu di-dâl, gan dynnu sylw at werth trefniadau gweithio hyblyg.

8.8 Yn gyffredinol, mae'r canfyddiadau'n dangos barnwriaeth hynod brofiadol ac ymroddedig, gydag amrywiaeth gynyddol mewn rhai meysydd ond cyfleoedd clir i gryfhau cynrychiolaeth ymhellach a gwella hygyrchedd. Mae'r argymhellion cysylltiedig yn canolbwyntio ar gynllunio olyniaeth, datblygu'r Gymraeg, allgymorth wedi'i dargedu, ac arferion cynhwysol, gan sicrhau bod barnwriaeth Tribiwnlysoedd Cymru yn parhau i esblygu mewn ffordd sy'n adlewyrchu'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu.

8.9 Nodir argymhellion yr arolwg yn Atodiad 4. Er nad oes un agwedd ar gynhwysiant nac amrywiaeth sy'n sefyll allan fel un sy'n gofyn am waith sylweddol a brys, mae'r arolwg yn dangos bod yn rhaid i ni barhau i weithio i sicrhau bod ein deiliaid swyddi barnwrol yn cynrychioli'r rhai rydym yn eu gwasanaethu mewn ffordd ystyrlon. Byddwn yn parhau i gadw golwg ar hyn.

# 9 Yr Iaith Gymraeg

9.1 Yn fy Adroddiad diwethaf, nodais ein rhwymedigaethau cyfreithiol o ran defnyddio'r Gymraeg yn ein tribiwnlysoedd. Nid yw'r rhain wedi newid.

9.2 Mae Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru, Tribiwnlys Addysg Cymru, Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru, Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru a Phanel Dyfarnu Cymru oll wedi'u rhestru yn Atodlen 6 i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Felly maent yn ddarostyngedig i'r dyletswyddau a'r safonau a nodir yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 4) 2016. Cafodd Panel Dyfarnu Cymru ei gynnwys yn Atodlen 6 i'r Mesur gan Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1, Rhif 2, Rhif 4, Rhif 6 a Rhif 7) (Diwygio) 2025, a dyroddwyd ei Hysbysiad Cydymffurfio Safonau'r Gymraeg ar 18 Mawrth 2026. Mae'r Safonau'n dod i rym ar 18 Medi 2026. Mae barnwriaeth ac ysgrifenyddiaeth y Panel Dyfarnu yn paratoi i sicrhau bod popeth yn ei le i gydymffurfio â'r gofynion erbyn y dyddiad hwnnw.

9.3 Yr unig safonau y mae'r tribiwnlysoedd sy'n dod o fewn y Mesur yn gorfod cydymffurfio â nhw yw'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau a nodir yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau, y Safonau Llunio Polisi a nodir yn Atodlen 2 (y gofyniad i ystyried effaith polisïau newydd ar y Gymraeg), a'r Safonau Cadw Cofnodion a nodir yn Atodlen 4 (yn achos Tribiwnlysoedd Cymru, cadw cofnodion o gwynion sy'n ymwneud â'r Gymraeg). Nid oes yr un ohonynt yn ddarostyngedig i'r safonau a nodir yn yr Atodlenni eraill, sef y Safonau Hybu a'r Safonau Gweithredu. Er nad yw Tribiwnlys y Gymraeg na Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru yn cael eu llywodraethu'n ffurfiol gan y Mesur na'r Rheoliadau, mae'r naill a'r llall yn cydymffurfio'n wirfoddol â'r un safonau, gan gydnabod ysbryd y cynllun.

9.4 Dros y flwyddyn ddiwethaf, rwyf wedi parhau i flaenoriaethu hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg. Fel rhan o'r ymdrech hon, rydym wedi adolygu ein ffurflenni ac wedi cynnal arolwg i asesu sgiliau Cymraeg deiliaid swyddi barnwrol y tribiwnlysoedd. Eleni, ein nod yw adeiladu ar y cynnydd hwn, gan wreiddio'r defnydd o'r Gymraeg ymhellach yn ein gweithrediadau bob dydd a'i wneud yn arfer safonol.

9.5 Er y gall pob tribiwnlys ddarparu gwasanaethau gweinyddol a gwrandawiadau yn Gymraeg, ychydig iawn o ddefnydd o'r iaith a geir yn ein tribiwnlysoedd, fel y gwelir o'r tabl isod.

**Tabl 2: Gwrandawiadau a gynhaliwyd yn Gymraeg**

| Tribiwnlys | Blwyddyn Ariannol 2021-22 | Blwyddyn Ariannol 2022-23 | Blwyddyn Ariannol 2023-24 | Blwyddyn Ariannol 2024-25 | Blwyddyn Ariannol 2025-26 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru** | 3 | 3 | 9 | 8 | 2 |
| **Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Tribiwnlys Addysg Cymru** | 0 | 3 | 1 | 6 | 12 |
| **Panel Dyfarnu Cymru** | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| **Tribiwnlys y Gymraeg** | 0 | 2 | 2 | 1 | 1 |

9.6 Fel y gwelir o'r tabl hwn, bu cynnydd pellach yn y defnydd o'r Gymraeg yn Nhribiwnlys Addysg Cymru. Er bod cynnydd cyffredinol wedi bod yn nifer yr achosion yn Nhribiwnlys Addysg Cymru, gall hyn hefyd fod oherwydd newidiadau i'r ffurflenni cais, ac efallai ei fod hefyd yn adlewyrchu natur rhai o'r materion sy'n codi yn y tribiwnlys hwnnw. Fodd bynnag, bu gostyngiad yn nifer y gwrandawiadau a gynhaliwyd yn Gymraeg yn Nhribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru. Mae'r nifer absoliwt yn fach, wrth gwrs; ond rydym yn ystyried a yw'r gostyngiad hwn yn adlewyrchu (e.e.) y cynnydd yng nghyfran yr achosion sy'n cael eu clywed o bell yn hytrach nag wyneb yn wyneb. Byddwn yn parhau i sicrhau bod ceiswyr yn ymwybodol bod modd cael paneli cwbl Gymraeg a bod ganddynt ffydd mewn unrhyw gyfleusterau cyfieithu sydd ar gael ar gyfer gwrandawiadau o'r fath.

9.7 Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi parhau â'r ymarfer casglu data gyda'r bwriad o ganfod unrhyw rwystrau sy'n atal siaradwyr Cymraeg rhag defnyddio'r Gymraeg mewn gwrandawiadau tribiwnlys. Ychydig iawn o ymatebion a gafwyd i'r cwestiwn. Hefyd, mae'n ymddangos bod yr atebion a roddwyd yn dangos bod yn well gan y grŵp hwn gyfathrebu yn Saesneg, am wahanol resymau, gan gynnwys gwell rhugldeb, hyder a dealltwriaeth yn yr iaith honno. Mae rhai'n gallu siarad Cymraeg yn rhugl ond yn ei chael hi'n haws defnyddio terminoleg broffesiynol yn Saesneg, neu'n ei chael hi'n haws ysgrifennu yn Saesneg. Mae gan eraill bartneriaid sy'n bwriadu dod i'r gwrandawiad, ond sydd ddim yn hyfedrus yn y Gymraeg. Dywed sawl ymatebydd mai dim ond dealltwriaeth sylfaenol sydd ganddynt o'r Gymraeg, sy'n golygu mai Saesneg yw eu dewis iaith ar gyfer cyfathrebu. Ymddengys mai'r thema gyffredin yw bod y ceiswyr hyn yn fwy "cyfforddus" yn defnyddio'r Saesneg wrth ymwneud â'r tribiwnlys (mewn ceisiadau, gohebiaeth ac ati) ac mewn gwrandawiadau. Nid oes unrhyw rwystr penodol i'r defnydd o'r Gymraeg wedi'i nodi ar sail yr ymatebion.

9.8 Byddwn yn parhau i gasglu a dadansoddi'r data a geir o'r ymarfer hwn. Byddwn hefyd yn parhau i egluro nad oes rhaid dewis yn benodol rhwng y Gymraeg a'r Saesneg; a'n bod ni'n barod ac yn abl i greu panel gwirioneddol ddwyieithog ar gyfer unrhyw achos, lle gall unrhyw gyfranogwr ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn gyfnewidiol ar unrhyw adeg yn y gwrandawiad. Rwy'n gobeithio y bydd hyn yn annog y rhai nad ydynt yn hyderus neu'n hyfedr iawn yn y Gymraeg, neu nad oes ganddynt eirfa dechnegol, i ddewis defnyddio'r iaith i'r graddau y maent yn gallu ac yn gyfforddus yn gwneud hynny.

# 10 Hygyrchedd ac Ymgysylltu

10.1 Credaf fod hygyrchedd ac ymgysylltu yn elfennau hanfodol o'n hachosion.

10.2 Nid dim ond mater o alluogi ceiswyr i arfer eu hawl statudol sefydledig i ddefnyddio'r iaith yw defnyddio'r Gymraeg yn ein hachosion – mae hefyd yn fater o hygyrchedd at gyfiawnder. Dylai ceisydd allu ymgysylltu â phroses y tribiwnlys yn Gymraeg neu yn Saesneg ar sail yr hyn fydd yn ei alluogi i ymgysylltu yn y ffordd orau bosibl.

10.3 Mae'r tribiwnlysoedd yn gallu ac yn fodlon cyfathrebu â cheiswyr ac aelodau o'r cyhoedd yn Gymraeg neu yn Saesneg.

10.4 Gall ceiswyr ac ymatebwyr ddewis ymgysylltu â staff y tribiwnlysoedd yn y naill iaith neu'r llall. Os nad oes siaradwr Cymraeg ar gael ar unwaith i ateb galwad ffôn, byddwn yn trefnu i aelod o staff sy'n siarad Cymraeg roi galwad yn ôl i'r unigolyn dan sylw. Gallant ddewis i'r gwrandawiad gael ei gynnal yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog. Os nad Cymraeg na Saesneg yw eu hiaith gyntaf a'u bod yn dymuno siarad yn eu hiaith gyntaf yn ystod y gwrandawiad, gallwn drefnu i gyfieithydd ar y pryd fod yn bresennol, os rhoddir digon o rybudd. Os bydd angen i ddehonglydd iaith arwyddion ddod i'r gwrandawiad, byddwn yn trefnu hyn.

10.5 Ar ben hynny, os oes gan y ceiswyr neu'r ymatebwyr neu unrhyw un sy'n dod gyda nhw i'r gwrandawiad unrhyw ofynion eraill o ran mynediad neu ymgysylltu, rydym yn eu hannog i nodi'r rhain er mwyn i ni allu darparu ar eu cyfer.

# 11 Ymddeoliadau a Phenodiadau

11.1 Penodir deiliaid swyddi barnwrol naill ai gan Weinidogion Cymru neu'r Arglwydd Ganghellor. Y ddeddfwriaeth a'r rheolau ar gyfer pob tribiwnlys unigol sy'n pennu pwy sy'n gyfrifol am benodi ac ailbenodi pob categori o ddeiliaid swyddi barnwrol.

11.2 Cynhelir pob ymgyrch recriwtio ar gyfer penodiadau Gweinidogion Cymru a'r Arglwydd Ganghellor drwy gystadleuaeth agored drwy'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol neu drwy ymarfer Mynegi Diddordeb sy'n agored i'r adran berthnasol o'r deiliaid swyddi barnwrol presennol.

11.3 Ar gyfer pob Tribiwnlys yng Nghymru, roedd y rhai a adawodd a'r rhai a ymunodd dros y cyfnod o 12 mis fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Panel Dyfarnu Cymru | Ymddiswyddodd Edell Fitzpatrick o'i swydd fel Dirprwy Lywydd y Panel Dyfarnu, i ymgymryd â swydd newydd fel Prif Gomisiynydd Nawdd Cymdeithasol Gogledd Iwerddon.<br><br>Nid oes aelodau ychwanegol wedi'u penodi yn ystod y cyfnod adrodd hwn ond mae dau ymarfer dethol ar y gweill. |
| Y Tribiwnlys Tir Amaethyddol | Ni wnaed unrhyw benodiadau newydd yn ystod 2025-26. |
| Tribiwnlys Addysg Cymru | Ni wnaed unrhyw benodiadau newydd yn ystod 2025-26, ond mae cystadleuaeth gan y Comisiwn Penodiadau Barnwrol ar gyfer Aelodau Cyfreithiol i fod i gael ei lansio yn 2026-27. |
| Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru | Yn dilyn ymddeoliad Carolyn Kirby ym mis Ebrill 2025, penodwyd y Barnwr Jane McConnell yn Llywydd Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru ym mis Hydref 2025 yn dilyn cystadleuaeth gan y Comisiwn Penodiadau Barnwrol. Mae'r Barnwr McConnell yn parhau â'i rôl fel Llywydd Tribiwnlys Addysg Cymru.<br><br>Mae nifer o aelodau wedi ymddeol eleni gan gynnwys pum Aelod Meddygol, dau aelod cyfreithiol ac Aelod Arbenigol.<br><br>Penodwyd Aelod Meddygol Arweiniol ac Aelod Arbenigol Arweiniol ym mis Mawrth 2025 yn dilyn ymarfer Mynegi Diddordeb. Mae ymgyrch recriwtio gan y Comisiwn Penodiadau Barnwrol i benodi Aelodau Meddygol yn dal i fynd rhagddi a disgwylir y canlyniad yng nghanol 2026. |
| Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru | Bu swydd y Dirprwy yn destun cystadleuaeth gan y Comisiwn Penodiadau Barnwrol, a gwnaed penodiad ym mis Hydref 2025. |
| Tribiwnlys y Gymraeg | Penodwyd Aelod Arbenigol ym mis Gorffennaf 2025 yn dilyn cystadleuaeth gan y Comisiwn Penodiadau Barnwrol. Cafodd tri Aelod Arbenigol arall eu pennu o Dribiwnlysoedd eraill Cymru yn dilyn ymarfer Mynegi Diddordeb ar draws y Tribiwnlysoedd ym mis Mehefin 2025. |

# 12 Sylwadau Terfynol


12.1 Roedd 2025-26 yn flwyddyn heriol i Dribiwnlysoedd Cymru, gyda newid sylweddol o ran uwch staff barnwrol yn ogystal â phwysau ar staff gweinyddol, a chynnydd sylweddol yn rhywfaint o'n gwaith, e.e. yn Nhribiwnlys Addysg Cymru, gyda newidiadau statudol yn golygu bod rhagor o lwythi gwaith newydd sylweddol ar y gweill, e.e. yn Nhribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru a Thribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru. Fodd bynnag, rydym wedi bod yn ffodus yn ein huwch recriwtiaid barnwrol, sydd eisoes yn gwneud eu marc o ran gwneud eu tribiwnlysoedd yn fwy effeithiol ac effeithlon. Mae nifer y staff hefyd wedi cynyddu felly rydym yn nes at y niferoedd y mae cyllideb ar eu cyfer nag yr ydym wedi bod yn ddiweddar. O ganlyniad, roeddem mewn sefyllfa well ar ddiwedd y flwyddyn nag ar ei dechrau.

12.2 Prif siom y flwyddyn oedd y methiant i gyflwyno'r Bil Diwygio Tribiwnlysoedd yn y Senedd; ond fe wnaethom barhau i weithio tuag at ddod â'n tribiwnlysoedd at ei gilydd (ac mae'r adroddiad hwn ei hun yn enghraifft o hynny) a pharhau i baratoi ar gyfer diwygio tribiwnlysoedd. Rwy'n gobeithio y bydd y Bil yn cael ei gyflwyno ym mlwyddyn gyntaf y Senedd newydd hon. Rydym yn barod ar ei gyfer.

12.3 Hoffwn ddiolch am y cymorth rydym wedi'i gael gan Lywodraeth Cymru, ac yn enwedig Julie James AS a oedd yn Gwnsler Cyffredinol, a'r Gwir Anrhydeddus Eluned Morgan AS a oedd yn Brif Weinidog, drwy gydol y cyfnod. Yn benodol, roedd cefnogaeth y Cwnsler Cyffredinol yn weithredol ac yn ddiflino. Edrychaf ymlaen yn fawr iawn at weithio gyda'u holynwyr yn y Senedd newydd. Fel yr wyf wedi dweud, yr wyf eisoes wedi cwrdd â'r Cwnsler Cyffredinol, y Gwir Anrhydeddus Elfyn Llwyd, pan gawsom drafodaethau buddiol ac adeiladol; ac edrychaf ymlaen at gwrdd â'r Prif Weinidog, y Gwir Anrhydeddus Rhun ap Iorwerth AS. Rydym yn parhau i ymgysylltu'n rhagorol â swyddogion Llywodraeth Cymru, ar fusnes parhaus ein tribiwnlysoedd a'r Rhaglen Ddiwygio. Edrychwn ymlaen at barhau i weithio gyda nhw dros y 12 mis nesaf.

12.4 Fel bob amser, mae arnaf ddyled hefyd i ddeiliaid swyddi barnwrol y tribiwnlysoedd, ac yn enwedig yr Arweinwyr Barnwrol, a'r staff gweinyddol sy'n gwasanaethu'r tribiwnlysoedd unigol gyda'r fath ymroddiad. Mewn cyfnod heriol, maent yn dal i fod yn ymroddedig i sicrhau bod ein rhan ni o'r system gyfiawnder yn gweithio cystal ag y gall i bobl Cymru. Diolchaf iddynt am eu sgiliau a'u penderfyniad yn y gwaith hwnnw.

12.5 Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gwneud cynnydd tuag at wella'r system gyfiawnder ddatganoledig yng Nghymru. Edrychaf ymlaen at weld cynnydd parhaus yn y 12 mis nesaf.



**Y Gwir Anrhydeddus Syr Gary Hickinbottom**
Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru

# Atodiad 1: Manylion Cyswllt Tribiwnlysoedd Cymru

| Tribiwnlys | Cyfeiriad | Gwybodaeth Gyswllt |
|---|---|---|
| Panel Dyfarnu Cymru | Panel Dyfarnu Cymru<br>Uned Tribiwnlysoedd Cymru<br>BLWCH SP 100<br>Llandrindod<br>LD1 9BW | 0300 025 9805<br>adjudication.panel@llyw.cymru<br>paneldyfarnu.llyw.cymru |
| Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru | Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru<br>Uned Tribiwnlysoedd Cymru<br>BLWCH SP 100<br>Llandrindod<br>LD1 9BW | 0300 025 9809<br>agriculturallandtribunalwales@llyw.cymru<br>tribiwnlystiramaethyddol.llyw.cymru |
| Tribiwnlys Addysg Cymru | Tribiwnlys Addysg Cymru<br>Uned Tribiwnlysoedd Cymru<br>BLWCH SP 100<br>Llandrindod<br>LD1 9BW | 0300 025 9800<br>tribiwnlysaddysg@llyw.cymru<br>tribiwnlysaddysg.llyw.cymru |
| Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru | Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru<br>BLWCH SP 1143<br>Caerdydd<br>CF11 1WX | 0300 025 5328<br>mhrt@llyw.cymru<br>tribiwnlysadolyguiechydmeddwl.llyw.cymru |
| Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru | Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru<br>Oak House<br>Parc Clepa<br>Casnewydd<br>NP10 8BD | 0300 025 2777<br>rpt@llyw.cymru<br>tribiwnlyseiddopreswyl.llyw.cymru |
| Tribiwnlys y Gymraeg | Tribiwnlys y Gymraeg<br>Oak House<br>Parc Clepa<br>Casnewydd<br>NP10 8BD | 0300 025 6702<br>tyg@llyw.cymru<br>tribiwnlysygymraeg.llyw.cymru |

# Atodiad 2: Blaenoriaethau Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru 2025-26

| Cyf. | Gweithgaredd | Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru/ Arweinwyr Barnwrol/Uned Tribiwnlysoedd Cymru |
|---|---|---|
| **Blaenoriaeth A – Diwygio Tribiwnlysoedd** | | |
| **A1** | Ymgysylltu Parhaus â Llywodraeth Cymru (LIC):<br>Ymgysylltu'n rheolaidd â thîm Bil Llywodraeth Cymru a'i gefnogi i sicrhau cysondeb a chynnydd o ran diwygio deddfwriaethol. | Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru |
| **A2** | Camau Gweithredu Cyn Deddfu:<br>Nodi a datblygu meysydd blaenoriaeth na allant aros i unrhyw Fil Diwygio Tribiwnlysoedd gael ei roi ar waith, gan weithio'n agos gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i roi atebion dros dro ar waith. | Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru/Arweinwyr Barnwrol/Uned Tribiwnlysoedd Cymru |
| **A3** | Cysondeb â Pholisïau Barnwrol:<br>Adolygu polisïau a chanllawiau barnwrol, gan gynnwys asesu polisïau a chanllawiau barnwrol yn nhribiwnlysoedd GLITEF i benderfynu pa rai y gellir eu mabwysiadu neu eu haddasu i'w defnyddio yn Nhribiwnlysoedd Cymru wrth aros i'r Bil gael ei ddeddfu. | Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru |
| **A4** | Adolygu Adnoddau a Phrosesau:<br>Cynnal adolygiad cynhwysfawr o brosesau gweithredol ar sail yr adnoddau presennol i wella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd a sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r gyllideb. | Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru/Uned Tribiwnlysoedd Cymru |
| **Blaenoriaeth B – Hyfforddiant Barnwrol** | | |
| **B1** | Adolygu'r Ddarpariaeth Hyfforddiant:<br>Adolygu sut y gellid darparu hyfforddiant sy'n diwallu anghenion gyda golwg ar sicrhau bod deiliaid swyddi barnwrol yn cael eu hyfforddi'n briodol ar gyfer eu swyddi a bod yr hyfforddiant a roddir yn rhoi'r gwerth gorau am arian. | Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru/Arweinwyr Barnwrol/Uned Tribiwnlysoedd Cymru |
| **B2** | Datblygu Cymhwysedd Digidol:<br>Archwilio a gweithredu cyfleoedd hyfforddi ychwanegol ar gyfer y farnwriaeth, gan ganolbwyntio'n benodol ar wella sgiliau digidol a hyfedredd technolegol. | Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru/Arweinwyr Barnwrol/Uned Tribiwnlysoedd Cymru |
| **Blaenoriaeth C – Cynhwysiant ac Amrywiaeth** | | |
| **C1** | Casglu a Dadansoddi Data:<br>Cwblhau'r gwaith o gyflawni'r ymrwymiad i gasglu data dienw ar gyfansoddiad deiliaid swyddi barnwrol Tribiwnlysoedd Cymru, gan ganolbwyntio ar nodweddion fel rhywedd, cefndir hiliol, arbenigedd proffesiynol a chefndir cymdeithasol; a nodi a mynd i'r afael ag unrhyw bryderon y mae'r data hynny'n eu codi. | Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru/Uned Tribiwnlysoedd Cymru |

# Atodiad 3: Trosolwg o'r Data

## Trosolwg o Ystadegau Achosion

| Tribiwnlys | Pob cais | Gwrandawiadau a gynhaliwyd Wyneb yn wyneb | Gwrandawiadau a gynhaliwyd Ar-lein | Gwrandawiadau a gynhaliwyd Hybrid | Gwrandawiadau a gynhaliwyd yn Gymraeg | Achosion a gaewyd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Panel Dyfarnu Cymru** | 1 | 1 | 4 | 4 | 1 | 5 |
| **Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru** | 14 | 0 | 4 | 0 | 0 | 28 |
| **Tribiwnlys Addysg Cymru** | 182 | 2 | 155 | 0 | 12 | 162 |
| **Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru** | 1,869 | 379 | 769 | 15 | 2 | 1,741 |
| **Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru** | 198 | 6 | 85 | 0 | 2 | 132 |
| **Tribiwnlys y Gymraeg** | 2 | 1 | 0 | 0 | 1 | 2 |
| **Cyfanswm** | **2,266** | **389** | **1,017** | **19** | **18** | **2,070** |

## Dewis Iaith

| Tribiwnlys | Pob cais | Y ceisydd yn siarad Cymraeg | Dewis Iaith Ysgrifenedig * | Dewis iaith Lafar * | Dewis Iaith Clyw * | Nifer y sylwadau a gafwyd yn amlinellu pam mae siaradwyr Cymraeg wedi dewis peidio â defnyddio'r Gymraeg i ryngweithio â'r Tribiwnlys |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Panel Dyfarnu Cymru | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | D/B |
| Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru | 14 | 2 | 1 | 1 | 2 | 0 |
| Tribiwnlys Addysg Cymru | 182 | 7 | 2 | 3 | 2 | 21 |
| Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru | 1,869 | 13 | 11 | 13 | 11 | 0 |
| Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru | 198 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Tribiwnlys y Gymraeg | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 0 |
| **Cyfanswm** | **2,266** | **24** | **16** | **19** | **17** | **21** |

*Wedi nodi'r Gymraeg neu'r ddwy iaith (Cymraeg a Saesneg) yn ddewis iaith ar gyfer rhyngweithio â'r Tribiwnlys.

## Ceisiadau am Ganiatâd i Apelio i'r Uwch Dribiwnlys/Uchel Lys

| Tribiwnlys | Ceisiadau a ddaeth i law | Caniatawyd | Gwrthodwyd | Wedi apelio ymhellach i'r Uwch Dribiwnlys/ Uchel Lys |
|---|---|---|---|---|
| Panel Dyfarnu Cymru | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru | 1 | 0 | 0 | 1 |
| Tribiwnlys Addysg Cymru | 17 | 0 | 6 | 3 |
| Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru | 2 | 1 | 1 | 0 |
| Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru | 5 | 0 | 4 | 1 |
| Tribiwnlys y Gymraeg | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **25** | **1** | **11** | **5** |

## Cwynion a Ddaeth i Law

| Tribiwnlys | Am weinyddu | Am brosesau'r Tribiwnlys | Am aelodau'r Tribiwnlys | Gan aelodau'r Tribiwnlys |
|---|---|---|---|---|
| Panel Dyfarnu Cymru | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Tribiwnlys Addysg Cymru | 2 | 0 | 1 | 0 |
| Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru | 2 | 2 | 0 | 0 |
| Tribiwnlys y Gymraeg | 2 | 2 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **6** | **4** | **1** | **0** |

# Atodiad 4: Crynodeb o Ddata Amrywiaeth

## Canfyddiadau Allweddol

### Grŵp Oedran

- Atebodd 110 o ymatebwyr y cwestiwn oedran.
- Mae'r ystod oedran yn amrywio o **25 i 74**, gyda'r **oed canolrifol tua 63–65**.

### Ieithoedd a Siaredir

- **100%** yn siarad Saesneg.
- **28%** yn siarad Cymraeg ac o'r rheini byddai **75%** yn gyfforddus yn cynnal gwrandawiad tribiwnlys yn Gymraeg.
- Nododd **22%** ieithoedd eraill gan gynnwys Ffrangeg, Almaeneg, Hindi, Wrdw, Sbaeneg a Hebraeg.

### Cefndir Proffesiynol

- **Cyfreithwyr:** 27%
- **Bargyfreithwyr:** 9%
- **Academyddion:** 6%
- **Arall:** (56%) – yn cynnwys gweithwyr meddygol proffesiynol, gweithwyr cymdeithasol, nyrsys ac addysgwyr.

### Profiad Proffesiynol

- Roedd gan **70%** o'r ymatebwyr dros 20 mlynedd o brofiad cyn eu penodi.

### Cefndir Economaidd-gymdeithasol

- **68%** wedi mynd i ysgolion y wladwriaeth.
- **10%** yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.
- **38%** â rhieni â chymwysterau ar lefel gradd; roedd gan 30% rieni heb unrhyw gymwysterau.

### Hunaniaeth Genedlaethol

- **Cymreig:** 45%
- **Prydeinig:** 43%
- **Seisnig:** 21%
- **Albanaidd:** 4%
- **Arall:** 11%

## Ethnigrwydd

- **Gwyn (Cymreig/Seisnig/Albanaidd/Gwyddelig o Ogledd Iwerddon/Prydeinig):** 82%
- **Asiaidd (Indiaidd, Pacistanaidd, Tsieineaidd):** 9%
- **Cefndiroedd ethnig cymysg:** 4%
- **Du (Du Cymreig/Du Prydeinig/Caribïaidd/Affricanaidd):** 2%

## Crefydd

- **Cristion:** 50%
- **Dim crefydd:** 38%
- Roedd y crefyddau eraill yn cynnwys Iddewig, Mwslimaidd, Sikh, Hindŵ, Paganaidd, a Baha'i.

## Rhyw a Rhywedd

- **50%** yn Fenywod**, 50%** yn Ddynion.
- **99%** yn uniaethu â'r rhywedd a gofrestrwyd adeg eu geni.

## Cyfeiriadedd Rhywiol

- **90%** Syth/Heterorywiol.
- **8%** Hoyw neu Lesbiaidd.
- **2%** Deurywiol neu Arall.

## Anabledd

- **26%** wedi nodi bod ganddynt gyflwr iechyd meddyliol neu gorfforol hirdymor, niwrowahaniaeth, defnyddiwr BSL iaith gyntaf, neu amhariad arall.

## Tarddiad Daearyddol

- **47%** wedi cael eu magu yng Nghymru.
- **50%** wedi cael eu magu mewn rhannau eraill o'r DU.
- **3%** wedi cael eu magu y tu allan i'r DU.

## Cyfrifoldebau Gofalu Di-dâl

- **24%** yn darparu rhyw lefel o ofal di-dâl.
- Mwyaf cyffredin: **9 awr yr wythnos neu lai**.

## Argymhellion

### 1. Amrywiaeth Oedran a Chynllunio Olyniaeth

- **Argymhelliad:** Datblygu rhaglenni mentora a throsglwyddo gwybodaeth i gefnogi deiliaid swyddi barnwrol iau neu rai sydd newydd gael eu penodi.
- **Pam:** Mae'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn 60 oed a hŷn, sy'n dangos bod angen paratoi ar gyfer ymddeoliadau yn y dyfodol a chynnal gwybodaeth sefydliadol.

---

### 2. Ieithoedd a Gallu yn y Gymraeg

- **Argymhelliad:** Ehangu hyfforddiant a chymorth iaith Gymraeg i ddeiliaid swyddi barnwrol.
- **Pam:** Er bod 28% yn siarad Cymraeg, dim ond 33 a ymatebodd i'r cwestiwn am gynnal gwrandawiadau yn Gymraeg. Gallai cynyddu hyder a gallu wella hygyrchedd a chadw at ymrwymiadau dwyieithog.

---

### 3. Symudedd Economaidd-gymdeithasol

- **Argymhelliad:** Hyrwyddo allgymorth ac ymwybyddiaeth o rolau barnwrol mewn cymunedau sydd â chynrychiolaeth economaidd-gymdeithasol is.
- Darganfod pa waith allgymorth mae'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol yn ei wneud ar gyfer ymgyrchoedd recriwtio ac a oes modd gwella hyn.
- **Pam:** Dim ond 10% oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, a 30% oedd â rhieni heb unrhyw gymwysterau – mae hynny'n awgrymu bod lle i wella'r amrywiaeth economaidd-gymdeithasol.

---

### 4. Cynrychiolaeth Ethnig a Diwylliannol

- **Argymhelliad:** Cryfhau'r recriwtio wedi'i dargedu a'r cymorth ar gyfer grwpiau ethnig sy'n cael eu tangynrychioli.
- Fel uchod, allgymorth drwy'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol.
- **Pam:** Roedd 82% yn ystyried eu hunain yn Wyn Prydeinig, gyda chynrychiolaeth gyfyngedig o gefndiroedd Asiaidd, Du a chymysg.

---

### 5. Cynhwysiant Anabledd a Niwroamrywiaeth

- **Argymhelliad:** Gwella mesurau hygyrchedd a hyfforddiant ymwybyddiaeth o niwroamrywiaeth ar draws tribiwnlysoedd.
- Sicrhau bod unrhyw leoliadau a ddefnyddir ar gyfer gwrandawiadau a hyfforddiant yn gwbl hygyrch.
- Darparu hyfforddiant niwroamrywiaeth i ddeiliaid swyddi barnwrol.
- **Pam:** Dywedodd 26% fod ganddynt gyflwr hirdymor neu niwrowahaniaeth, gydag anghenion amrywiol gan gynnwys cymhorthion clyw, ADHD, awtistiaeth ac ystyriaethau o ran symudedd.

---

### 6. Cyfrifoldebau Gofalu

- **Argymhelliad:** Ystyried trefniadau gweithio hyblyg neu fecanweithiau cefnogi ar gyfer deiliaid swyddi barnwrol sydd â dyletswyddau gofalu.
- **Pam:** Mae bron i 25% yn darparu gofal di-dâl, gyda rhai yn gwneud hynny am fwy na 50 awr yr wythnos.

---

### 7. Tryloywder ac Ymgysylltu â Data

- **Argymhelliad:** Rhannu canfyddiadau arolwg dienw â deiliaid swyddi barnwrol a rhanddeiliaid i feithrin tryloywder ac annog cyfranogiad yn y dyfodol.
- **Pam:** Mae’n hybu ymddiriedaeth ac yn dangos bod adborth yn arwain at weithredu.

# Anecs 1

PDC / APW

PANEL DYFARNU CYMRU
ADJUDICATION PANEL FOR WALES

# Adroddiad Blynyddol Panel Dyfarnu Cymru

**Y Barnwr Meleri Tudur, Llywydd Panel Dyfarnu Cymru**

## Cyflwyniad

1. Dyma fy ail Adroddiad Blynyddol fel Llywydd Panel Dyfarnu Cymru.

2. Nod y Tribiwnlys o hyd yw gwasanaethu budd y cyhoedd drwy ymdrin ag achosion yn effeithlon ac yn effeithiol. Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod pawb sy'n gysylltiedig â'r anghydfod yn teimlo eu bod wedi cael gwrandawiad teg a bod yr achos wedi cael ei ddatrys yn deg ac mor effeithlon ag sy'n rhesymol er mwyn sicrhau cyfiawnder. Rhaid i'r cyhoedd fod yn hyderus yr ymdrinnir yn deg ag unrhyw achosion o dorri'r Cod Ymddygiad er mwyn cynnal ymddiriedaeth a hyder mewn democratiaeth leol.

3. Ers fy adroddiad diwethaf, mae'r Dirprwy Lywydd Edell Fitzpatrick wedi symud ymlaen ac fe'i penodwyd yn Brif Gomisiynydd Nawdd Cymdeithasol ac yn Brif Gomisiynydd Cynnal Plant Gogledd Iwerddon yn 2025. Dymunwn yn dda iddi yn ei rôl newydd a diolchwn iddi am ei chyfraniad i'r Tribiwnlys. Mae hi wedi gadael bwlch sylweddol ar ei hôl. Pwysleisiodd hynny'r angen i'r Tribiwnlys ddatblygu mwy o wydnwch a phenodi deiliaid swyddi barnwrol ychwanegol i sicrhau cadernid ac i allu cyflawni'r addewid i gwblhau achosion yn effeithlon.

4. Aethpwyd i'r afael â hyn drwy gyfrwng dau ymarfer recriwtio, un drwy gystadleuaeth gan y Comisiwn Penodiadau Barnwrol ar gyfer barnwyr sy'n cael ffi a'r llall drwy ymarfer Mynegi Diddordeb ar gyfer aelodau lleyg ar draws yr awdurdodaethau datganoledig. Mae'r prosesau dethol bellach wedi'u cwblhau yn amodol ar ddarparu hyfforddiant cynefino ar gyfer yr aelodau newydd a benodwyd.

5. Mae gweithredu Gorchymyn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Diwygio Atodlen 6) 2025 ym mis Mawrth 2025, o'r diwedd, wedi cysoni'r Tribiwnlys â'r awdurdodaethau datganoledig eraill yng Nghymru, drwy ei wneud yn ddarostyngedig i'r gofyniad i gydymffurfio â rhai o safonau'r Gymraeg. Rwy'n falch o gadarnhau y bydd ymrwymiad y Tribiwnlys i'r Gymraeg yn awr yn cael ei gydnabod ac mae gwaith yn mynd rhagddo gyda swyddfa Comisiynydd y Gymraeg i sicrhau bod y gofynion yn cael eu gweithredu'n llawn.

6. Yn ystod y flwyddyn, gan ragweld y byddai cynnydd o ran gweithredu Rhaglen Diwygio Tribiwnlysoedd Cymru, mae Arweinwyr Barnwrol y tribiwnlysoedd datganoledig, dan arweinyddiaeth Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, wedi gweithio'n agos gyda'i gilydd i geisio cyflwyno rhywfaint o gysondeb o ran ymarfer ar draws yr awdurdodaethau, lle bo hynny'n ymarferol, i baratoi'r tir ar gyfer diwygio tribiwnlysoedd pan ddaw hynny ac i sicrhau'r arferion gorau yng ngwaith yr holl dribiwnlysoedd. Mae hyn wedi galluogi cysylltiadau gweithio cryfach ar draws yr awdurdodaethau a mwy o gydymffurfio, lle bo hynny'n briodol, wrth ddefnyddio dulliau polisi cyffredin.

7. Yn fy adroddiad blaenorol, mynegais fy ymrwymiad i hyfforddiant barnwrol ac roeddwn yn falch o dderbyn cynnig Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru o rôl fel arweinydd Hyfforddiant Barnwrol. I Banel Dyfarnu Cymru, roedd yn bleser mawr eleni gweithio gyda deiliaid swyddi barnwrol Tribiwnlys y Gymraeg i gymryd rhan mewn hyfforddiant ar y cyd ar sgiliau barnwrol a materion awdurdodaethol penodol yng Nghaernarfon.

8. Mae gwaith yr awdurdodaeth wedi parhau ar lefel gyson. Mae'r nifer fach o achosion ac apeliadau yn golygu ei bod yn anodd canfod themâu ac edefynnau yn yr achosion sy'n cael eu dwyn gerbron y Tribiwnlys.

9. Y blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod fydd sefydlu deiliaid swyddi barnwrol newydd yn effeithiol yn yr awdurdodaeth i feithrin gwydnwch a sicrhau bod capasiti i ymdrin â'r holl achosion yn yr awdurdodaeth yn newis iaith y defnyddwyr; gwaith parhaus i baratoi'r ffordd ar gyfer diwygio tribiwnlysoedd yng Nghymru gyda gwaith paratoi i lunio dyfodol yr holl awdurdodaethau datganoledig.

10. Yn dilyn cyhoeddi adroddiad y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol ar ddigidoleiddio mewn tribiwnlysoedd, ac yng ngoleuni'r system rheoli achosion newydd y cafwyd cyllid ar ei chyfer erbyn hyn, bydd hefyd yn flaenoriaeth ceisio gwell cyfleusterau rheoli achosion ar gyfer yr awdurdodaeth.

11. Mae croeso mawr i unrhyw gwestiynau neu sylwadau sy'n codi am unrhyw agwedd ar waith y Tribiwnlys, neu gynnwys yr Adroddiad, a dylid eu cyfeirio at y Cofrestrydd yn y lle cyntaf.

## Trosolwg o'r Tribiwnlys

### Sail Gyfreithiol

12. Tribiwnlys annibynnol yw Panel Dyfarnu Cymru sy'n penderfynu ar achosion honedig o dorri Cod Ymddygiad statudol yr awdurdod gan aelodau etholedig a chyfetholedig o gynghorau sir, cynghorau bwrdeistref sirol a chynghorau cymuned, ac awdurdodau tân a pharciau cenedlaethol Cymru. Sefydlwyd y Panel o dan Ran III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

### Swyddogaeth

13. Mae'r Cod Ymddygiad ar gyfer awdurdod yn darparu set o safonau y disgwylir i'w aelodau gadw atynt mewn bywyd cyhoeddus. Mae'r Cod Ymddygiad yn ymdrin â gofynion amrywiol o ran sut y dylai aelodau ymddwyn ac mae'n cynnwys gofynion mewn perthynas â chydraddoldeb, buddiannau personol a rhagfarnus, gwybodaeth gyfrinachol, adnoddau eu hawdurdod a'r angen i osgoi dwyn anfri ar eu swydd neu'r awdurdod.

14. Mae gan Banel Dyfarnu Cymru ddwy swyddogaeth statudol mewn perthynas â thorri'r Cod Ymddygiad:

- ffurfio tribiwnlysoedd achos neu dribiwnlysoedd achos interim ("Tribiwnlysoedd Achos") i ystyried atgyfeiriadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ("yr Ombwdsmon"), ar ôl ymchwiliad i honiadau bod aelod wedi methu â chydymffurfio â Chod Ymddygiad ei awdurdod; ac
- ystyried apeliadau gan aelodau yn erbyn penderfyniadau pwyllgorau safonau awdurdodau lleol eu bod wedi torri'r Cod Ymddygiad ("Tribiwnlysoedd Apêl").

### Rheolau

15. Mae'r Panel Dyfarnu yn gweithredu'n unol â'i reoliadau gweithdrefnol a deddfwriaeth gysylltiedig arall. Mae'r rheoliadau'n sicrhau bod pob achos a glywir gan Banel Dyfarnu Cymru yn cael ei drin yn deg, yn gyson, yn brydlon ac yn gyfiawn. Maent yn sicrhau bod pawb sy'n dod gerbron y Panel yn deall yn glir y camau y mae'n rhaid iddynt eu cymryd er mwyn galluogi cyflwyno ffeithiau'r anghydfod a'r dadleuon perthnasol yn effeithiol i'r Panel. Maent hefyd yn sicrhau bod pob parti mewn achos yn deall dadleuon y parti arall ac yn gallu ymateb iddynt. Mae gweithdrefnau'r Panel yn cael eu llywodraethu gan y ddeddfwriaeth ganlynol:

   - Deddf Llywodraeth Leol 2000 (fel y'i diwygiwyd);
   - Rheoliadau Dyfarniadau gan Dribiwnlysoedd Achos a Thribiwnlysoedd Achos Interim (Cymru) 2001 (fel y'u diwygiwyd), a
   - Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001 (fel y'u diwygiwyd).

### Proses

16. Rhaid i unrhyw un sy'n dymuno ymateb i atgyfeiriad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru neu wneud cais am ganiatâd i apelio i'r Panel lenwi'r ffurflen berthnasol a'i hanfon at Banel Dyfarnu Cymru.

17. Yng ngwrandawiadau Panel Dyfarnu Cymru, mae'r panel fel arfer yn cynnwys cadeirydd sydd â chymwysterau cyfreithiol a 2 aelod lleyg. Fel arfer, cynhelir gwrandawiadau Panel Dyfarnu Cymru yn gyhoeddus a chânt eu cynnal yn agos at ardal yr awdurdod.

18. Mae Panel Dyfarnu Cymru yn cyhoeddi ei benderfyniadau ar ei wefan. Gellir apelio i'r Uchel Lys yn erbyn penderfyniadau Tribiwnlysoedd Achos ar seiliau cyfyngedig. Rhaid ceisio caniatâd i apelio i'r Uchel Lys yn gyntaf gan yr Uchel Lys.

19. Mae gwybodaeth a chanllawiau llawn am y Tribiwnlys, ei weithdrefnau a'i benderfyniadau ar gael ar ei wefan: https://paneldyfarnu.llyw.cymru/canllawiau-ffurflenni

## Strwythur y Tribiwnlys



## Blaenoriaethau Busnes ar gyfer 2026-27

20. Mae'n bwysig bod Panel Dyfarnu Cymru yn parhau i ddatblygu er mwyn darparu'r gwasanaeth gorau posibl i'n defnyddwyr. Mae'r adran hon yn ymwneud â sut y bydd y Panel yn adeiladu ar ei gyflawniadau drwy ganolbwyntio ar flaenoriaethau busnes a'n hymrwymiad i'n defnyddwyr.

21. Dyma ein blaenoriaethau dros y flwyddyn nesaf:

    - Sicrhau bod darpariaethau Gorchymyn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Diwygio Atodlen 6) 2025 yn cael eu gweithredu'n amserol ac yn effeithiol.
    - Parhau i ddarparu gwasanaeth effeithiol ac effeithlon, gan fodloni dangosyddion perfformiad allweddol.
    - Meithrin gwydnwch y Tribiwnlys drwy benodi ac awdurdodi deiliaid swyddi barnwrol ychwanegol.
    - Darparu hyfforddiant effeithiol i'r holl ddeiliaid swyddi barnwrol a hyfforddiant cynefino i'r deiliaid swyddi barnwrol newydd.
    - Parhau â'r gwaith paratoi cyn y Rhaglen Diwygio Tribiwnlysoedd.
    - Gwella cyfleusterau rheoli achosion ar gyfer y Tribiwnlys.

## Panel Dyfarnu Cymru

### Ystadegau Achosion a Dangosyddion Perfformiad Allweddol


### Niferoedd ac Ystadegau

Mae blwyddyn y Tribiwnlys yn rhedeg o fis Ebrill i fis Mawrth. Gan fod nifer yr achosion sy'n dod i law yn gymharol isel, rhoddir ffigurau am gyfnod o 5 mlynedd er mwyn gallu cymharu.


Mae'r ystadegau canlynol yn cael eu cywain:

- nifer yr atgyfeiriadau a'r apeliadau a ddaeth i law
- y math o geisiadau a ddaeth i law ac a gofrestrwyd
- nifer y ceisiadau a gwblhawyd yn derfynol
- canlyniad y ceisiadau.

**Graff 2.1 Nifer yr atgyfeiriadau a'r apeliadau a ddaeth i law fesul blwyddyn Ebrill 2021 – Mawrth 2026**




### Graff 2.2 Nifer yr atgyfeiriadau a'r apeliadau y penderfynwyd arnynt fesul blwyddyn Ebrill 2021 – Mawrth 2026





### Siart 2.3 Canlyniadau'r atgyfeiriadau a'r apeliadau Ebrill 2021 – Mawrth 2026

Mae'r siart isod yn dangos canlyniad atgyfeiriadau ac apeliadau y penderfynodd y Panel Dyfarnu arnynt dros y 5 mlynedd diwethaf.



## Graff 2.4 Achosion o dorri cod ymddygiad yn ôl math Ebrill 2021 – Mawrth 2026




## Data gwrandawiadau

Yn ystod 2025 – 2026

| Math | Hyd (mewn diwrnodau) |
|---|---|
| **Atgyfeiriad** | 5 |
| **Apêl** | 1 |

Ni chynhaliwyd unrhyw gynadleddau rhestru mewn perthynas â'r achosion hyn.

## Apeliadau pellach

Gellir gwneud ceisiadau am ganiatâd i apelio yn erbyn penderfyniad Tribiwnlys Achos neu Dribiwnlys Achos Interim i'r Uchel Lys ar sail gyfyngedig. Dros gyfnod yr adroddiad hwn, ni wnaed unrhyw geisiadau am ganiatâd.

## Cyflawni yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol

Er mwyn monitro pa mor effeithiol y darperir gwasanaethau, mae gennym ddangosyddion perfformiad allweddol sydd â'r nod o fesur dwy agwedd allweddol ar ein busnes: cyflymder ein gwasanaeth ac ansawdd y gwasanaeth drwy fodlonrwydd cwsmeriaid.

Er mwyn mesur cyflymder ein gwasanaeth, mae gennym gyfres o ddangosyddion perfformiad sylfaenol sy'n seiliedig ar yr amser a gymerir i brosesu cais – o gael y cais i wrando ar y cais neu ei waredu (gweler isod).

## Cyflymder ein gwasanaeth 2025-26

| | | |
|---|---|---|
| **Targed:** Ymdrin â 95% o ymholiadau neu dderbyn 95% o achosion o fewn 10 diwrnod gwaith iddynt ddod i law | → | Cyflawnwyd y targed mewn 100% o achosion |
| **Targed:** Dyroddi 100% o hysbysiadau gwrandawiad i'r ymatebydd/apelydd o leiaf 15 diwrnod gwaith cyn y gwrandawiad ac o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn unrhyw wrandawiad gohiriedig | → | Cyflawnwyd y targed mewn 100% o achosion |
| **Targed:** Dyroddi 100% o hysbysiadau gwrandawiad i dystion o fewn 10 diwrnod gwaith i'r gwrandawiad | → | Cyflawnwyd y targed mewn 100% o achosion |
| **Targed:** Dyroddi 90% o adroddiadau penderfyniad o fewn 30 diwrnod gwaith i'r gwrandawiad | → | Cyflawnwyd y targed mewn 100% o achosion |
| **Targed:** Rhyddhau 75% o geisiadau o fewn 12 mis | → | Cyflawnwyd y targed mewn 100% o achosion |

## Cwynion

Ni ddaeth unrhyw gwynion ffurfiol i law'r Panel Dyfarnu yn ystod y cyfnod adrodd ac ni chwblhawyd unrhyw gwynion ffurfiol.

# Anecs 2

# Adroddiad Blynyddol Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru

**Y Barnwr Christopher McNall, Llywydd Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru**

## Cyflwyniad

1. Mae'r Tribiwnlys yn parhau i geisio darparu gwasanaeth effeithlon, arbenigol a hawdd ei ddefnyddio am gost mor isel â phosibl i ymgyfreithwyr ac i bwrs y wlad. Yn wahanol i system y llysoedd, nid oes ffi'n daladwy pan wneir cais i'r Tribiwnlys ac ym mhob achos bron ni fydd unrhyw atebolrwydd i dalu costau'r ochr arall, beth bynnag fo'r canlyniad. Yn wahanol i gyflafareddiadau preifat neu benderfyniadau trydydd parti, nid oes ffi'n daladwy gan y partïon ar gyfer y panel sy'n gwrando achos. Felly, mae'r Tribiwnlys yn ffordd gost-effeithiol iawn o ddatrys anghydfodau.

2. Mae'r Tribiwnlys yn Dribiwnlys arbenigol, a mynegaf fy niolch parhaus i baneli ffermwyr, tirfeddianwyr ac arbenigwyr draenio'r Tribiwnlys. Rydym yn dibynnu'n helaeth ar eu gwybodaeth a'u profiad wrth ddatrys yr anghydfodau sy'n dod ger ein bron. Mae gan bob cwr o Gymru, a phob math o weithgarwch amaethyddol yng Nghymru, lais yn y Tribiwnlys. Cawsom gyfle i gwrdd a diweddaru ein gwybodaeth a'n sgiliau yn ystod ein sesiwn hyfforddi flynyddol, a gynhaliwyd o bell, yn ystod hydref 2025.

3. Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i Ysgrifennydd y Tribiwnlys, Swyddog Cymorth y Tribiwnlys, ei reolwr busnes a'u cydweithwyr yn Uned Tribiwnlysoedd Cymru am eu holl waith caled dros y flwyddyn ddiwethaf.

4. Rwyf hefyd yn ddiolchgar i'm pedwar Dirprwy Gadeirydd – y Barnwr Tanveer Rakhim, y Barnwr Brett Wilson, y Barnwr Maxine Cole a'r Barnwr Trefor Lloyd – am eu gwaith ar ran y Tribiwnlys. Hoffwn longyfarch y Barnwyr Rakhim a Wilson ar gael eu penodi'n farnwyr cyflogedig yn Nhribiwnlys Haen Gyntaf y DU.

5. Yn olaf, hoffwn fynegi diolch y Tribiwnlys i Syr Gary Hickinbottom am ei arweiniad a'i gefnogaeth fel Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru.

## Trosolwg o'r Tribiwnlys

### Sail Gyfreithiol

6. Mae Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru yn sefydliad statudol a sefydlwyd o dan Ddeddf Amaethyddiaeth 1947 gydag awdurdodaeth dros ardal ddaearyddol Cymru.

7. Mae'r Tribiwnlys yn annibynnol ar lywodraeth. Mae'r Tribiwnlys Tir Amaethyddol yn chwarae rhan bwysig wrth benderfynu ar anghydfodau a materion eraill rhwng landlordiaid a thenantiaid amaethyddol sy'n deillio o gytundebau tenantiaeth a ddelir o dan Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986. Mae'r Tribiwnlys hefyd yn penderfynu ar anghydfodau sy'n ymwneud â draenio tir amaethyddol o dan Ddeddf Draenio tir 1991.

8. Prif nod Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru yw:

   - Darparu gwasanaeth sy'n perfformio'n dda ac yn gost-effeithiol i ddefnyddwyr y Tribiwnlys a'i aelodau.
   - Sicrhau bod pob agwedd ar waith y Tribiwnlys yn cael ei gweinyddu mewn ffordd sy'n sicrhau dyfarniad teg, annibynnol ac amserol.
   - Gweithredu o fewn y fframwaith deddfwriaethol sy'n berthnasol yng Nghymru.

### Swyddogaeth

9. Mae Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru yn ymdrin ag anghydfodau sy'n ymwneud â:

**Draenio tir:**

- Adfer neu wella ffosydd.

**Cytundebau tenantiaeth:**

- Hysbysiad i ymadael â daliad
- Olyniaeth ar ôl marwolaeth
- Olyniaeth ar ôl ymddeoliad.

**Ceisiadau amaethyddol:**

- Hwsmonaeth wael
- Llosgi grug neu laswellt
- Offer sefydlog
- Gwelliant/gwelliannau hirdymor
- Gerddi masnachol.

## Rheolau

10. Mae'r rheoliadau sy'n llywodraethu gweithdrefnau'r Tribiwnlys wedi'u nodi yn:

- Gorchymyn Tribiwnlys Tir Amaethyddol (Ardal) 1982 (OS 1982/97)
- Deddf Draenio tir 1991
- Gorchymyn Tribiwnlys Tir Amaethyddol (Rheolau) 2007.

## Proses

11. I wneud cais neu apêl, rhaid i chi lenwi'r ffurflen gais berthnasol a'i hanfon at Dribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru. Derbynnir ceisiadau drwy'r post neu e-bost. Ni chodir unrhyw ffioedd am wneud cais i'r Tribiwnlys.

12. Bydd y Tribiwnlys yn cydnabod eich cais, ac yn cofrestru eich achos o fewn 10 diwrnod gwaith neu'n ysgrifennu atoch i ofyn am ragor o wybodaeth. Wrth gofrestru'r achos, bydd copi o'r Cais yn cael ei anfon at y parti a enwir fel yr Ymatebydd.

13. Nid yw cais i Dribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru o reidrwydd yn arwain at wrandawiad. Mae llawer o achosion yn cael eu setlo rhwng y partïon ac nid oes angen gwrandawiad. Os bydd y cais yn symud ymlaen i wrandawiad gerbron y Tribiwnlys, bydd y panel yn cynnwys cadeirydd sydd â chymwysterau cyfreithiol a dau aelod lleyg.

14. Cyn pob gwrandawiad Tribiwnlys bron, bydd panel y Tribiwnlys yn cynnal archwiliad o'r tir sy'n ymwneud â'r cais. Gall y Tribiwnlys archwilio'r adeiladau, y tir ac unrhyw dda byw, offer a chynnyrch. Cynhelir gwrandawiadau'r Tribiwnlys yn agos at y tir dan sylw neu ar-lein.

15. Gellir apelio yn erbyn penderfyniadau Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru ar sail gyfyngedig i Siambr Tiroedd yr Uwch Dribiwnlys.

16. Mae gwybodaeth a chanllawiau llawn am y Tribiwnlys a'i weithdrefnau ar gael ar ei wefan: https://tribiwnlystiramaethyddol.llyw.cymru/canllawiau-ffurflenni

## Strwythur y Tribiwnlys



### Blaenoriaethau Busnes ar gyfer 2026-27

17. Mae'n bwysig bod Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru yn parhau i ddatblygu er mwyn darparu'r gwasanaeth gorau posibl i'n defnyddwyr. Mae'r adran hon yn ymwneud â sut y bydd y Tribiwnlys yn adeiladu ar ei gyflawniadau drwy ganolbwyntio ar flaenoriaethau busnes a'n hymrwymiad i'n defnyddwyr.

18. Dyma ein blaenoriaethau dros y flwyddyn nesaf:

- Parhau i gynnig gwasanaeth o ansawdd uchel gan sicrhau ein bod yn bodloni'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol.
- Parhau i fonitro a diweddaru gwefan Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru.
- Trefnu cynhadledd hyfforddiant flynyddol ar gyfer aelodau'r Tribiwnlys, gan nodi ac ymateb i anghenion hyfforddiant.
- Sicrhau bod y Tribiwnlys yn parhau i weithredu safonau'r Gymraeg.

## Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru

## Ystadegau Achosion a Dangosyddion Perfformiad Allweddol

### Nifer y ceisiadau a ddaeth i law ac a gofrestrwyd yn ôl blwyddyn a math

| Math o achos | Ceisiadau a ddaeth i law ac a gofrestrwyd | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2025-26 | 2024-25 | 2023-24 | 2022-23 | 2021-22 |
| Olyniaeth ar ôl marwolaeth | 10 | 11 | 10 | 19 | 8 |
| Olyniaeth ar ôl ymddeoliad | 2 | 1 | 2 | 0 | 2 |
| Cydsyniad i hysbysiad ymadael (nid Achos G)* | 0 | 0 | 2 | 8 | 6 |
| Tystysgrif hwsmonaeth wael | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Draenio tir | 2 | 1 | 3 | 1 | 3 |
| Cydsyniad i welliannau hirdymor | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Offer sefydlog | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **14** | **13** | **17** | **28** | **20** |

*Roedd y ffigurau ar gyfer blynyddoedd cynharach yn cynnwys ceisiadau Achos G.

### Nifer y ceisiadau a gwblhawyd fesul blwyddyn yn ystod 2021-26

| Math o achos | Achosion a gwblhawyd (yn cynnwys achosion a gariwyd drosodd) | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2025-26 | 2024-25 | 2023-24 | 2022-23 | 2021-22 |
| Olyniaeth ar ôl marwolaeth | 17 | 9 | 19 | 7 | 4 |
| Olyniaeth ar ôl ymddeoliad | 1 | 4 | 0 | 2 | 0 |
| Cydsyniad i hysbysiad ymadael (nid Achos G) | 7 | 3 | 8 | 3 | 1 |
| Tystysgrif hwsmonaeth wael | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Draenio tir | 3 | 3 | 2 | 2 | 3 |
| Cydsyniad i welliannau hirdymor | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Offer sefydlog | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **28** | **19** | **29** | **14** | **8** |

| Math o achos | Canlyniad 2025 – 2026 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Wedi'i dynnu'n ôl | Gorchymyn Cydsynio | Gwrthodwyd | Caniatawyd | Cariwyd drosodd |
| Olyniaeth ar ôl marwolaeth | 13 | 3 | 0 | 5 | 16 |
| Olyniaeth ar ôl ymddeoliad | 1 | 0 | 0 | 0 | 2 |
| Cydsyniad i hysbysiad Ymadael | 1 | 1 | 3 | 0 | 4 |
| Tystysgrif hwsmonaeth wael | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Draenio tir | 0 | 0 | 0 | 3 | 2 |
| Cydsyniad i welliannau hirdymor | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Offer sefydlog | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **15** | **4** | **3** | **8** | **24** |

## Cyflymder ein gwasanaeth 2025-26

| Targed | Canlyniad |
| --- | --- |
| **Targed:** cofrestru 100% o geisiadau neu ymdrin â 100% o ymholiadau cyn-cofrestru o fewn 10 diwrnod gwaith i'r ffurflen gais ddod i law | Cyflawnwyd y targed mewn 100% o achosion |
| **Targed:** 100% o ymatebion yr ymatebydd i geisiadau i'w dyroddi i'r ymgeisydd o fewn 10 diwrnod gwaith iddynt ddod i law | Cyflawnwyd y targed mewn 100% o achosion |
| **Targed:** 100% o Adroddiadau Draenio ac Adroddiadau Asesu Incwm Blynyddol Net i'w dyroddi i'r partïon o fewn 10 diwrnod gwaith iddynt ddod i law | Cyflawnwyd y targed mewn 100% o achosion |
| **Targed:** 100% o hysbysiadau am wrandawiad i'w dyroddi o fewn 14 diwrnod gwaith i'r gwrandawiad | Cyflawnwyd y targed mewn 100% o achosion |
| **Targed:** 100% o benderfyniadau i'w dyroddi o fewn 30 diwrnod gwaith i'r gwrandawiad | Cyflawnwyd y targed mewn 98% o achosion |

Yn ystod 2025–2026 roedd:

- 0 gwrandawiad cyhoeddus
- 4 gwrandawiad i ystyried Gorchmynion Cydsynio (lle byddai aelodau'r panel yn cwrdd heb i'r partïon fod yn bresennol)
- 3 phenderfyniad ysgrifenedig wedi'u dyroddi
- 4 gorchymyn cydsynio wedi'u dyroddi.

## Adolygiadau ac apeliadau pellach

Gall partïon wneud cais am adolygiad o benderfyniad Tribiwnlys ar sail gyfyngedig. Dros gyfnod yr adroddiad hwn, ni wnaed unrhyw Geisiadau.

Gall partïon apelio i'r Uwch Dribiwnlys ar bwynt cyfreithiol. Yn gyntaf, rhaid gofyn i Dribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru am ganiatâd i apelio. Bydd llythyr Penderfyniad y Tribiwnlys yn rhoi gwybod i chi am unrhyw derfynau amser. Daeth 1 apêl i law yn ystod y flwyddyn.

## Cwynion

Ni ddaeth unrhyw gwynion ffurfiol i law'r Tribiwnlys yn ystod 2025-26.

Tribiwnlys Addysg Cymru Education Tribunal for Wales

# Adroddiad Blynyddol Tribiwnlys Addysg Cymru

**Y Barnwr Jane McConnell – Llywydd Tribiwnlys Addysg Cymru**

## Cyflwyniad

1. Mae wedi bod yn flwyddyn sefydlog i'r Tribiwnlys – ein blwyddyn gyntaf lle mae pob apêl yn achos sy'n cael ei ddwyn o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Mae'n parhau i fod yn broses o ddysgu llawer iawn mewn cyfnod byr i bob deiliad swydd farnwrol (Barnwyr ac Aelodau Arbenigol) yn ogystal â'n gweinyddiaeth sy'n gweithio gyda'r fframwaith cyfreithiol newydd.

2. Cyhoeddwyd fy Adolygiad o'r Fframwaith Deddfwriaethol Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yng Nghymru ym mis Medi 2025, gan roi dadansoddiad manwl o'r gyfraith newydd. Mae copi ar gael ar wefan Tribiwnlys Addysg Cymru:
   Adolygiad o'r Fframwaith Deddfwriaethol Anghenion Dysgu Ychwanegol yng Nghymru

3. Rydym yn parhau i sicrhau bod plant a phobl ifanc wrth graidd ein gwaith gwneud penderfyniadau.

4. Mae apeliadau o dan y Ddeddf newydd yn fwyfwy cymhleth o'u cymharu â'r rheini o dan y Fframwaith Cyfreithiol Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd. blaenorol gan eu bod yn gallu cynnwys nifer o wahanol seiliau dros apelio.

5. Mae tystiolaeth bod awdurdodau lleol yn datblygu gwell dealltwriaeth o'r gofynion cyfreithiol sy'n cael eu gosod arnynt o dan y Ddeddf ond nid yw hyn yn unffurf ledled Cymru eto. Mae cyfathrebu clir â rhieni, plant a phobl ifanc am unrhyw benderfyniad sy'n cael ei wneud gan eu hawdurdod lleol cyfrifol yn parhau i fod yn anghyson. Yn rhy aml, nid yw'r wybodaeth am yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys yn cael ei darparu.

6. Eleni, dim ond pedair apêl sydd wedi'u cofrestru gan bobl ifanc neu ar eu rhan (y rhai sy'n hŷn nag oedran ysgol gorfodol), sy'n annisgwyl o ystyried bod y ddeddfwriaeth bellach yn ymestyn i gynnwys pobl ifanc hyd at 25 oed.

7. Eleni eto, ni chyflwynwyd unrhyw apeliadau gan blant neu bobl ifanc sydd dan gadwad, nac ar eu rhan. Hefyd, ni wnaed unrhyw apeliadau gan nac ar ran Plentyn sy'n Derbyn Gofal.

8. Gwelwyd cynnydd yn nifer yr hawliadau Gwahaniaethu ar sail Anabledd a wnaed yn erbyn ysgolion. Mae'r rhain fel arfer yn achosion dadleuol lle nad yw'r materion a godir o fewn awdurdodaeth y Tribiwnlys bob amser. Weithiau, mae rhieni'n ceisio dod ag achos gwahaniaethu mewn rhwystredigaeth gan nad ydynt wedi gallu llywio drwy'r system ADY.

9. Mae'r Tribiwnlys wedi defnyddio Rheoli Achosion fwyfwy fel arf i gefnogi partïon i nodi'r materion y ceir anghydfod yn eu cylch ac yna i'w harwain tuag at setliad. Mae cynnal Gwrandawiad Rheoli Achos yn aml yn dod â phartïon at ei gilydd am y tro cyntaf mewn amgylchedd a reolir. Cafodd 29% o'r achosion a gofrestrwyd gyda'r Tribiwnlys eu setlo drwy gydsyniad – y rhan fwyaf ohonynt yn dilyn y broses hon. Mae Gorchymyn Cydsynio yn benderfyniad rhwymol gan y Tribiwnlys a ddyroddir gan Farnwr ar ôl ystyried unrhyw gytundeb a wneir gan bartïon. Mae'n golygu bod y ddau barti'n fodlon ar y canlyniad i ryw raddau.

10. Prin o hyd yw'r wybodaeth, y cyngor, y gefnogaeth a'r gynrychiolaeth i rieni, plant a phobl ifanc sy'n dymuno dod ag achos i'r Tribiwnlys. Mae'r cwestiwn ynghylch sut i sicrhau mynediad at gyfiawnder i'r grŵp agored i niwed hwn yn parhau i fod yn un y mae'r Tribiwnlys yn benderfynol o fynd i'r afael ag ef.

11. Roedd yr hyfforddiant barnwrol eleni yn canolbwyntio ar y Fframwaith Cyfreithiol ADY; pennu darpariaeth addysgol a darpariaeth iechyd; pryd y gellir enwi lleoliad addysgol mewn Cynllun Addysg Unigol ac effaith cynsail o gyfraith achosion a ddyroddwyd gan yr Uwch Dribiwnlys. Edrychwyd yn ofalus hefyd ar ddatblygiadau mewn cyfraith Gwahaniaethu ar Sail Anabledd.

12. Mae nifer y ceisiadau yn gofyn am Adolygiad o benderfyniadau'r Tribiwnlys neu am Ganiatâd i Apelio i'r Uwch Dribiwnlys yn cynyddu. Mae hyn i'w ddisgwyl ac mae'n adlewyrchu'r drafftio cymhleth a heriol ar y Ddeddf. Datblygiad sy'n peri pryder yw'r defnydd o ddeallusrwydd artiffisial gan rieni heb gynrychiolaeth wrth wneud ceisiadau o'r fath. Gan amlaf, mae deallusrwydd artiffisial yn cynhyrchu seiliau apelio posibl di-sail yn seiliedig ar gyfraith amherthnasol neu gyfraith nad yw'n bodoli. Mae hyn yn arwain at ddisgwyliadau ffug y gellir herio penderfyniad y Tribiwnlys yn llwyddiannus.

13. Yn ddiweddar, rydym wedi pennu tri Barnwr newydd i'r awdurdodaeth o Dribiwnlysoedd datganoledig eraill Cymru. Pan fyddant wedi'u hyfforddi'n llawn byddant yn ychwanegu rhagor o gapasiti. Disgwylir y bydd cystadleuaeth gan y Comisiwn Penodiadau Barnwrol yn cael ei lansio yn ystod haf 2026 i benodi rhagor o Farnwyr i Dribiwnlys Addysg Cymru yn sgil y cynnydd a ddisgwylir yn y llwyth gwaith o ganlyniad i barhau i weithredu deddfwriaeth ADY a Diwygio Tribiwnlysoedd. Wedi hynny, byddem yn disgwyl gweld recriwtio Aelodau Arbenigol ychwanegol yn 2027.

14. Rhaid cydnabod a diolch i dîm gweinyddol ymroddedig Tribiwnlys Addysg Cymru sydd wedi cynnal lefel uchel o wasanaeth i'n Defnyddwyr er gwaethaf cyfnod o adnoddau cyfyngedig. Hefyd, i hyblygrwydd ein deiliaid swyddi barnwrol o ran sicrhau bod pob achos yn cael gwrandawiad teg a chyfiawn. Mae fy Nirprwy, y Barnwr Mark Allen, yn parhau i ddarparu ei gyngor a'i gefnogaeth wrth ddatblygu'r awdurdodaeth.

15. Fel tîm, rydym wedi ymrwymo o hyd i ddarparu llwybr effeithiol at gyfiawnder er mwyn i blant a phobl ifanc Cymru sicrhau addysg briodol.

## Trosolwg o'r Tribiwnlys

### Sail Gyfreithiol

16. Tribiwnlys annibynnol yw Tribiwnlys Addysg Cymru. Cafodd Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig blaenorol Cymru ei sefydlu yn 2003 gan Adran 333 (1ZA) o Ddeddf Addysg 1996. Cafodd ei ailenwi'n Dribiwnlys Addysg Cymru gan Adran 91 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

17. Mae Tribiwnlys Addysg Cymru, ei aelodau a'i benderfyniadau yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol ac mae ein penderfyniadau'n gyfreithiol rwymol. Darperir cyllid ar gyfer y Tribiwnlys Addysg a'i gymorth gweinyddol gan Lywodraeth Cymru.

### Swyddogaeth

18. Mae'r Tribiwnlys Addysg yn gwrando ac yn penderfynu ar apeliadau sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol. Gwneir apeliadau gan rieni, plant a phobl ifanc yn erbyn penderfyniadau penodol a wnaed gan awdurdod lleol neu sefydliad addysg bellach am addysg plentyn neu berson ifanc. Mae'r Tribiwnlys hefyd yn gwrando ar hawliadau o wahaniaethu honedig ar sail anabledd yn ysgolion Cymru.

### Rheolau

19. Mae'r Tribiwnlys Addysg yn gweithredu'n unol â'i reoliadau gweithdrefnol a deddfwriaeth gysylltiedig arall. Mae'r rheoliadau'n sicrhau bod pob achos a glywir gan y Tribiwnlys Addysg yn cael ei drin yn deg, yn gyson, yn brydlon ac yn gyfiawn. Maent yn sicrhau bod pawb sy'n dod gerbron y Tribiwnlys Addysg yn deall yn glir y camau y mae'n rhaid iddynt eu cymryd er mwyn galluogi cyflwyno ffeithiau'r anghydfod a'r dadleuon perthnasol yn effeithiol i'r Tribiwnlys. Maent hefyd yn sicrhau bod pob parti mewn achos yn deall dadleuon y parti arall ac yn gallu ymateb iddynt.

20. Mae gweithdrefnau'r Tribiwnlys Addysg yn cael eu llywodraethu gan y ddeddfwriaeth ganlynol:

    - Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru 2021
    - Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018
    - Deddf Addysg 1996
    - Deddf Cydraddoldeb 2010.

### Proses


21. Rhaid i unrhyw un sydd eisiau gwneud apêl neu gais i'r Tribiwnlys Addysg lenwi'r ffurflen gais berthnasol a'i hanfon at y Tribiwnlys.

22. Yng ngwrandawiadau'r Tribiwnlys Addysg, mae'r panel yn cynnwys Barnwr sydd â chymwysterau cyfreithiol a dau Aelod o'r Panel Addysg. Penodwyd Aelodau'r Panel Addysg am eu harbenigedd a'u gwybodaeth ym maes addysg.

23. Bydd gwrandawiadau Tribiwnlys Addysg Cymru fel arfer yn cael eu cynnal yn breifat ac yn agos at gartref y ceisydd neu o bell drwy ddefnyddio system Gwrandawiad Ar-lein.

24. Mae gwybodaeth a chanllawiau llawn am y Tribiwnlys a'i weithdrefnau ar gael ar ei wefan: https://tribiwnlysaddysg.llyw.cymru/canllawiau-ffurflenni

## Strwythur y Tribiwnlys




### Blaenoriaethau Busnes ar gyfer 2026-27

25. Mae'n bwysig bod Tribiwnlys Addysg Cymru yn parhau i ddatblygu er mwyn darparu'r gwasanaeth gorau posibl i'n defnyddwyr. Mae'r adran hon yn ymwneud â sut y bydd y Tribiwnlys yn adeiladu ar ei gyflawniadau drwy ganolbwyntio ar flaenoriaethau busnes a'n hymrwymiad i'n defnyddwyr.


26. Dyma ein blaenoriaethau dros y flwyddyn nesaf:

- Sicrhau mynediad effeithiol at gyfiawnder a chyngor a chefnogaeth i blant a phobl ifanc sydd ag ADY ac Anableddau.
- Gwneud defnydd effeithiol o reoli achosion a datrys anghydfodau barnwrol.
- Hyrwyddo gwybodaeth am yr hawl i Blant sy'n Derbyn Gofal a'r plant/pobl ifanc hynny sydd dan ddaliad i apelio neu wneud hawliad.
- Darparu Hyfforddiant Diweddaru Barnwrol sy'n canolbwyntio ar Wahaniaethu ar sail Anabledd a Chyfraith ADY.
- Darparu gwrandawiadau hyblyg yn Gymraeg ac yn Saesneg ar gais y partïon.
- Cynllunio a chyflwyno cyfarfodydd Fforwm Defnyddwyr ledled Cymru ac ar-lein.
- Cyhoeddi penderfyniadau Tribiwnlys Addysg Cymru a wnaed o dan y Gyfraith ADY a darparu mynediad atynt yn effeithiol.
- Adolygu gweinyddiaeth y Tribiwnlys a'i brosesau i gyflawni penderfyniadau teg, cyfiawn ac amserol.
- Paratoi i symud i unrhyw strwythur Tribiwnlysoedd newydd a gyflwynir fel rhan o'r gwaith o ddiwygio Tribiwnlysoedd yng Nghymru.

## Tribiwnlys Addysg Cymru

### Ystadegau Achosion a Dangosyddion Perfformiad Allweddol

### Siart 2.1  Apeliadau ADY a ddaeth i law ac a ryddhawyd yn 2025 – 2026



**Tabl 2.2  Mathau o apeliadau ADY Ebrill 2025 – Mawrth 2026**

| Yr hawl i apelio | Nifer |
|---|---|
| A oes gan y plentyn ADY | 20 |
| ALl yn llunio ac yn cynnal CDU | 12 |
| Gwrthod newid CDU | 13 |
| Gwrthod cymryd cyfrifoldeb am CDU | 18 |
| Peidio â pharhau i gynnal | 3 |
| Gwrthod penderfynu ar fater | 10 |
| Angen | 1 |
| Darpariaeth | 3 |
| Ysgol | 48 |
| Angen a darpariaeth | 14 |
| Angen ac ysgol | 4 |
| Darpariaeth ac ysgol | 42 |
| Angen, darpariaeth ac ysgol | 31 |
| DDdY – Cymraeg | 1 |
| Heb ei gadarnhau | 1 |
| **Cyfanswm** | **221** |

CDU – Cynllun Datblygu Unigol
DDdY – Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol

Sylwch y gall fod gan apêl sy'n cael ei chofrestru gyda'r Tribiwnlys fwy nag un sail dros apelio.

**Tabl 2.3 Apeliadau ADY yn ôl Awdurdod Lleol Ebrill 2025 – Mawrth 2026**

| | Nifer yr apeliadau | Canran yr apeliadau % |
|---|---|---|
| Abertawe | 3 | 2% |
| Blaenau Gwent | 0 | 0% |
| Bro Morgannwg | 9 | 6% |
| Caerdydd | 12 | 8% |
| Caerffili | 5 | 3% |
| Casnewydd | 15 | 10% |
| Castell-nedd Port Talbot | 3 | 2% |
| Ceredigion | 1 | 1% |
| Conwy | 7 | 5% |
| Gwynedd | 14 | 10% |
| Merthyr Tudful | 1 | 1% |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 0 | 0% |
| Powys | 12 | 8% |
| Rhondda Cynon Taf | 20 | 14% |
| Sir Benfro | 0 | 0% |
| Sir Ddinbych | 5 | 3% |
| Sir Fynwy | 6 | 4% |
| Sir y Fflint | 6 | 4% |
| Sir Gaerfyrddin | 5 | 3% |
| Torfaen | 12 | 8% |
| Wrecsam | 4 | 3% |
| Ynys Môn | 5 | 3% |
| **Cyfanswm** | **145** | **100%** |


**Tabl 2.4 Mathau o apeliadau ADY yn ôl Awdurdod Lleol (Rhan 1) Ebrill 2025 – Mawrth 2026**

| | A oes gan y plentyn ADY | ALI yn llunio ac yn cynnal CDU | Gwrthod newid CDU | Gwrthod cymryd cyfrifoldeb am CDU | Peidio â pharhau i gynnal | Gwrthod penderfynu ar fater | DDdY – Cymraeg | Heb ei gadarnhau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Abertawe | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Blaenau Gwent | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Bro Morgannwg | 0 | 0 | 0 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Caerdydd | 2 | 2 | 1 | 1 | 0 | 1 | 0 | 0 |
| Caerffili | 1 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Casnewydd | 4 | 1 | 2 | 4 | 0 | 4 | 0 | 0 |
| Castell-nedd Port Talbot | 0 | 1 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ceredigion | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| Conwy | 0 | 1 | 1 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| Gwynedd | 1 | 0 | 1 | 1 | 1 | 2 | 1 | 1 |
| Merthyr Tudful | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Powys | 2 | 1 | 0 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Rhondda Cynon Taf | 5 | 2 | 2 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 |
| Sir Benfro | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Sir Ddinbych | 3 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Sir Fynwy | 0 | 1 | 1 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Sir y Fflint | 1 | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Sir Gaerfyrddin | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Torfaen | 0 | 2 | 1 | 2 | 0 | 1 | 0 | 0 |
| Wrecsam | 1 | 0 | 1 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 |
| Ynys Môn | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **20** | **12** | **13** | **18** | **3** | **10** | **1** | **1** |

**Tabl 2.5 Mathau o Apeliadau ADY yn ôl Awdurdod Lleol (Rhan 2) Ebrill 2025 – Mawrth 2026**

| | Angen | Darpariaeth | Ysgol | Angen a darpariaeth | Angen ac ysgol | Darpariaeth ac ysgol | Angen, darpariaeth ac ysgol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Abertawe** | 0 | 0 | 2 | 0 | 0 | 1 | 1 |
| **Blaenau Gwent** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Bro Morgannwg** | 0 | 0 | 1 | 2 | 0 | 6 | 6 |
| **Caerdydd** | 0 | 0 | 4 | 1 | 2 | 3 | 2 |
| **Caerffili** | 0 | 0 | 3 | 0 | 1 | 1 | 0 |
| **Casnewydd** | 0 | 1 | 5 | 2 | 0 | 1 | 0 |
| **Castell-nedd Port Talbot** | 0 | 0 | 0 | 2 | 0 | 1 | 1 |
| **Ceredigion** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Conwy** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 4 | 3 |
| **Gwynedd** | 0 | 1 | 4 | 1 | 0 | 4 | 1 |
| **Merthyr Tudful** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 |
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Powys** | 0 | 0 | 2 | 1 | 0 | 5 | 3 |
| **Rhondda Cynon Taf** | 1 | 0 | 13 | 0 | 0 | 1 | 1 |
| **Sir Benfro** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Sir Ddinbych** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 | 2 |
| **Sir Fynwy** | 0 | 0 | 0 | 2 | 0 | 2 | 2 |
| **Sir y Fflint** | 0 | 0 | 1 | 2 | 0 | 2 | 2 |
| **Sir Gaerfyrddin** | 0 | 0 | 2 | 0 | 0 | 3 | 2 |
| **Torfaen** | 0 | 1 | 7 | 1 | 0 | 1 | 1 |
| **Wrecsam** | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 3 | 3 |
| **Ynys Môn** | 0 | 0 | 4 | 0 | 0 | 1 | 0 |
| **Cyfanswm** | **1** | **3** | **48** | **14** | **4** | **42** | **31** |

## Siart 2.6 Apeliadau fesul 10,000 o’r boblogaeth ysgol ym mhob awdurdod lleol Ebrill 2025 – Mawrth 2026



**Tabl 2.7 Mathau o apeliadau ADY yn ôl oedran ysgol Ebrill 2025 – Mawrth 2026**

| | Meithrin | Pontio o'r meithrin i'r cynradd | Cynradd | Pontio o'r cynradd i'r uwchradd | Uwchradd | Pontio o'r uwchradd i sefydliad addysg bellach | Sefydliad addysg bellach |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A oes gan y plentyn ADY | 2 | 0 | 9 | 1 | 6 | 0 | 1 |
| ALI yn llunio ac yn cynnal CDU | 2 | 0 | 4 | 0 | 5 | 0 | 1 |
| Gwrthod Newid CDU | 0 | 0 | 8 | 0 | 5 | 0 | 0 |
| Gwrthod cymryd cyfrifoldeb am CDU | 0 | 1 | 10 | 0 | 7 | 0 | 0 |
| Peidio â pharhau i gynnal | 0 | 0 | 0 | 1 | 2 | 0 | 0 |
| Gwrthod penderfynu ar fater | 1 | 0 | 5 | 1 | 3 | 0 | 0 |
| Angen mewn CDU | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Darpariaeth mewn CDU | 0 | 0 | 2 | 0 | 1 | 0 | 0 |
| Ysgol mewn CDU | 4 | 1 | 22 | 10 | 10 | 0 | 1 |
| Angen a darpariaeth mewn CDU | 2 | 0 | 6 | 0 | 6 | 0 | 0 |
| Angen ac ysgol mewn CDU | 0 | 0 | 2 | 0 | 1 | 0 | 1 |
| Darpariaeth ac ysgol mewn CDU | 1 | 1 | 18 | 2 | 20 | 0 | 0 |
| Angen, darpariaeth ac ysgol mewn CDU | 0 | 0 | 11 | 2 | 18 | 0 | 0 |
| DDdY – Cymraeg | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Heb ei gadarnhau | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **12** | **3** | **99** | **17** | **84** | **0** | **4** |

**Tabl 2.8 Apeliadau ADY yn ôl oedran ysgol ac awdurdod lleol Ebrill 2025 – Mawrth 2026**

| | Meithrin | Pontio o'r meithrin i'r cynradd | Cynradd | Pontio o'r cynradd i'r uwchradd | Uwchradd | Pontio o'r uwchradd i sefydliad addysg bellach | Sefydliad addysg bellach |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Abertawe** | 0 | 0 | 0 | 2 | 1 | 0 | 0 |
| **Blaenau Gwent** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Bro Morgannwg** | 0 | 0 | 5 | 1 | 3 | 0 | 0 |
| **Caerdydd** | 0 | 0 | 3 | 2 | 6 | 0 | 1 |
| **Caerffili** | 0 | 0 | 3 | 0 | 2 | 0 | 0 |
| **Casnewydd** | 1 | 0 | 10 | 0 | 4 | 0 | 0 |
| **Castell-nedd Port Talbot** | 1 | 0 | 1 | 0 | 1 | 0 | 0 |
| **Ceredigion** | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 |
| **Conwy** | 0 | 0 | 2 | 0 | 5 | 0 | 0 |
| **Gwynedd** | 1 | 0 | 10 | 2 | 1 | 0 | 0 |
| **Merthyr Tudful** | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 |
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Powys** | 1 | 0 | 7 | 0 | 4 | 0 | 0 |
| **Rhondda Cynon Taf** | 2 | 0 | 8 | 4 | 4 | 1 | 1 |
| **Sir Benfro** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Sir Ddinbych** | 0 | 0 | 2 | 0 | 2 | 0 | 1 |
| **Sir Fynwy** | 0 | 0 | 3 | 0 | 3 | 0 | 0 |
| **Sir y Fflint** | 1 | 0 | 3 | 0 | 2 | 0 | 0 |
| **Sir Gaerfyrddin** | 0 | 1 | 1 | 1 | 2 | 0 | 0 |
| **Torfaen** | 1 | 0 | 7 | 1 | 3 | 0 | 0 |
| **Wrecsam** | 0 | 0 | 2 | 0 | 2 | 0 | 0 |
| **Ynys Môn** | 1 | 1 | 3 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **9** | **2** | **70** | **13** | **47** | **1** | **3** |

**Tabl 2.9 Apeliadau ADY yn ôl canlyniad Ebrill 2025 – Mawrth 2026 (gan gynnwys apeliadau a gariwyd drosodd)**

| | Ebrill 2025 – Mawrth 2026 | |
|---|---|---|
| | Gwirioneddol | Canran |
| Amser ar ben | 0 | 0% |
| Wedi gwrthod cofrestru | 2 | 1% |
| Wedi'i gadarnhau'n llawn | 24 | 14% |
| Wedi'i gadarnhau'n rhannol | 16 | 9% |
| Gorchymyn Cydsynio[1] | 51 | 29% |
| Wedi'i wrthod/ei ddileu | 15 | 9% |
| Wedi'i dynnu'n ôl[2] | 26 | 15% |
| Yn aros | 42 | 24% |
| **Cyfanswm** | **176** | **100%** |

1 Cydsynio – Daw apêl i ben drwy gydsyniad pan fydd y partïon wedi dod i gytundeb a bod penderfyniad yn cael ei ddyroddi gan Farnwr yn cadarnhau'r cytundeb y daethpwyd iddo.
2 Wedi'i dynnu'n ôl – Bydd achos yn cael ei dynnu'n ôl pan na fydd y ceisydd yn dymuno parhau â'i apêl mwyach.


**Tabl 2.10 Apeliadau ADY yn ôl canlyniad a math Ebrill 2025 – Mawrth 2026 (gan gynnwys apeliadau a gariwyd drosodd)**

| | Wedi gwrthod cofrestru | Wedi'i gadarnhau'n llawn | Wedi'i gadarnhau'n rhannol | Gorchymyn Cydsynio | Wedi'i wrthod/ ei ddileu | Tynnwyd yn ôl | Yn aros |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A oes gan y plentyn ADY | 0 | 5 | 0 | 9 | 4 | 2 | 6 |
| ALI yn llunio ac yn cynnal CDU | 0 | 4 | 0 | 10 | 3 | 1 | 2 |
| Gwrthod newid CDU | 0 | 1 | 4 | 6 | 3 | 1 | 5 |
| Gwrthod cymryd cyfrifoldeb am CDU | 0 | 4 | 2 | 8 | 1 | 7 | 6 |
| Peidio â pharhau i gynnal | 0 | 1 | 1 | 0 | 2 | 1 | 0 |
| Gwrthod penderfynu ar fater | 0 | 0 | 0 | 4 | 1 | 3 | 3 |
| Angen mewn CDU | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 1 |
| Darpariaeth mewn CDU | 0 | 2 | 0 | 2 | 0 | 1 | 0 |
| Lleoliad mewn CDU | 1 | 7 | 3 | 19 | 4 | 9 | 11 |
| Angen a darpariaeth mewn CDU | 0 | 3 | 4 | 3 | 2 | 0 | 4 |
| Angen a lleoliad mewn CDU | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 3 |
| Darpariaeth a lleoliad mewn CDU | 0 | 9 | 8 | 16 | 3 | 8 | 14 |
| Angen, darpariaeth a lleoliad mewn CDU | 0 | 6 | 8 | 11 | 3 | 5 | 9 |
| DDdY yn Gymraeg | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Heb ei gadarnhau | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **2** | **43** | **31** | **88** | **27** | **39** | **64** |

**Tabl 2.11 Apeliadau ADY yn ôl canlyniad ac awdurdod lleol Ebrill 2025 – Mawrth 2026 (gan gynnwys apeliadau a gariwyd drosodd)**

| | Wedi gwrthod cofrestru | Wedi'i gadarnhau'n llawn | Wedi'i gadarnhau'n rhannol | Gorchymyn Cydsynio | Wedi'i wrthod/ ei ddileu | Tynnwyd yn ôl | Yn aros |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Abertawe** | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 2 | 0 |
| **Blaenau Gwent** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Bro Morgannwg** | 0 | 2 | 3 | 3 | 2 | 2 | 3 |
| **Caerdydd** | 0 | 2 | 4 | 7 | 0 | 2 | 1 |
| **Caerffili** | 1 | 1 | 0 | 1 | 1 | 3 | 1 |
| **Casnewydd** | 0 | 2 | 0 | 11 | 2 | 2 | 3 |
| **Castell-nedd Port Talbot** | 0 | 0 | 0 | 3 | 0 | 0 | 0 |
| **Ceredigion** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 |
| **Conwy** | 0 | 1 | 2 | 1 | 2 | 1 | 1 |
| **Gwynedd** | 1 | 1 | 2 | 3 | 1 | 4 | 5 |
| **Merthyr Tudful** | 0 | 1 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 |
| **Powys** | 0 | 4 | 2 | 3 | 1 | 0 | 5 |
| **Rhondda Cynon Taf** | 0 | 3 | 1 | 10 | 2 | 2 | 5 |
| **Sir Benfro** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Sir Ddinbych** | 0 | 3 | 0 | 2 | 0 | 0 | 1 |
| **Sir Fynwy** | 0 | 0 | 0 | 2 | 0 | 0 | 4 |
| **Sir y Fflint** | 0 | 1 | 0 | 2 | 0 | 0 | 3 |
| **Sir Gaerfyrddin** | 0 | 2 | 0 | 2 | 1 | 2 | 0 |
| **Wrecsam** | 0 | 0 | 1 | 0 | 1 | 0 | 2 |
| **Ynys Môn** | 0 | 1 | 0 | 0 | 1 | 1 | 3 |
| **Cyfanswm** | **2** | **24** | **16** | **51** | **15** | **26** | **42** |


## Siart 2.12 Hawliadau o wahaniaethu honedig ar sail anabledd a ddaeth i law ac a gafodd eu rhyddhau, gan gynnwys y rhai a gariwyd drosodd Ebrill 2025 – Mawrth 2026




## Tabl 2.13 Mathau o hawliadau a ddaeth i law yn ystod Ebrill 2025 – Mawrth 2026

| Math o hawliad | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| **Derbyniadau** | 2 | 5% |
| **Addysg** | 17 | 46% |
| **Gwaharddiadau** | 6 | 16% |
| **Derbyniadau ac addysg** | 2 | 5% |
| **Derbyniadau a gwaharddiadau** | 0 | 0% |
| **Addysg a gwaharddiadau** | 4 | 11% |
| **Derbyniadau, addysg a gwaharddiadau** | 0 | 0% |
| **Heb ei gofnodi** | 6 | 16% |
| **Cyfanswm** | **37** | **100%** |

### Siart 2.14 Hawliadau o wahaniaethu honedig ar sail anabledd yn ôl canlyniad Medi 2025 – Mawrth 2026 gan gynnwys y rhai a gariwyd drosodd




## Data Gwrandawiadau

Rhwng mis Ebrill 2025 a mis Mawrth 2026 cynhaliodd y Tribiwnlys 157 o wrandawiadau, ac roedd 61 ohonynt yn Wrandawiadau Rheoli Achosion. O'r 96 gwrandawiad llawn, cynhaliwyd 94 fel gwrandawiadau ar-lein a chynhaliwyd 2 wrandawiad wyneb yn wyneb. Cynhaliwyd 9 gwrandawiad a 3 Gwrandawiad Rheoli Achos yn Gymraeg.

| Math | Nifer y dyddiau |
|---|---|
| Apêl | 81 |
| Hawliad | 15 |

## Adolygiadau ac apeliadau pellach

Gall partïon wneud ceisiadau am adolygiad o benderfyniad y Tribiwnlys ar sail gyfyngedig a gall partïon hefyd ofyn am ganiatâd y Tribiwnlys i wneud cais i'r Uwch Dribiwnlys os ydynt yn credu bod penderfyniad y Tribiwnlys yn anghywir ar bwynt cyfreithiol.

Dros gyfnod yr adroddiad hwn, gwnaed 16 cais am ganiatâd i apelio, gwrthodwyd 9 ohonynt, adolygwyd 1 ac roedd y ceisiadau eraill yn dal i fynd rhagddynt ar ddiwedd mis Mawrth 2026.

Daeth 1 cais cyfun am ganiatâd ac adolygiad i law yn ystod y cyfnod adrodd ac roedd yn dal i fynd rhagddo ar ddiwedd mis Mawrth 2026.

# Adroddiad Blynyddol Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru


**Y Barnwr Jane McConnell – Llywydd Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru**


## Cyflwyniad

1. Ers cael fy mhenodi'n Llywydd ym mis Hydref 2025, rwyf wedi bod yn gweithio gyda deiliaid swyddi barnwrol (Barnwyr, Aelodau Meddygol ac Aelodau Arbenigol) a'r tîm gweinyddol i adolygu gwaith y Tribiwnlysoedd i sicrhau ei fod yn canolbwyntio ar gleifion ac yn hyrwyddo eu gallu i gael mynediad at gyfiawnder.

2. Mae newidiadau bellach yn dechrau cael eu cyflwyno i'r ffordd rydym yn prosesu ceisiadau/atgyfeiriadau hyd at wrandawiad amserol ac effeithiol. Bu diffyg difrifol o ran staff i weinyddu'r Tribiwnlys am gyfnod estynedig ond mae saith gweithiwr achos newydd wedi cyrraedd ac yng ngwanwyn 2026 mae'r llwythi gwaith wedi dechrau dod yn haws eu rheoli. Fel y gwelwch o'r ystadegau isod, rhaid canmol y staff gweinyddol a'r tîm sy'n eu harwain am weithio'n ddiflino i sicrhau bod y rhan fwyaf o wrandawiadau wedi cael eu cynnal o fewn y terfynau amser statudol gofynnol. Diolch i chi.

3. Darganfuwyd ym mis Rhagfyr 2025 bod angen rhagor o eglurhad ar y cymwysterau oedd yn ofynnol gan Aelodau Meddygol y Tribiwnlys. Arweiniodd hyn at orfod cael deddfwriaeth frys yn y Senedd. Yn sgil cydweithio rhwng yr holl bleidiau gwleidyddol, gweinyddiaeth Llywodraeth Cymru a'r tîm Barnwrol, cafodd y ddeddfwriaeth ei chyflwyno a'i chwblhau'n llwyddiannus o fewn 3 diwrnod. Gyda chefnogaeth deiliaid swyddi barnwrol presennol, llwyddodd y Tribiwnlys i sicrhau nad oedd unrhyw glaf dan anfantais.

4. Mae'n ofynnol i'r holl ddeiliaid swyddi barnwrol gael hyfforddiant gorfodol blynyddol i gynnal eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u galluoedd. Bydd y newidiadau a gyflwynir yn sgil Deddf Iechyd Meddwl 2025 yn rhan ganolog o'r rhaglen hyfforddi wrth iddynt gael eu cyflwyno.

5. Penodwyd Dr Vaughan Williams yn Aelod Meddygol Arweiniol y Tribiwnlys. Am y tro cyntaf, mae'r tribiwnlys hefyd wedi penodi Aelod Arbenigol Arweiniol, sef Mr Jeff Davies. Mae'r ddau yn weithwyr proffesiynol hynod brofiadol ac wedi bod yn aelodau o'r Tribiwnlys ers blynyddoedd lawer. Byddant yn chwarae rhan bwysig yn natblygiad y Tribiwnlys.

6. Rydym wedi recriwtio 13 Aelod Meddygol newydd i ymuno â'r awdurdodaeth. Ar ôl iddynt gael eu hyfforddi'n llawn, byddant yn gwella ein gallu i ddarparu gwrandawiadau wyneb yn wyneb yn amserol ar draws pob rhan o Gymru pan ofynnir amdanynt.

7. Bydd y Tribiwnlys yn parhau i weithio gyda'r Byrddau Iechyd i sicrhau bod lleoliadau priodol a diogel ar gael ar gyfer gwrandawiadau mewn Ysbytai ac Unedau Diogel.

8. Mae'n bwysig bod y Tribiwnlys yn gweithio gyda phawb ledled Cymru sy'n ymwneud â chefnogi a gweithio gydag unigolion sy'n wynebu cyfnodau o iechyd meddwl ansicr. Rhaid i'r penderfyniadau am eu cadw neu eu trin fod yn seiliedig ar dystiolaeth sydd mor ddiweddar a chynhwysfawr â phosibl. Rwyf wedi dechrau cwrdd â grwpiau cynrychioliadol ac unigolion i drafod sut y gellir gwella hyn. Hyd yma, rwyf wedi cwrdd â'r Ysgrifennydd Cabinet cyfrifol yn Llywodraeth Cymru, tîm Polisi Iechyd Meddwl Llywodraeth Cymru, MIND Cymru, Cymdeithas y Gyfraith yng Nghymru a Chymdeithas Frenhinol y Seiciatryddion yng Nghymru. Es i gynhadledd flynyddol Cymdeithas y Cyfreithwyr Iechyd Meddwl ac roeddwn yn falch iawn o gwrdd wyneb yn wyneb â chyfreithwyr allweddol sy'n gweithio yng Nghymru. Roedd Cynhadledd Cymru'r Gyfraith yn gyfle arall i hyrwyddo gwaith Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru.

9. Mae'r Tribiwnlys wedi dechrau cynnal "Fforymau Defnyddwyr" bob chwe mis (cynhaliwyd dau ar-lein ym mis Rhagfyr 2025 a chynhelir dau arall wyneb yn wyneb ac ar-lein ym mis Mehefin 2026). Maent yn agored i unrhyw un sydd â diddordeb yng ngwaith y Tribiwnlys ac maent yn rhoi cyfle i'r Tribiwnlys rannu datblygiadau, newidiadau a thueddiadau. Hefyd, i gael adborth a chlywed pryderon gan Ddefnyddwyr. Os hoffech chi ymuno â chyfarfodydd Fforwm Defnyddwyr yn y dyfodol, cysylltwch â gweinyddiaeth y Tribiwnlys drwy anfon e-bost at MHRT@llyw.cymru a bydd eich manylion yn cael eu hychwanegu at y rhestr ddosbarthu.

10. Hoffwn ddiolch i'r holl ddeiliaid swyddi barnwrol am eu hyblygrwydd a'u hymrwymiad i'r gwaith pwysig yr ydym yn ei wneud yng Nghymru. Mae angen rhoi cydnabyddiaeth arbennig i'r tîm barnwrol cyflogedig, y Barnwr Christine Butcher a'r Barnwr Richard Payne, am eu cefnogaeth dros y misoedd diwethaf wrth i mi ymgyfarwyddo â'm swydd.

11. Edrychaf ymlaen at weithio gyda chi i gyd dros y flwyddyn sydd i ddod i roi mynediad mwyfwy effeithiol i gleifion at y Tribiwnlys.

## Trosolwg o'r Tribiwnlys

### Sail Gyfreithiol

12. Mae Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru yn gorff barnwrol annibynnol a sefydlwyd o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1959 ac sy'n gweithredu o dan ddarpariaethau Deddf Iechyd Meddwl 1983 (fel y'i diwygiwyd). Mae'r Tribiwnlys yn gyfrifol am benderfynu ar geisiadau ac atgyfeiriadau sy'n ymwneud â chleifion sy'n cael eu cadw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, cleifion sy'n destun gorchmynion triniaeth gymunedol a gwarcheidiaeth a chleifion sy'n cael eu rhyddhau'n amodol o'r ysbyty.

### Swyddogaeth

13. Mae'r Tribiwnlys yn fesur diogelu sylweddol i gleifion y mae eu rhyddid wedi cael ei gyfyngu o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl. Mater i'r rhai sy'n credu y dylai claf barhau i gael ei gadw neu barhau i gael triniaeth gymunedol dan oruchwyliaeth yw profi eu hachos, nid mater i'r claf ei wrthbrofi. Felly, mae angen iddynt gyflwyno digon o dystiolaeth i'r tribiwnlys i gefnogi eu hachos. Adroddiadau clinigol a chymdeithasol yw sail y dystiolaeth hon ac mae'r rhain yn cael eu profi ar lafar mewn gwrandawiadau ym mhresenoldeb y claf. Mae'r gweithdrefnau sydd i'w dilyn wedi'u nodi'n glir yn Rheolau Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru 2008.

## Rheolau

14. Mae'r Tribiwnlys yn gweithredu'n unol â'r gweithdrefnau a nodir yn Rheolau Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru 2008 sydd ar gael yn:
https://www.legislation.gov.uk/cy/uksi/2008/2705/introduction/made

15. Pwrpas Rheolau Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru 2008 yw sicrhau bod yr holl achosion sy'n cael eu clywed gan y Tribiwnlys yn cael eu trin yn deg, yn gyfiawn, yn effeithlon ac yn brydlon. Mae'r Rheolau'n ei gwneud yn ofynnol i'r Tribiwnlys sicrhau, cyn belled ag y bo modd, bod pob parti'n gallu cymryd rhan lawn yn y gweithrediadau.

## Proses

16. Mae ceisiadau ac atgyfeiriadau Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru yn perthyn yn fras i dri chategori:

17. **Cleifion dan gyfyngiadau** – troseddwyr sydd ag anhwylder meddwl yw'r rhain sy'n cael eu cadw mewn ysbyty i gael triniaeth ac sy'n destun rheolaethau arbennig gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder oherwydd lefel y risg y maent yn ei hachosi. Maes o law, mae'n bosibl y cânt eu rhyddhau'n amodol fel rhan o'u dychweliad graddol i'r gymuned. Mae gan Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru awdurdodaeth i wneud penderfyniadau ynghylch rhyddhau cleifion dan gyfyngiadau yn llwyr ac yn amodol, yn ogystal ag amrywio'r amodau sydd arnynt.

18. **Cleifion digyfyngiad** – cleifion nad ydynt yn droseddwyr yw'r rhain, sy'n cael eu cadw yn yr ysbyty naill ai o dan Adran 2 neu Adran 3 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl, ac sy'n dioddef o anhwylder meddwl o natur neu ddifrifoldeb sy'n cyfiawnhau eu cadw. Defnyddir Adran 2 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl pan fo angen asesiad, neu asesiad wedi'i ddilyn gan driniaeth feddygol, am gyfnod cyfyngedig o leiaf, a defnyddir Adran 3 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl pan fo angen triniaeth. Tasg y Tribiwnlys yw penderfynu a yw'r meini prawf sy'n cyfiawnhau cadw yn parhau i  ael eu bodloni ar adeg y gwrandawiad.

19. **Cleifion cymunedol** – nid yw'r cleifion hyn yn cael eu cadw ond gallant fod yn destun Gorchymyn Triniaeth Gymunedol neu orchymyn gwarcheidiaeth. Tasg y Tribiwnlys yw penderfynu a yw'r meini prawf sy'n cyfiawnhau'r gorchmynion hyn yn parhau i gael eu bodloni ar adeg y gwrandawiad.

20. Mae gwybodaeth a chanllawiau llawn am y Tribiwnlys a'i weithdrefnau ar gael ar ei wefan: https://tribiwnlysadolyguiechydmeddwl.llyw.cymru/canllawiau-ffurflenni

## Strwythur y Tribiwnlys

**Llywydd**
Y Barnwr Jane McConnell

**Barnwyr Tribiwnlys Cyflogedig**
Y Barnwr Tribiwnlys Christine Butcher
Y Barnwr Tribiwnlys Richard Payne

**Aelod Meddygol Arweiniol**
Dr Vaughan Williams

**Aelod Arbenigol Arweiniol**
Mr Jeff Davies

27 Barnwr Tribiwnlys

41 Aelod Meddygol

38 Aelod Arbenigol

## Blaenoriaethau Busnes ar gyfer 2026-27

21. Mae'n bwysig bod Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru yn parhau i ddatblygu er mwyn darparu'r gwasanaeth gorau posibl i gleifion. Mae'r adran hon yn ymwneud â sut y bydd y Tribiwnlys yn datblygu gwydnwch drwy ganolbwyntio ar flaenoriaethau a'n hymrwymiad i'n defnyddwyr.

22. Dyma ein blaenoriaethau dros y flwyddyn nesaf:

- Gwella mynediad effeithiol at gyfiawnder i gleifion
- Sefydlu perthnasoedd â rhanddeiliaid
- Hyrwyddo gwybodaeth am rôl a gwaith y Tribiwnlys
- Darparu hyfforddiant diweddaru barnwrol
- Darparu gwrandawiadau hyblyg wyneb yn wyneb neu ar-lein yn unol â chais y partïon
- Darparu gwrandawiadau hyblyg yn Gymraeg ac yn Saesneg yn unol â chais y partïon
- Adolygu'r cynllun arfarnu
- Sicrhau bod ystafelloedd gwrandawiadau priodol a diogel ar gael mewn ysbytai a lleoliadau cymunedol
- Cynllunio a chyflwyno cyfarfodydd Fforwm Defnyddwyr ledled Cymru ac ar-lein
- Adolygu gweinyddiaeth y Tribiwnlys a'i brosesau i ddarparu penderfyniadau teg, cyfiawn ac amserol
- Paratoi i symud i unrhyw strwythur Tribiwnlysoedd newydd a gyflwynir fel rhan o'r gwaith o ddiwygio Tribiwnlysoedd yng Nghymru.

# Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru

## Ystadegau Achosion a Dangosyddion Perfformiad Allweddol

### Niferoedd ac Ystadegau

Mae blwyddyn y tribiwnlys yn rhedeg o 1 Ebrill i 31 Mawrth.

Mae'r ystadegau canlynol yn cael eu cywain:

- Nifer y ceisiadau a'r atgyfeiriadau a ddaeth i law
- Nifer y ffeiliau achos a ddeilliodd o'r ceisiadau a'r atgyfeiriadau hyn
- Nifer y gwrandawiadau a gynhaliwyd
- Nifer y ffeiliau achos a gwblhawyd yn y gwrandawiad cyntaf
- Nifer y ffeiliau achos nad aethant ymlaen i wrandawiad a'r rhesymau pam.

### Ceisiadau ac atgyfeiriadau a ddaeth i law, a'u ffeiliau achos

Rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026, cafodd Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru 1,869 o geisiadau neu atgyfeiriadau am wrandawiad Tribiwnlys.

Gall cais neu atgyfeiriad arwain at drefnu nifer o wrandawiadau, gan fod cais yn gallu cael ei ohirio am amrywiaeth o resymau, ac ar fwy nag un achlysur. Felly, bydd nifer o ffeiliau achos gwahanol yn cael eu creu.

O blith y ceisiadau a'r atgyfeiriadau a ddaeth i law rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026, cafodd 2,263 o achosion eu creu.

Ni chafodd yr holl ffeiliau achos hynny eu cau erbyn 31 Mawrth 2026.

Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae 190 o achosion eto i'w gwrando yn y Flwyddyn Ariannol nesaf (1 Ebrill 2026 i 31 Mawrth 2027).

## Yr holl ffeiliau achos a gafodd eu creu, a'u canlyniad

Mae'r tabl isod yn dangos yr holl achosion a gafodd eu creu o geisiadau/atgyfeiriadau a ddaeth i law yn 2025/2026, a chanlyniad yr achosion hynny.

Os nad oes esboniad o statws wedi'i restru isod, bydd ar gael ar ein gwefan drwy ddilyn y ddolen ganlynol
https://tribiwnlysadolyguiechydmeddwl.llyw.cymru/sites/mentalhealthreview/files/2019-06/170420-mhrtw-16-list-of-words-cy.pdf

### Tabl 1

| Canlyniad yr achos | Nifer yr achosion |
|---|---|
| **Rhyddhad Llwyr** | 2 |
| **Wedi'i Ohirio ar ôl Cychwyn** | 159 |
| **Rhyddhad Amodol** | 16 |
| **Wedi Marw**<br>(y claf wedi marw cyn y gallai'r achos fynd yn ei flaen) | 4 |
| **Rhyddhad Amodol Wedi'i Ohirio** | 0 |
| **Rhyddhad Wedi'i Ohirio** | 13 |
| **Wedi'i Ryddhau** | 48 |
| **Anffurfiol**<br>(y claf wedi cael ei ryddhau gan yr awdurdod cadw) | 533 |
| **Heb ei Ryddhau** | 684 |
| **Agored**<br>(nid yw'r achos wedi'i glywed eto) | 190 |
| **Wedi'i Ohirio** | 245 |
| **Cais Anghymwys**<br>(ceisiadau neu atgyfeiriadau a wnaed yn anghywir i Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru) | 38 |
| **Trosglwyddwyd o'r Ardal**<br>(y claf wedi'i drosglwyddo o Gymru cyn symud ymlaen i wrandawiad) | 32 |
| **Wedi'i Dynnu'n ôl**<br>(y cais wedi'i dynnu'n ôl gan y claf cyn diwrnod y gwrandawiad) | 247 |
| **Wedi'i Dynnu'n ôl ar y Diwrnod**<br>(y cais wedi'i dynnu'n ôl gan y claf ar ôl i'r gwrandawiad ddechrau) | 52 |
| **Cyfanswm** | **2,263** |

### Ceisiadau ac atgyfeiriadau a ddaeth i law na chafodd dyddiad gwrandawiad ei drefnu ar eu cyfer, a'r rhesymau pam

O'r 2,263 achos a nodir yn Nhabl 1 uchod, ni symudodd cyfanswm o 148 o Geisiadau ac Atgyfeiriadau ymlaen i gael dyddiad gwrandawiad wedi'i drefnu. Mae'r tabl isod yn rhoi rhagor o wybodaeth am y rhesymau pam.

**Tabl 2**

| Rheswm dros beidio â symud ymlaen i wrandawiad | Nifer yr achosion |
|---|---|
| **Wedi Marw**<br>(y claf wedi marw) | 4 |
| **Anffurfiol**<br>(y claf wedi cael ei ryddhau gan yr awdurdod cadw) | 78 |
| **Cais Anghymwys**<br>(ceisiadau neu atgyfeiriadau a wnaed yn anghywir i Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru) | 30 |
| **Trosglwyddwyd o'r Ardal**<br>(y claf wedi'i drosglwyddo o Gymru cyn symud ymlaen i wrandawiad) | 11 |
| **Wedi'i Dynnu'n ôl**<br>(y claf wedi tynnu'r cais yn ôl) | 25 |
| **Cyfanswm** | **148** |

### Gwrandawiadau a drefnwyd

Yn ystod y flwyddyn ariannol hon, trefnwyd cyfanswm o 2074 o wrandawiadau. Nid yw'r gwrandawiadau a drefnwyd yn 2025/2026 i gyd yn deillio o geisiadau ac atgyfeiriadau a ddaeth i law yn yr un flwyddyn ac felly maent yn cael eu hadrodd ar wahân.

### Gwrandawiadau a drefnwyd ac a symudodd ymlaen i ganlyniad

Mae'r tabl isod yn dangos dadansoddiad o'r gwrandawiadau a gynhaliwyd yn 2025/2026 a symudodd ymlaen i ganlyniad. At ddibenion yr adroddiad hwn, cymerir bod canlyniad yn golygu bod y claf naill ai wedi cael ei ryddhau (amrywiad ar hynny) neu heb gael ei ryddhau neu wedi tynnu ei gais yn ôl yn ystod y gwrandawiad.

**Tabl 3**

| Mis | Cyfyngedig | Cymuned | Digyfyngiad | Cyfanswm (mis) |
|---|---|---|---|---|
| **Ebrill** | 14 | 9 | 75 | **98** |
| **Mai** | 13 | 8 | 73 | **94** |
| **Mehefin** | 8 | 10 | 78 | **96** |
| **Gorffennaf** | 16 | 9 | 91 | **116** |
| **Awst** | 12 | 4 | 74 | **90** |
| **Medi** | 13 | 6 | 91 | **110** |
| **Hydref** | 12 | 6 | 84 | **102** |
| **Tachwedd** | 5 | 5 | 93 | **103** |
| **Rhagfyr** | 15 | 2 | 55 | **72** |
| **Ionawr** | 15 | 7 | 68 | **90** |
| **Chwefror** | 10 | 5 | 75 | **90** |
| **Mawrth** | 10 | 7 | 85 | **102** |
| **Cyfanswm (Blwyddyn)** | **143** | **78** | **942** | **1,163** |

O blith y gwrandawiadau uchod, arweiniodd 77 at ryddhau.

Mewn 684 o wrandawiadau, ni chafodd y claf ei ryddhau.

Cafodd 52 o geisiadau eu tynnu'n ôl ar y diwrnod ar gais y claf.

O blith y gwrandawiadau digyfyngiad a gynhaliwyd, roedd 296 yn geisiadau adran 2/atgyfeiriadau gan Weinidogion Cymru.

### Ceisiadau ac atgyfeiriadau a gafodd eu cwblhau yn y gwrandawiad cyntaf

Cyfanswm nifer yr achosion a symudodd ymlaen i ganlyniad yn y gwrandawiad cyntaf oedd 708.

### Gwrandawiadau a drefnwyd ond na wnaethant symud ymlaen, a'r rhesymau pam

Mae'r tabl isod yn rhoi gwybodaeth am y rhesymau pam na symudodd gwrandawiadau ymlaen i ganlyniad terfynol.

Byddai'r holl achosion a ohiriwyd isod wedi cael eu haildrefnu a'u clywed yn ddiweddarach.

Tabl 4

| Rheswm dros beidio â symud ymlaen i wrandawiad | Nifer yr achosion |
|---|---|
| **Anffurfiol**<br>(y claf wedi cael ei ryddhau gan yr awdurdod cadw cyn symud ymlaen i wrandawiad) | 478 |
| **Wedi'i Dynnu'n ôl**<br>(y cais wedi'i dynnu'n ôl gan y claf cyn symud ymlaen i wrandawiad) | 265 |
| **Wedi Marw**<br>(y claf wedi marw cyn symud ymlaen i wrandawiad) | 0 |
| **Wedi'i Ohirio**<br>(ceisiadau neu atgyfeiriadau a gafodd eu gohirio cyn symud ymlaen i wrandawiad) | 291 |
| **Cais Anghymwys**<br>(ceisiadau neu atgyfeiriadau a wnaed yn anghywir i Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru) | 9 |
| **Trosglwyddwyd o'r Ardal**<br>(y claf wedi'i drosglwyddo o Gymru cyn symud ymlaen i wrandawiad) | 25 |
| **Cyfanswm** | **1,068** |

Yn ogystal â'r tablau uchod, gohiriwyd 159 o wrandawiadau (i'w gwrando'n ddiweddarach) cyn symud ymlaen i benderfyniad terfynol.

## Apeliadau

Nid oes darpariaeth statudol i Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru adolygu penderfyniad, dim ond i benderfynu a ddylid rhoi caniatâd i apelio i'r Uwch Dribiwnlys. Gall partïon ofyn am ganiatâd gan y Llywydd i apelio yn erbyn penderfyniad tribiwnlys i'r Uwch Dribiwnlys ar sail gwall cyfreithiol. Os bydd y Llywydd yn gwrthod caniatâd i apelio, gall y parti wneud cais yn uniongyrchol i'r Uwch Dribiwnlys am ganiatâd i apelio.

Dros gyfnod yr adroddiad hwn, gwnaed dau gais i'r Llywydd am ganiatâd i apelio i'r Uwch Dribiwnlys. Caniatawyd un apêl a gwrthodwyd un.

## Cwynion

Ni chafodd y Tribiwnlys unrhyw gwynion ffurfiol yn ystod y cyfnod hwn.

## Targedau Statudol ac Arfer Gorau

Mae gan Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru bedwar terfyn amser statudol i'w bodloni.

## Rhestru achosion Adran 2 o fewn 7 diwrnod iddynt ddod i law

Rhaid rhestru pob cais neu atgyfeiriad adran 2 o fewn saith diwrnod i'r dyddiad pan maent yn dod i law. Os caiff y gwrandawiad ei ohirio wedi hynny, bydd y dyddiad rhestru statudol yn cael ei godi; fodd bynnag, rhaid i'r achos gael ei glywed cyn i'r gorchymyn cadw ddod i ben. Os yw'r terfyn amser ar ŵyl banc, ystyrir mai'r diwrnod gwaith nesaf yw'r terfyn amser.

Mewn amgylchiadau eithriadol, caiff unrhyw Barti i'r gwrandawiad Tribiwnlys ofyn am estyniad i ddyddiad rhestru gwrandawiad adran 2. Rhaid iddynt gyflwyno rhesymau digonol dros eu cais, a fydd wedyn yn cael ei ystyried gan y Llywydd neu un o'i Dirprwyon. Os cytunir ar y rhesymau, bydd y gwrandawiad wedyn yn cael ei restru ar yr 8fed diwrnod ar ôl i'r cais/atgyfeiriad ddod i law.

Daeth 560 o geisiadau/atgyfeiriadau adran 2 i law a chawsant eu rhestru ar gyfer y gwrandawiad cyntaf.

Cafodd 442 o wrandawiadau eu rhestru o fewn yr amserlen statudol.

Cafodd 31 o'r gwrandawiadau eu rhestru ar ôl 7 diwrnod oherwydd Gŵyl y Banc.

Cafodd 87 o'r gwrandawiadau eu rhestru ar yr 8fed diwrnod neu ar ôl hynny gyda chaniatâd y Llywydd neu farnwyr cyflogedig.

## Rhestru atgyfeiriadau adalw cyfyngedig rhwng 5 ac 8 wythnos

Rhaid rhestru pob Atgyfeiriad Adalw gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder o fewn pump i wyth wythnos i'r dyddiad pan maent yn dod i law. Os caiff y gwrandawiad ei ohirio wedi hynny, bydd y dyddiad rhestru statudol yn cael ei godi. Os yw'r terfyn amser ar gyfer rhestru yn cyd-daro â gŵyl banc, ystyrir mai'r diwrnod gwaith nesaf yw'r dyddiad olaf posibl.

Mewn amgylchiadau eithriadol, caiff unrhyw Barti i'r gwrandawiad Tribiwnlys ofyn am estyniad i ddyddiad rhestru Atgyfeiriad Adalw. Rhaid iddynt gyflwyno rhesymau digonol dros eu cais, a fydd wedyn yn cael ei ystyried gan y Llywydd neu un o'i Dirprwyon. Os cytunir ar y rhesymau, bydd y gwrandawiad yn cael ei restru ar y dyddiad nesaf sydd ar gael.

Dim ond aelod o'r Panel Cleifion Cyfyngedig gaiff gadeirio gwrandawiad am Atgyfeiriad Adalw. Mewn rhai achosion, efallai na fydd aelod o'r Panel Cleifion Cyfyngedig ar gael i gadeirio'r gwrandawiad o fewn yr amserlen statudol. Gwneir pob ymdrech i sicrhau aelod o'r Panel, ond os nad yw hyn yn bosibl gellir rhestru'r gwrandawiad y tu hwnt i'r terfyn amser hefyd.

Daeth 3 Atgyfeiriad Adalw gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder i law ac aethpwyd ymlaen i'w rhestru ar gyfer y gwrandawiad cyntaf.

Cafodd 3 gwrandawiad eu rhestru o fewn yr amserlen statudol.

Dyroddi penderfyniadau Adran 2 o fewn 3 diwrnod gwaith

Dyroddwyd 78% o benderfyniadau adran 2 o fewn 3 diwrnod gwaith.

O’r 22% o benderfyniadau a ddyroddwyd y tu allan i’r amserlen, daeth 12% ohonynt i law ar gyfer eu dyroddi ar ôl y terfyn amser. Daeth y 10% arall i law mewn pryd ond fe’u dyroddwyd o leiaf un diwrnod ar ôl y terfyn amser.

Dyroddi penderfyniadau ar gyfer pob gorchymyn cadw arall o fewn 7 diwrnod calendr

Dyroddwyd 84% o’r holl benderfyniadau eraill ar gyfer gorchymyn cadw o fewn 7 diwrnod calendr.

O’r 16% o benderfyniadau a ddyroddwyd y tu allan i’r amserlen, daeth 9% ohonynt i law ar gyfer eu dyroddi ar ôl y terfyn amser. Daeth y 7% arall i law mewn pryd ond fe’u dyroddwyd o leiaf un diwrnod ar ôl y terfyn amser.

## Targedau Arfer Gorau

Mae gan Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru 3 tharged Arfer Gorau i’w cyrraedd.

Cydnabod pob achos o fewn 3 diwrnod gwaith iddynt ddod i law

Cafodd 85% o’r holl geisiadau ac atgyfeiriadau a ddaeth i law eu cydnabod o fewn y targed arfer gorau. Roedd hyn oherwydd diffyg adnoddau o fewn yr ysgrifenyddiaeth.

Rhestru achosion heb gyfyngiadau o fewn 8 wythnos

Cafodd 88% o’r holl achosion heb gyfyngiadau eu rhestru o fewn y targed arfer gorau.

Mae’n bosibl bod rhai achosion wedi’u rhestru 1 neu 2 ddiwrnod y tu hwnt i’r terfyn amser am resymau amrywiol, gan gynnwys:

- Aelod o’r tîm gofal oedd yn gorfod bod yn bresennol yn y gwrandawiad ddim ar gael o fewn yr amserlenni a ddarparwyd.
- Cynrychiolydd cyfreithiol y claf ddim ar gael o fewn yr amserlenni a ddarparwyd.
- Aelodau’r panel ddim ar gael i wrando’r achos mewn gwrandawiad.

## Rhestru achosion cyfyngedig o fewn 14 wythnos

Cafodd 94% o'r holl achosion cyfyngedig eu rhestru o fewn y targed arfer gorau.

Mae'n bosibl bod rhai achosion wedi'u rhestru 1 neu 2 ddiwrnod y tu hwnt i'r terfyn amser am resymau eraill, gan gynnwys:

- Prinder barnwyr o'r Panel Cleifion Cyfyngedig
- Aelod o'r tîm gofal oedd yn gorfod bod yn bresennol yn y gwrandawiad ddim ar gael o fewn yr amserlenni a ddarparwyd
- Cynrychiolydd cyfreithiol y claf ddim ar gael o fewn yr amserlenni a ddarparwyd
- Aelodau'r panel ddim ar gael i wrando'r achos mewn gwrandawiad.

# Anecs 5

Y Tribiwnlys Eiddo Preswyl
Residential Property Tribunal

# Adroddiad Blynyddol Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru

**Y Barnwr Trefor Lloyd – Llywydd Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru**

## Cyflwyniad

1. Mae'n bleser gennyf gyflwyno fy ail adroddiad blynyddol ar gyfer Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru. Mae'r tribiwnlys wedi parhau i gael amrywiaeth eang o geisiadau ac i ymdrin â nhw yn ystod y 12 mis diwethaf. O blith y cyfanswm o 198 o geisiadau, roedd 97 gerbron y Tribiwnlys Eiddo Preswyl, 70 yn achosion Prisio Lesddaliadau a 31 yn achosion Pwyllgor Asesu Rhenti.

2. Bydd rhoi rhai o ddarpariaethau'r Ddeddf Diogelwch Adeiladau ar waith, sydd ar fin digwydd, yn arwain at wrando ar geisiadau ychwanegol a newydd gerbron y tribiwnlys ac mae camau'n cael eu cymryd i benodi aelodau-briswyr arbenigol (diogelwch adeiladau) yn ogystal â rhoi hyfforddiant pellach i aelodau presennol.

3. Soniais yn fy adroddiad diwethaf fy mod wedi dechrau ar ymarferion y Comisiwn Penodiadau Barnwrol i benodi Is-lywydd ac aelodau-briswyr newydd. Mae'r broses bellach wedi'i chwblhau ac roeddwn yn falch iawn o groesawu Kelly Byrne yn Is-lywydd ym mis Hydref 2025. Mae Kelly yn ymarferydd profiadol sy'n gweithio yn ne Cymru a chyn iddi ddod yn Is-lywydd roedd Kelly wedi bod yn aelod cyfreithiol ers 2021. Edrychaf ymlaen at weithio gyda hi yn y tribiwnlys am flynyddoedd lawer i ddod.

4. Mewn perthynas â'r ymarferiad priswyr, roeddwn yn falch iawn o groesawu tri aelod newydd, sef Dr Jack Rostron, Wyn Jones a Morgan Williams. Maent i gyd yn briswyr profiadol iawn. Roedd Jack yn arfer bod yn gadeirydd cyfreithiol gyda'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl ac yn aelod-brisiwr yn Lloegr ac mae Wyn a Morgan ill dau'n gadeiryddion-briswyr yn Lloegr. Maent i gyd wedi ymgymryd â'u hyfforddiant cynefino ac wedi eistedd mewn achosion gan ddod yn aelodau gwerthfawr o'r tribiwnlys ers eu penodi.

5. Ar wahân i'r newidiadau uchod, mae aelodaeth y tribiwnlys yr un fath â'r llynedd.

6. Fel bob amser, rwy'n ddiolchgar am gymorth a chefnogaeth holl aelodau'r tribiwnlys ac i staff y tribiwnlys am sicrhau bod y tribiwnlys yn rhedeg yn esmwyth o ddydd i ddydd.

## Trosolwg o'r Tribiwnlys

### Sail Gyfreithiol

7. Mae Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru yn dribiwnlys annibynnol sydd wedi cael ei sefydlu i ddatrys anghydfodau sy'n ymwneud ag eiddo lesddaliadol ac eiddo rhent preifat.

8. Sefydlwyd Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru o dan Ddeddf Tai 2004 fel y sefydliad ymbarél sy'n gyfrifol am Bwyllgorau Asesu Rhenti, Tribiwnlysoedd Prisio Lesddaliadau a Thribiwnlysoedd Eiddo Preswyl.

## Swyddogaeth

9. Mae'r Pwyllgorau Asesu Rhenti yn ymdrin ag anghydfodau sy'n ymwneud â'r pethau canlynol:

   - Rhent – rhenti teg, a
   - Rhenti'r farchnad – dan denantiaethau sicr a thenantiaethau byrddaliadol sicr.

10. Mae'r Tribiwnlysoedd Prisio Lesddaliadau yn ymdrin ag anghydfodau sy'n ymwneud â'r pethau canlynol:

    - Anghydfodau sy'n ymwneud â lesddaliadau
    - Taliadau gwasanaeth lesddaliadau
    - Rhyddfreinio lesddaliadau ac ymestyn lesoedd ar gyfer tai a fflatiau, a
    - Cheisiadau cymdeithasau tenantiaid am gydnabyddiaeth.

11. Mae'r Tribiwnlysoedd Eiddo Preswyl yn ymdrin ag anghydfodau sy'n ymwneud â'r pethau canlynol:

    - Gorchmynion rheoli anheddau gwag
    - Gorchmynion rheoli interim a therfynol
    - Trwyddedu tai amlfeddiannaeth a thrwyddedu dethol ar eiddo preswyl arall
    - System mesur iechyd a diogelwch ar gyfer tai
    - Cartrefi mewn parciau
    - Safleoedd sipsiwn a theithwyr awdurdodau lleol, a
    - Thrwyddedu o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014, Rhentu Doeth Cymru.

## Rheolau

12. Mae awdurdodaeth Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru wedi'i nodi yn y ddeddfwriaeth ganlynol.

13. Pwyllgorau Asesu Rhenti:

    - Deddf Rhenti 1977
    - Deddf Tai 1988
    - Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, a
    - Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016.

14. Tribiwnlysoedd Prisio Lesddaliadau:

    - Deddf Landlord a Thenant 1985
    - Deddf Landlord a Thenant 1987
    - Deddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad 1967
    - Deddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol 1993, a
    - Deddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002.

15. Tribiwnlysoedd Eiddo Preswyl:

- Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013
- Deddf Tai 2004, a
- Deddf Tai (Cymru) 2014.

16. Mae'r rheoliadau sy'n llywodraethu gweithdrefnau'r tribiwnlys wedi'u cynnwys yn y ddeddfwriaeth ganlynol:

- Rheoliadau Pwyllgorau Asesu Rhenti (Cymru a Lloegr) 1971
- Rheoliadau Tribiwnlysoedd Prisio Lesddaliadau (Gweithdrefn) (Cymru) 2004
- Rheoliadau Gweithdrefnau a Ffioedd Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Cymru) 2016, a
- Rheoliadau Cartrefi Symudol (Rheolau Safle) (Cymru) 2014.

## Proses

17. I wneud cais neu apêl, rhaid i chi lenwi ac anfon y ffurflen gais berthnasol at Dribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru. Codir ffi ymgeisio a/neu ffi gwrandawiad am rai mathau o geisiadau y mae Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru yn ymdrin â nhw.


18. Cyn pob gwrandawiad Tribiwnlys bron, bydd panel y Tribiwnlys yn cynnal archwiliad o'r eiddo sy'n ymwneud â'r cais. Bydd angen i'r Tribiwnlys ymweld â'r eiddo i ystyried ei stad a'i gyflwr neu unrhyw agweddau ffisegol a fydd yn ei helpu i ddod i benderfyniad.

19. Mewn gwrandawiad tribiwnlys, mae panel y Tribiwnlys fel arfer yn cynnwys cadeirydd sydd â chymwysterau cyfreithiol, 1 aelod proffesiynol, ac 1 aelod lleyg. Fel arfer, cynhelir gwrandawiadau tribiwnlys yn gyhoeddus a chânt eu cynnal yn agos at yr eiddo dan sylw.

20. Bydd y Tribiwnlys yn cyhoeddi ei benderfyniadau ar wefan Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru. Gellir apelio i'r Uwch Dribiwnlys yn erbyn penderfyniadau Pwyllgorau Asesu Rhenti, Tribiwnlysoedd Prisio Lesddaliadau a Thribiwnlysoedd Eiddo Preswyl ar sail gyfyngedig. Rhaid cael caniatâd i apelio i'r Uwch Dribiwnlys yn gyntaf gan Dribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru ar gyfer penderfyniadau a wneir gan Dribiwnlysoedd Prisio Lesddaliadau a Thribiwnlysoedd Eiddo Preswyl.

21. Mae gwybodaeth a chanllawiau llawn am y Tribiwnlys a'i weithdrefnau ar gael ar ei wefan: https://tribiwnlyseiddopreswyl.llyw.cymru/canllawiau

## Strwythur y Tribiwnlys



## Blaenoriaethau busnes ar gyfer 2026-27

22. Mae'n bwysig bod y Tribiwnlys yn parhau i ddatblygu er mwyn darparu'r gwasanaeth gorau posibl i'n defnyddwyr. Mae'r adran hon yn ymwneud â sut y bydd y Tribiwnlys yn adeiladu ar ei gyflawniadau drwy ganolbwyntio ar flaenoriaethau busnes a'n hymrwymiad i'n defnyddwyr.

23. Dyma ein blaenoriaethau dros y flwyddyn nesaf:

    - Parhau i sicrhau bod llywydd y tribiwnlys yn ymateb i ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru sy'n effeithio ar waith Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru
    - Parhau i fonitro a diweddaru gwefan Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru
    - Darparu gwasanaeth effeithiol ac effeithlon, gan fodloni dangosyddion perfformiad allweddol
    - Trefnu cynhadledd hyfforddi flynyddol ar gyfer aelodau'r tribiwnlys, gan nodi ac ymateb i anghenion hyfforddi, gan gynnwys hyfforddiant ar ddeddfwriaeth newydd
    - Nodi a chynllunio arfarniad o aelodau'r tribiwnlys.

# Y Tribiwnlys Eiddo Preswyl yng Nghymru

## Ystadegau Achosion a Dangosyddion Perfformiad Allweddol

### Niferoedd ac Ystadegau

Mae blwyddyn Tribiwnlys yn rhedeg o fis Ebrill i fis Mawrth.

Mae'r ystadegau canlynol yn cael eu cywain:


- nifer y ceisiadau a ddaeth i law ac a gofrestrwyd
- y math o geisiadau a ddaeth i law ac a gofrestrwyd
- nifer y ceisiadau a gwblhawyd yn derfynol
- canlyniad y ceisiadau.

2.1 **Nifer y Ceisiadau a Ddaeth i Law ac a Gofrestrwyd 2025-26**

Yn ystod y flwyddyn rhwng mis Ebrill 2025 a mis Mawrth 2026, cafodd y tribiwnlys gyfanswm o 198 o geisiadau. Fe wnaeth y Tribiwnlys hefyd gario 37 o geisiadau drosodd o 2024-2025. Cofrestrodd y tribiwnlys bob un o'r 198 o geisiadau a ddaeth i law yn ystod 2025-2026.

Mae'r siart isod yn dangos y niferoedd ym mhob awdurdodaeth tribiwnlys a ddaeth i law ac a gofrestrwyd yn 2025-2026 a'r ceisiadau a gariwyd drosodd o 2024-2025.

**Siart 2.1 Nifer y ceisiadau a ddaeth i law ac a gofrestrwyd 2025-26**



2.2 **Nifer y Ceisiadau a Gofrestrwyd yn 2025-2026 a'r Math o Gais**

Tribiwnlysoedd Prisio Lesddaliadau – ymdrin â cheisiadau i apelio yn erbyn anghydfodau sy'n ymwneud â lesddaliadau, taliadau gwasanaeth lesddaliadau, rhyddfreinio lesddaliadau ac ymestyn lesoedd ar gyfer tai a fflatiau, a cheisiadau cymdeithasau tenantiaid am gydnabyddiaeth. Mae'r tabl isod yn rhoi data ar bob cais a ddaeth i law ym mhob awdurdodaeth tribiwnlys.

| Apeliadau a Gofrestrwyd yn ôl Math | 2025-26 |
|---|---|
| **Anghydfodau yn ymwneud â Lesddaliadau** | |
| Pennod 1, Deddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002 – Hawl i Reoli | |
| Atodlen 11, Deddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002 – Pennu Atebolrwydd i Dalu neu Amrywio Tâl Gweinyddu | 2 |
| Adran 168 (4), Deddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002 – Torri Cyfamod neu Amod mewn Les | 5 |
| Pridiannau ystadau – rhwymedigaeth i dalu | |
| Adran 20 C, Deddf Landlord a Thenant 1985 – Adennill Costau | |
| Rhan IV, Deddf Landlord a Thenant 1985 – Amrywio Les(oedd) | 1 |
| Adran 24, Deddf Landlord a Thenant 1985 – Penodi Rheolwr | 4 |
| | |
| Adran 27 A, Deddf Landlord a Thenant 1985 – Taliadau Gwasanaeth | 31 |
| Adran 20 ZA, Deddf Landlord a Thenant 1985 – Gweinyddu'r holl Ofynion Ymgynghori neu unrhyw rai ohonynt | 14 |
| **Rhyddfreinio Lesddaliadau** | |
| Adran 21(1)(ba), Deddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad 1967 – Gorchymyn Costau Rhesymol | |
| Adran 21(1)(a), Deddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad 1967 – Pennu Prisiau Taladwy | 2 |
| Deddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol 1993 – adnewyddu lesddaliadau | 4 |
| Deddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol 1993 – Landlord Coll | 2 |
| Deddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol 1993 – Costau Rhesymol | 1 |
| Deddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol 1993 – Rhyddfreinio | |
| Deddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol 1993 – Rhyddfreinio ar y Cyd | 1 |
| | |

| Apeliadau a Gofrestrwyd yn ôl Math | 2025-26 |
|---|---|
| Adran 29, Deddf Landlord a Thenant 1985 – Cydnabod Cymdeithas Tenantiaid | |
| | |
| Adran 21, Deddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol 1993 – Telerau a Rhent Tir | |
| Hepgor ffioedd | |
| Adran 15, Deddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad 1967 – Adolygu Rhent Tir | 3 |
| **Cyfanswm** | **70** |

**Pwyllgorau Asesu Rhenti** – ymdrin â cheisiadau i apelio rhenti – rhenti teg, atgyfeiriadau a wneir gan y swyddfa renti a rhenti'r farchnad – dan denantiaethau sicr a thenantiaethau byrddaliadol sicr. Mae'r tabl isod yn rhoi data ar bob apêl ddaeth i law ym mhob awdurdodaeth tribiwnlys.

| Apeliadau a Gofrestrwyd yn ôl Math | 2025-26 |
|---|---|
| Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 | 24 |
| Rhenti Teg – Atgyfeiriadau gan y Swyddog Rhenti | 6 |
| **Cyfanswm** | **30** |

**Tribiwnlysoedd Eiddo Preswyl** – ymdrin â cheisiadau ynghylch gorchmynion rheoli anheddau gwag, gorchmynion rheoli interim a therfynol, trwyddedu, systemau mesur iechyd a diogelwch ar gyfer tai, cartrefi symudol a safleoedd sipsiwn a theithwyr awdurdodau lleol. Mae'r tabl isod yn rhoi data ar bob apêl ddaeth i law ym mhob awdurdodaeth tribiwnlys.

| Apeliadau a Gofrestrwyd yn ôl Math | 2025-26 |
|---|---|
| **Gorchmynion Rheoli** | |
| Gorchmynion Rheoli | |
| Gorchmynion Rheoli Anheddau Gwag | |
| Gorchmynion Ad-dalu Rhent/Atal Rhent | 20 |
| Esemptiad dros dro | |
| Gorlenwi | |
| Penderfyniadau ynghylch Tai Amlfeddiannaeth | 16 |
| Deddf Tai 2004 – Adran 27 – Gwrthod Dyfarnu Trwydded | 2 |
| Hysbysiadau gwella/gorchmynion gwahardd | 6 |
| Adennill Treuliau gan Awdurdodau Lleol | |


| Apeliadau a Gofrestrwyd yn ôl Math | 2025-26 |
|---|---|
| **Cartrefi Symudol – Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013** | |
| Hepgor ffioedd | |
| Adran 7(4)(b) – Trwydded Safle – penderfyniad i ddyroddi | |
| Adran 12(2) – Trwydded Safle – penderfyniad i osod amodau | 2 |
| Adran 14(1) – amrywio neu wrthod amod trwydded gan awdurdod lleol | |
| Adrannau 17(2) a 23(1) – Hysbysiad cydymffurfio gan awdurdod lleol | |
| Adrannau 21(9) a 23(1) – Camau brys gan yr awdurdod lleol | |
| Adrannau 22(7) a 23(1) – gorchymyn awdurdod lleol am dreuliau | |
| Adran 28(2) – Nid yw'r sawl sy'n rheoli'r safle yn berson cymwys a phriodol | |
| Adran 29(6) – Penderfyniad awdurdod lleol nad yw person yn gymwys a phriodol | |
| Adran 30(5) – Penderfyniad awdurdod lleol i benodi rheolwr interim | |
| Adran 33(6)(c) – Gorchymyn ad-dalu, gan feddiannydd safle didrwydded | |
| Adran 49(5) – Datganiad ysgrifenedig o delerau cytundeb | |
| Adran 50(2) – Cytuno ar delerau mewn perthynas â materion Rhan 2 Atodlen 2 | |
| Adran 50(3)(a) neu 50(3)(b) – Dileu/amrywio telerau ymhlyg | |
| Adran 54 – unrhyw fater arall o dan y ddeddf | 3 |
| Atodlen 2 Pennod 2 Paragraff 7(1)(a) neu Bennod 4 Paragraff 40(1)(a) – Effaith niweidiol | |
| Atodlen 2 Pennod 2 Paragraffau 5, 6, 7(1)(b) – Terfynu cytundeb | |
| Atodlen 2 Pennod 2 Paragraff 10(3) – Gorchymyn gwrthod Perchennog y Safle | |
| Atodlen 2 Pennod 2 Paragraff 13(3) – Gorchymyn gwrthod i atal rhodd | |
| Atodlen 2 Pennod 4 Paragraff 42(8) – cymeradwyo aseiniad cytundeb y meddiannydd | |
| Atodlen 2 Pennod 2 Paragraffau 14(1) a (2) – adleoli cartref symudol i lain arall dros dro | |
| Atodlen 2 Pennod 2 Paragraffau 14(3) – gorchymyn i ddychwelyd cartref symudol i'w lain gwreiddiol | |
| Atodlen 2 Pennod 2 Paragraffau 17(1)(b) a 17(6)(a) – pennu ffi newydd am y llain | 48 |
| Atodlen 2 Pennod 2 Paragraff 18(1)(a)(iii) – gwelliannau i'w hystyried wrth adolygu'r ffi am y llain | |

| Apeliadau a Gofrestrwyd yn ôl Math | 2025-26 |
|---|---|
| Atodlen 2 Pennod 2 Paragraffau 17(15) a (16) – y perchennog i ad-dalu'r gwahaniaeth rhwng yr hen ffi a'r ffi newydd am y llain | |
| Adran 52(9) a (10) a Rheoliad 10(1) Rheoliadau Cartrefi Symudol 2014 – bwriad arfaethedig i wneud, amrywio neu ddileu rheolau'r safle | |
| Adran 52(9) a (10) a Rheoliad 17(1) Rheoliadau Cartrefi Symudol 2014 – methiant perchennog y safle i gyflwyno rheolau safle newydd neu ddiwygiedig, neu hysbysiad dileu, mewn pryd. | |
| **Cyfanswm** | **97** |

2.3 **Nifer y ceisiadau yn 2025-2026 yn ôl canlyniad**


Ystyrir bod achos terfynol yn gais sydd wedi'i gwblhau naill ai:

- os yw'r ceisydd wedi'i dynnu'n ôl; neu
- os ceir gwrandawiad lle mae'r Tribiwnlys yn dod i benderfyniad mewn perthynas â'r cais.




** Canlyniadau cymysg – pan ganiateir rhan o'r cais, ond nid y cyfan.

## 2.4 **Canlyniadau'r ceisiadau a gariwyd drosodd o 2024-25**




** Canlyniadau cymysg – pan ganiateir rhan o'r cais, ond nid y cyfan.

## 2.5 Nifer y ceisiadau a ddaeth i law yn 2025-2026 yn ôl math a chanlyniad

### Tribiwnlysoedd Prisio Lesddaliadau

| Math | Cariwyd drosodd | Caniatawyd | Canlyniadau cymysg | Gwrthodwyd | Tynnwyd yn ôl | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Anghydfodau yn ymwneud â Lesddaliadau** | | | | | | |
| Deddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad Atodlen 11 | 2 | | | | | 2 |
| Deddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad Adran 168(4) | 2 | 1 | | | 2 | 5 |
| Deddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad Pennod 1 | | | | | | |
| Deddf Landlord a Thenant Adran 20C | | | | | | |
| Deddf Landlord a Thenant Rhan IV | 1 | | | | | 1 |
| Deddf Landlord a Thenant Adran 24 | 11 | 1 | | | 1 | 4 |
| **Tâl Gwasanaeth Lesddaliadol** | | | | | | |
| Deddf Landlord a Thenant Adran 27 A | 10 | 1 | 1 | 16 | 3 | 31 |
| Deddf Landlord a Thenant Adran 20 ZA | 8 | 5 | | | 1 | 14 |
| **Rhyddfreinio Lesddaliadau** | | | | | | |
| Deddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad Adran 21(1)(ba) | | | | | | |
| Deddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad Adran 21(1)(a) | 1 | | | | 1 | 2 |

| Math | Cariwyd drosodd | Caniatawyd | Canlyniadau cymysg | Gwrthodwyd | Tynnwyd yn ôl | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Deddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol – adnewyddu lesddaliad | 2 | 1 | | | 1 | 4 |
| Deddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol – Landlord Coll | 1 | 1 | | | | 2 |
| Deddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol – Costau | 1 | | | | | 1 |
| Deddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol – Rhyddfreinio | | | | | | |
| Rhyddfreinio ar y Cyd | 1 | | | | | 1 |
| **Cymdeithas Tenantiaid** | | | | | | |
| Deddf Landlord a Thenant Adran 29 | | | | | | |
| **Arall** | | | | | | |
| Deddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol Adran 21 | | | | | | |
| Pridiannau Ystadau | | | | | | |
| Hepgor ffioedd Tribiwnlysoedd Prisio Lesddaliadau | | | | | | |
| Deddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad Adran 15 | 1 | 1 | | | 1 | 3 |
| **Cyfanswm** | **32** | **11** | **1** | **16** | **10** | **70** |

*Ewch i adran 2.2 i weld teitlau llawn y ceisiadau.

**Pwyllgorau Asesu Rhenti**

| Math | Cariwyd drosodd | Caniatawyd | Canlyniadau cymysg | Gwrthodwyd | Tynnwyd yn ôl | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 | 10 | 2 | 6 | 2 | 4 | 24 |
| Rhenti Teg | 2 | | 3 | | 1 | 6 |
| **Cyfanswm** | **12** | **2** | **9** | **2** | | **30** |

**Tribiwnlysoedd Eiddo Preswyl**

| Math | Cariwyd drosodd | Caniatawyd | Canlyniadau cymysg | Gwrthodwyd | Tynnwyd yn ôl | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gorchmynion Rheoli** | | | | | | |
| Gorchmynion rheoli | | | | | | |
| Gorchmynion Rheoli Anheddau Gwag | | | | | | |
| Gorchmynion Ad-dalu Rhent a Gorchmynion Atal Rhent | 9 | 5 | | 2 | 4 | 20 |
| Esemptiad dros dro | | | | | | |
| Gorlenwi | | | | | | |
| Penderfyniadau ynghylch tai amlfeddiannaeth | 16 | | | | | 16 |
| Gwrthod rhoi trwydded (a.27) | 2 | | | | | 2 |
| Hysbysiadau gwella/ Gorchmynion gwahardd | 5 | | | | 1 | 6 |
| Adennill Treuliau gan Awdurdodau Lleol | | | | | | |
| | | | | | | |
| Hepgor ffioedd | | | | | | |
| Cartrefi Symudol: | | | | | | |
| Adran 7(4)(b) | | | | | | |
| Adran 12(2) | | | | | 2 | 2 |

| Math | Cariwyd drosodd | Caniatawyd | Canlyniadau cymysg | Gwrthodwyd | Tynnwyd yn ôl | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Adran 14(1) | | | | | | |
| Adrannau 17(2) a 23(1) | | | | | | |
| Adrannau 21(9) a 23(1) | | | | | | |
| Adrannau 22(7) a 23(1) | | | | | | |
| Adran 28(2) | | | | | | |
| Adran 29(6) | | | | | | |
| Adran 30(5) | | | | | | |
| Adran 33(6)(c) | | | | | | |
| Adran 49(5) | | | | | | |
| Adran 50(2) | | | | | | |
| Adran 50(3)(a) neu 50(3)(b) | | | | | | |
| Adran 54 | 3 | | | | | 3 |
| Atodlen 2 Pennod 2 Paragraff 7(1)(a) | | | | | | |
| Atodlen 2 Pennod 2 Paragraffau 5, 6, 7(1)(b) | | | | | | |
| Atodlen 2 Pennod 2 Paragraff 10(3) | | | | | | |
| Atodlen 2 Pennod 2 Paragraff 13(3) | | | | | | |
| Atodlen 2 Pennod 4 Paragraff 42(8) | | | | | | |
| Atodlen 2 Pennod 2 Paragraffau 14(1) a (2) | | | | | | |
| Atodlen 2 Pennod 2 Paragraffau 14(3) | | | | | | |

| Math | Cariwyd drosodd | Caniatawyd | Canlyniadau cymysg | Gwrthodwyd | Tynnwyd yn ôl | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Atodlen 2 Pennod 2 Paragraffau 17(1)(b) a 17(6)(a) – | 46 | 1 | | 1 | | 48 |
| Atodlen 2 Pennod 2 Paragraff 18(1)(a)(iii) | | | | | | |
| Atodlen 2 Pennod 2 Paragraffau 17(15) a (16) | | | | | | |
| Adran 52(9) a (10) a Rheoliad 10(1) y Rheoliadau Cartrefi Symudol | | | | | | |
| Adran 52(9) a (10) a Rheoliad 17(1) y Rheoliadau Cartrefi Symudol | | | | | | |
| **Cyfanswm** | **81** | **6** | **0** | **3** | **7** | **97** |

Yn ystod 2025–26 roedd 45 gwrandawiad yn Nhribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru. Gwrandawiad yw pan fydd panel yn ymgynnull i wrando ar dystiolaeth gan y partïon sy'n berthnasol i'r cais hwnnw:

Cynhaliwyd 30 cynhadledd ar bapur. Cynadleddau ar bapur yw pan fydd y panel yn ymgynnull i benderfynu heb i'r partïon fod yn bresennol.

## Adolygiadau ac apeliadau

Gall partïon wneud cais am adolygiad o benderfyniad Tribiwnlys ar sail gyfyngedig.

Caiff partïon Tribiwnlysoedd Prisio Lesddaliadau a Thribiwnlysoedd Eiddo Preswyl wneud cais i'r Tribiwnlys am ganiatâd i apelio i'r Uwch Dribiwnlys os ydynt yn credu bod penderfyniad y Tribiwnlys yn anghywir ar bwynt cyfreithiol. Gall Pwyllgorau Asesu Rhenti wneud cais yn uniongyrchol i'r Uwch Dribiwnlys.

Cafwyd 2 gais am apêl yn ystod 2025-2026. Cafodd pob cais am apêl ei wrthod. Ni roddwyd caniatâd i apelio i'r Uwch Dribiwnlys i unrhyw gais. Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw apeliadau'n cael eu gwneud i'r Uwch Dribiwnlys.

## Cyflawni yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol

Er mwyn monitro pa mor effeithiol y darperir gwasanaethau, mae gennym ddangosyddion perfformiad allweddol sydd â'r nod o fesur dwy agwedd allweddol ar ein busnes: cyflymder ein gwasanaeth ac ansawdd y gwasanaeth drwy fodlonrwydd cwsmeriaid.

Er mwyn mesur cyflymder ein gwasanaeth, mae gennym gyfres o ddangosyddion perfformiad sylfaenol sy'n seiliedig ar yr amser a gymerir i brosesu cais – o'r adeg pan fo'r cais yn dod i law i wrando neu waredu'r cais.

I fesur bodlonrwydd cwsmeriaid, fe wnaethom ddefnyddio dangosydd sy'n deillio o arolygon cyfnodol o gwsmeriaid a ddyroddir gyda phenderfyniadau'r Tribiwnlys.

## Cyflymder ein gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Targed:** Ymdrin â 95% o'r ceisiadau a gofrestrir neu'r ymholiadau cyn-cofrestru o fewn 10 diwrnod gwaith i ffurflen gais ddod i law | Cyflawnwyd y targed mewn 100% o achosion |
| **Targed:** Ymateb i 95% o'r holl ohebiaeth o fewn 10 diwrnod gwaith iddi ddod i law | Cyflawnwyd y targed mewn 97% o achosion |
| **Targed:** Rhestru 95% o wrandawiadau o fewn 40 diwrnod gwaith i'w cofrestru | Cyflawnwyd y targed mewn 95% o achosion |
| **Targed:** Dyroddi 100% o'r hysbysiadau o wrandawiad o fewn 20 diwrnod i'r gwrandawiad | Cyflawnwyd y targed mewn 100% o achosion |
| **Targed:** Dyroddi 90% o benderfyniadau o fewn 30 diwrnod i'r gwrandawiad | Cyflawnwyd y targed mewn 80% o achosion |
| **Targed:** Rhyddhau 95% o geisiadau o fewn 18 mis | Cyflawnwyd y targed mewn 95% o achosion |

## Cwynion

Cafodd y Tribiwnlys ddwy gŵyn ffurfiol am y broses weinyddu yn ystod 2025-26.

# Anecs 6

Tribiwnlys y Gymraeg
Welsh Language Tribunal

# Adroddiad Blynyddol Tribiwnlys Y Gymraeg

**Y Barnwr Betsan Criddle CB – Llywydd Tribiwnlys y Gymraeg**

## Cyflwyniad

1. Rwy'n falch o gyflwyno fy ail adroddiad blynyddol fel Llywydd Tribiwnlys y Gymraeg.

2. Mae'r flwyddyn hon wedi bod yn hynod ddiddorol. Er mai bach yw nifer yr achosion sy'n cael eu trin gan y Tribiwnlys, maent yn codi pwyntiau pwysig ynglŷn ag ystyr a chwmpas y Safonau. Rydym yn parhau i drefnu gwrandawiadau rhithwir ac wyneb yn wyneb, sy'n caniatáu inni gyfuno effeithiolrwydd technoleg newydd mewn achosion priodol, gyda gwrandawiadau wyneb yn wyneb pan fydd yr angen yn codi.

3. Yn y cyd-destun hwn, rwy'n falch o gael y cyfle i groesawu pedwar Aelod Lleyg newydd i'r Tribiwnlys. Rwy'n siŵr y byddant yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i'n gwaith. Croeso cynnes i'r Parchedig Wynne Roberts, Mariel Jones, Bill Brereton ac Owain Studley.

4. Mae'r holl Aelodau a'r staff gweinyddol yn parhau i weithio'n agos gyda'i gilydd i sicrhau bod ein gwaith yn mynd rhagddo'n esmwyth. Edrychaf ymlaen at barhau â gwaith pwysig y Tribiwnlys yn y flwyddyn i ddod.

## Trosolwg o'r Tribiwnlys

### Y Sail Gyfreithiol

5. Mae Tribiwnlys y Gymraeg yn dribiwnlys statudol a sefydlwyd o dan adran 120 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ('y Mesur'). Swyddogaeth y Tribiwnlys yw penderfynu ar apeliadau yn erbyn penderfyniadau Comisiynydd y Gymraeg ('y Comisiynydd') mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg.

### Y Swyddogaeth

6. Mae'r Mesur yn galluogi'r Tribiwnlys i wrando ar y materion canlynol:

   - Apeliadau yn erbyn penderfyniadau'r Comisiynydd o ran gosod Safonau ar gyrff a swyddogion sy'n arfer swyddogaethau neu'n cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.
   - Apeliadau gan berson, y gwnaed cwyn yn ei erbyn, yn erbyn penderfyniadau gan y Comisiynydd, ar ddiwedd ymchwiliad, ynghylch methiant i gydymffurfio â gofyniad Safon.
   - Apeliadau gan achwynydd yn erbyn penderfyniad y Comisiynydd, ar ddiwedd ymchwiliad, nad oedd person, y gwnaed cwyn yn ei erbyn, wedi methu â chydymffurfio â Safon.
   - Apeliadau yn erbyn camau gorfodi sy'n cael eu cymryd gan y Comisiynydd.

- Apeliadau yn erbyn hysbysiadau tystiolaeth a ddyroddir gan y Comisiynydd yn ystod ymchwiliad.
- Adolygiadau o benderfyniadau ar ran y Comisiynydd i beidio ag ymchwilio i gŵyn (neu i derfynu ymchwiliad heb ddod i benderfyniad).

## Y Rheolau

7. Mae'r Tribiwnlys yn gweithredu'n unol â'i reolau gweithdrefnol – Rheolau Tribiwnlys y Gymraeg 2015 ('y Rheolau'). Pwrpas y Rheolau hyn yw sicrhau bod yr holl achosion sy'n dod o flaen y Tribiwnlys yn cael eu trin yn deg, yn gyson ac yn brydlon. Maent yn sicrhau y bydd y rhai sy'n dod ag achos o flaen y Tribiwnlys yn deall yn union pa gamau y mae'n rhaid iddynt eu cymryd er mwyn i ffeithiau'r anghydfod a'r dadleuon perthnasol fedru cael eu cyflwyno'n effeithiol i'r Tribiwnlys. Maent hefyd yn sicrhau bod pob parti yn yr achos yn deall dadleuon y partïon eraill ac yn gallu ymateb iddynt.

8. Mae Rheolau'r Tribiwnlys yn egluro:

   - Yr egwyddorion sylfaenol ac yn diffinio termau allweddol a ddefnyddir gan y Tribiwnlys.
   - Sut mae Aelodau'r Tribiwnlys yn cael eu dewis ar gyfer pob achos.
   - Sut i gychwyn cais gyda'r Tribiwnlys.
   - Beth sydd angen ei wneud i baratoi achos ar gyfer gwrandawiad.
   - Pwerau'r Tribiwnlys i reoli achosion, gan gynnwys cyfarwyddiadau y gall eu rhoi i'r partïon cyn gwrandawiad.
   - Sut mae gwrandawiadau'n gweithio a sut mae penderfyniadau ffurfiol yn cael eu gwneud.
   - Beth sy'n digwydd ar ôl penderfyniad, gan gynnwys trefniadau i adolygu penderfyniadau neu apeliadau i'r Uchel Lys.
   - Manylion gweinyddol eraill, fel cofnodi penderfyniadau, cyflwyno dogfennau, a gosod dyddiadau cau.

## Y Broses

9. Mae gan Lywydd y Tribiwnlys awdurdod, o dan adran 124 o'r Mesur a rheol 4 o'r Rheolau, i ddyroddi Cyfarwyddiadau Ymarfer i egluro arferion a gweithdrefnau'r Tribiwnlys. Mae'r Cyfarwyddiadau Ymarfer yn rhoi cyngor ymarferol ar sut i ddehongli a chymhwyso'r Rheolau.

10. Mae 4 Cyfarwyddyd Ymarfer sy'n ymwneud â'r canlynol:

    - Cyfarwyddyd Ymarfer 1 – Cychwyn achos
    - Cyfarwyddyd Ymarfer 2 – Y defnydd o ieithoedd y Tribiwnlys
    - Cyfarwyddyd Ymarfer 3 – Arfer swyddogaethau'r Tribiwnlys
    - Cyfarwyddyd Ymarfer 4 – Ceisiadau i'r Tribiwnlys i ganslo hysbysiad tystiolaeth.

11. Ceir gwybodaeth lawn a chanllawiau ynghylch y Tribiwnlys a'i weithdrefnau ar ei wefan, yn https://tribiwnlysygymraeg.llyw.cymru/canllawiau-ffurflenni ac yn https://tribiwnlysygymraeg.llyw.cymru/cyfarwyddiadau-ymarfer

## Strwythur y Tribiwnlys

**Llywydd**
Betsan Criddle CB

**1 Barnwr Tribiwnlys**
Rhodri Williams CB

**6 Aelod Arbenigol**
Dr Glenda Jones
Eifion Jones
Parch. Wynne Roberts
Mariel Jones
William Brereton
Owain Studley

## Blaenoriaethau Busnes 2026-27

12. Mae'n bwysig bod y Tribiwnlys yn parhau i ddatblygu er mwyn darparu'r gwasanaeth gorau posibl i'n defnyddwyr. Mae'r adran hon yn ymwneud â sut y bydd y Tribiwnlys yn adeiladu ar ei gyflawniadau drwy ganolbwyntio ar flaenoriaethau busnes a'n hymrwymiad i'n defnyddwyr.

13. Mae ein blaenoriaethau dros y flwyddyn nesaf fel a ganlyn:

- Cynllunio a chynnal hyfforddiant ar gyfer yr aelodau i gyd.
- Parhau i fonitro a diweddaru gwefan Tribiwnlys y Gymraeg.
- Darparu gwasanaeth o ansawdd uchel.
- Mireinio dulliau'r Tribiwnlys o weithio, ar sail profiad o ddelio ag achosion, er mwyn sicrhau gwaith o'r safon uchaf wrth ystyried a dod i benderfyniad ar achosion.
- Cynnal gwrandawiadau wyneb yn wyneb pan fo hynny'n bosibl ond parhau i gynnal gwrandawiadau rhithwir os yw hynny'n cael ei ffafrio ac yn deg mewn perthynas â'r achos a'r partïon.
- Parhau i ddatblygu gwybodaeth i'w chynnwys yn rhan o'r ffurflen gais wreiddiol, er mwyn gwella effeithlonrwydd achosion.

## Tribiwnlys y Gymraeg

### Ystadegau Achosion a Dangosyddion Perfformiad Allweddol

#### Niferoedd ac ystadegau

Mae'r Mesur yn galluogi unigolyn neu sefydliad i apelio i'r Tribiwnlys ar y materion canlynol:

- Adran 58 – Penderfyniad gan y Comisiynydd nad yw'r gofyniad i gydymffurfio â safon (neu i gydymffurfio â safon mewn modd penodol) yn afresymol nac yn anghymesur.
- Adran 95(2) – Penderfyniad gan y Comisiynydd y bu methiant i gydymffurfio â gofyniad safon.
- Atodlen 10, paragraffau 9 a 10 – apeliadau yn erbyn hysbysiadau tystiolaeth a ddyroddir gan y Comisiynydd yn ystod ymchwiliad.
- Adran 95(4) – Cam gorfodi y mae'r Comisiynydd wedi penderfynu ei gymryd.
- Adran 99(2) – Penderfyniad gan y Comisiynydd na fu methiant i gydymffurfio â safon.
- Adran 103 – Penderfyniad gan y Comisiynydd i beidio â chynnal ymchwiliad i gŵyn (neu i derfynu ymchwiliad).

#### Ceisiadau

Cafwyd tri chais newydd yn ystod 2025-26 ac mae'r Tribiwnlys hefyd wedi ymdrin ag un cais a drosglwyddwyd o 2024-2025. Mae 'trosglwyddo' yn y cyd-destun hwn yn golygu bod yr achos wedi dod i law cyn 2025-2026, a'i drosglwyddo i 2025-2026 gan nad oedd y cais wedi'i gwblhau cyn diwedd y flwyddyn y cafwyd y cais ynddi.

| Math o gais | Nifer a gafwyd yn 2025-26 | Trosglwyddwyd o 2024-25 | Trosglwyddwyd i 2026-27 |
|---|---|---|---|
| Adran 58 | - | - | - |
| Adran 95(2) | - | - | - |
| Adran 95(4) | - | - | - |
| Adran 99(2) | - | - | - |
| Adran 103 | 3 | 1 | - |
| **Cyfanswm** | **3** | **1** | **0** |

#### Sut y datryswyd achosion yn 2025-26

| Achosion o dan Adrannau 58, 95(2), 95(4) neu 99(2) | |
|---|---|
| Dileu'r cais | - |
| Gwrthod yr apêl | - |
| Derbyn yr apêl | - |

| Achosion o dan Adran 103 | |
|---|---|
| Gwrthod caniatâd i wneud cais | 3 |
| Rhoi caniatâd i wneud cais | 1 |
| Gwrthod apêl ar ôl rhoi caniatâd | - |
| Derbyn apêl ar ôl rhoi caniatâd | 1 |

## Gwrandawiadau

Yn ystod 2025-26 cynhaliodd y Tribiwnlys:

- 2 wrandawiad panel.

## Adolygiadau mewnol ac apeliadau i'r Uchel Lys

Adolygiad mewnol o benderfyniad y Tribiwnlys

Caiff parti wneud cais i'r Tribiwnlys i adolygu ei benderfyniad ar sail:

(a) bod y penderfyniad a wnaed yn anghywir oherwydd gwall sylweddol ar ran gweinyddiaeth y Tribiwnlys;

(b) bod gan barti a oedd â hawl i gael ei glywed yn y gwrandawiad, ond a fethodd ag ymddangos neu gael ei gynrychioli, reswm da a digonol dros beidio ag ymddangos, neu

(c) bod gwall amlwg a phwysig yn y penderfyniad.

Rhaid i gais am adolygu penderfyniad y Tribiwnlys gael ei wneud yn ysgrifenedig, gan nodi'r seiliau, heb fod yn hwyrach na 28 o ddiwrnodau ar ôl y dyddiad yr anfonwyd y penderfyniad at y partïon.

Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, ni chafwyd unrhyw geisiadau am adolygiad mewnol o benderfyniad.

## Apeliadau i'r Uchel Lys

Gall parti, gyda chaniatâd y Tribiwnlys neu'r Uchel Lys, apelio i'r Uchel Lys ar bwynt cyfreithiol sy'n deillio o benderfyniad y Tribiwnlys.

Rhaid i'r Tribiwnlys gael eich cais am ganiatâd i apelio i'r Uchel Lys o fewn 28 diwrnod calendr o'r dyddiad y cafodd y partïon eu hysbysu o benderfyniad y Tribiwnlys. Mater i'r person sy'n ystyried apêl yw cael ei gyngor cyfreithiol ei hun.

Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, ni chafwyd unrhyw geisiadau am ganiatâd i apelio i'r Uchel Lys yn erbyn penderfyniad y Tribiwnlys.

## Cwynion

Ni chafodd y Tribiwnlys gŵyn yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn.

## Effeithiolrwydd ein gwasanaeth

Ymdriniodd y Tribiwnlys â phedwar cais yn 2025-2026.

O'r ceisiadau newydd a gafwyd yn 2025-2026:

Achos 1: cais o dan adran 103.
Gwrthodwyd caniatâd o fewn 14 o ddiwrnodau i gael y cais.

Achos 2: cais o dan adran 103.
Gwrthodwyd caniatâd o fewn 11 o ddiwrnodau i gael y cais.

Achos 3: cais o dan adran 103.
Gwrthodwyd caniatâd o fewn 11 o ddiwrnodau i gael y cais.

Yn achos y cais a drosglwyddwyd o 2024-2025:

Achos 4: cais o dan adran 103
Gwrthodwyd caniatâd o fewn 22 o ddiwrnodau i gael y cais. Rhoddwyd caniatâd o fewn 13.7 o wythnosau i gael cais i ailystyried (8 diwrnod ar ôl gwrandawiad y cais ailystyried). Rhoddwyd y cais o sylwedd o fewn 29.1 o wythnosau i roi caniatâd (17 diwrnod ar ôl gwrandawiad y cais o sylwedd).